# Adroddiad Gwinllannoedd a Thwristiaeth Cymru



Ymateb
Promar International
i:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paratowyd yr adroddiad gan:

EMMA GOUGH, UWCH YMGYNGHORYDD

☎ 01270 616 800
✉ emma.gough@genusplc.com
💻 www.promar-international .com

Promar International Ltd
Alpha Building
London Road
Stapeley
Nantwich
CW5 7JW

Adroddiad Terfynol Gorffennaf 2021

Preifat a Chyfrinachol

# Tabl Cynnwys

BYRFODDAU 4
METHODOLEG ..... 5
CYDNABYDDIAETHAU ..... 5
ADRAN 1. CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 6
1.1 Trosolwg ..... 6
1.2 Twristiaeth ..... 7
1.3 Cyfraniad i Economi Cymru ..... 7
1.4 Strwythur a Nodweddion Diwydiant Gwinllannoedd Cymru ..... 8
1.4.1 Datblygu'r Diwydiant ..... 8
1.4.2 Y Llwybr i'r Farchnad ..... 8
1.4.3 Ansawdd a Phrosesu ..... 8
1.4.4 Marchnata a Defnyddio'r Gymraeg ..... 9
1.4.5 Cynaliadwyedd ..... 9
1.4.6 Ehangu'r Diwydiant ..... 9
1.4.7 Y Gefnogaeth sydd ar gael i'r Diwydiant ..... 10
1.4.8 Creu USP ..... 10
1.4.9 Datblygiad y Sector yn y Dyfodol ..... 11
1.5 Rôl LlC a'r SIG ..... 12
1.6 Rôl y Gwinllannoedd ..... 13
ADRAN 2. TROSOLWG O SECTOR GWINLLANNOEDD A THWRISTIAETH CYMRU ..... 14
2.1 Cynhyrchu Gwin yng Nghymru ..... 14
2.2 Y Llwybr i'r Farchnad ..... 16
ADRAN 3: ARDALOEDD EFFAITH ALLWEDDOL ..... 19
3.1 Datblygiadau yn Sector Gwinllannoedd a Thwristiaeth Cymru ..... 19
3.1.1 Defnydd o'r Gymraeg ..... 21
3.1.2 Newidiadau Disgwyliedig a Chyfleoedd yn y Dyfodol ..... 22
Cysylltiadau â Pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ..... 24
3.2 Cyfraniad i Economi Cymru ..... 25
3.2.1 Refeniw ..... 25
3.2.2 Cwsmeriaid ..... 25
3.2.3 Cyflogaeth ..... 26
3.3 Y Gefnogaeth sydd ar gael i Sector Gwinllannoedd a Thwristiaeth Cymru ..... 27
3.3.1 Cefnogaeth Gyffredinol ..... 27
3.3.2 Cymorth Penodol i Ddiwydiant Gwinllannoedd Cymru ..... 28
3.3.3. Gweithgarwch CC Ychwanegol yn y Farchnad Gartref a'r DU yn ehangach, gan Gysylltu â Mentrau Croeso Cymru ..... 29

3.3.4 Datblygu Sgiliau a Chyfleusterau Hyfforddi Pwrpasol yng Nghymru .......... 29
3.3.5 Datblygu Cadwyn Gyflenwi Gadarn a Chydweithredol .......... 30
3.3.6 Gwella Ansawdd a Datblygu Amrywogaethau .......... 30
3.4 Arloesi gyda Chynnyrch .......... 32
3.4.1 Ansawdd a Delwedd y Diwydiant .......... 32
3.4.2 Cynaliadwyedd .......... 32
3.4.3 Tueddiadau Cwsmeriaid .......... 32
3.4.4 Datblygu Amrywogaethau a Marchnata .......... 33
3.5 Datblygu Brand Cymreig .......... 33
3.5.1 Y Brand .......... 33
3.5.2 Ardystio a Tharddiad .......... 34
3.6 Perthnasedd Statws PDO/PGI .......... 34
3.7 Rôl Llywodraeth Cymru, y Diwydiant a SIG Gwin .......... 35
3.7.1 Rôl LlC .......... 35
3.7.2 Y SIG .......... 36
3.7.3 Cyrff Sector Gwin Gwyn .......... 37
3.7.4 Rôl y Gwinllannoedd .......... 38
ADRAN 4. ASTUDIAETHAU ACHOS RHYNGWLADOL .......... 39
4.1 Cyflwyniad .......... 39
4.2 De Affrica .......... 40
4.2.1 Maint a Thwf y Diwydiant .......... 40
4.2.2. Strwythur Sefydliadol Diwydiant Gwin De Affrica .......... 41
4.2.3 Rhanbarthau Cynhyrchu .......... 42
4.2.4 Marchnadoedd .......... 42
4.2.5 Effaith COVID - 19 .......... 43
4.2.6 Cyflogaeth .......... 43
4.2.7 Rôl Twristiaeth .......... 44
4.2.8 Datblygiadau yn y Dyfodol yn Sector Gwin De Affrica .......... 45
4.3 Seland Newydd .......... 45
4.3.1 Hanes a Throsolwg .......... 45
4.3.2 Maint a Thwf y Diwydiant .......... 45
4.3.3 Datblygu'r Diwydiant .......... 46
4.3.4 Cyflogaeth a Chynaliadwyedd .......... 47
4.3.5 Marchnadoedd .......... 47
4.3.6 Enghreifftiau o Dwristiaeth Gwin .......... 48
4.3.7 Datblygiad Sector Gwin Seland Newydd yn y Dyfodol .......... 49
4.4. Nova Scotia .......... 49
4.4.1 Maint a Thwf y Diwydiant .......... 49

4.4.2 Strwythur Sefydliadol Diwydiant Gwin Novia Scotia ........ 50
4.4.3 Rhanbarthau Cynhyrchu ........ 50
4.4.4 Marchnadoedd ........ 50
4.4.5 Cyflogaeth ........ 51
4.4.6 Rôl Twristiaeth ........ 51
4.4.7 Hyfforddiant a Chefnogaeth Arall ar gyfer Datblygu ........ 51
4.5 Lloegr ........ 52
4.5.1 Hanes a Throsolwg ........ 52
4.5.2 Prif Gynhyrchwyr ........ 52
4.5.3 Ffactorau ar gyfer Twf ........ 52
4.5.4 Twristiaeth Gwin ........ 53
4.5.5 Y Dyfodol ........ 53
4.6 Tasmania ........ 53
4.6.1 Hanes a Throsolwg ........ 53
4.6.2 Prif Gynhyrchwyr ........ 54
4.6.3 Prif Amrywogaethau o Winwydd ........ 54
4.6.4 Ffactorau ar gyfer Twf ........ 54
4.6.5 Twristiaeth Gwin ........ 55
4.7 Gwersi Trosglwyddadwy i Gymru ........ 55
ADRAN 5. DADANSODDIAD SWOT ........ 57
5.1 Cryfderau ........ 57
5.2 Gwendidau ........ 58
5.3 Cyfleoedd ........ 60
5.4 Bygythiadau ........ 62
ADRAN 6. MODEL PEDWAR CAM CYNHYRCHWYR CYMRU ........ 64
6.1 Cam 1 - Rhan Amser ac Fel Hobi ........ 65
6.2 Cam 2 – Cynhyrchwyr ar raddfa fach ........ 65
6.3 Cam 3 - Rheolwyr ........ 65
6.4 Cam 4 – Arweinwyr ........ 65
6.5 Sut i Fynd o un Cam i'r llall yn y Model 4 Cam ........ 66
ADRAN 7. CASGLIADAU A CHAMAU NESAF ........ 68
7.1 Casgliadau ........ 68
7.2 Argymhellion ........ 70
7.2.1 Rôl LlC yn y Dyfodol ........ 70
7.2.2 Rôl SIC yn y Dyfodol ........ 71
7.2.3 Rôl Gwinllannoedd yn y Dyfodol ........ 71
ADRAN 8. ATODIADAU ........ 73
8.1 Atodiad 1 - Methodoleg ........ 73

8.2 Atodiad 2 – Rhestr Gwinllannoedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ...................................... 75

# Byrfoddau

Defnyddir y canlynol yn gyffredin drwy gydol yr adroddiad hwn:

- B2B – Busnes i Fusnes
- CAGR - Cyfradd Twf Cyfansawdd Flynyddol
- CFf – Cyswllt Ffermio
- LlC – Llywodraeth Cymru
- NZW – Gwin Seland Newydd (bwrdd ardoll)
- PDO – Enw Tarddiad Dynodedig
- PGI – Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig
- POS – Pwynt Gwerthu
- SAWIS - Gwybodaeth a Systemau Diwydiant Gwin De Affrica
- SIG – Grŵp Diddordeb Arbennig (Gwin)
- USP – Pwynt Gwerthu Unigryw

# Methodoleg

Ar gyfer y prosiect hwn, cynhaliwyd y rhaglen waith ganlynol:

- ymchwil desg dethol o ffynonellau fel Wine GB, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Croeso Cymru, Defra a Llywodraeth Cymru (LlC) ei hun.
- cyfweliadau â 19 o winllannoedd yng Nghymru
- ymgynghoriadau â 7 sefydliad arall sy'n rhanddeiliaid yn y diwydiant
- hefyd darparwyd rhestr wedi'i diweddaru o winllannoedd i Lywodraeth Cymru, i'w chynnwys rywbryd yn y dyfodol, mewn Cyfeiriadur Cynhyrchwyr

Cafwyd nifer o gyfarfodydd diweddaru gyda staff o Lywodraeth Cymru ar wahanol gamau o'n gwaith.

Yn yr adroddiad, rydym wedi ail-gynhyrchu nifer o "ddyfyniadau masnach" o'n cyfweliadau ymchwil i roi gwell darlun o'r pwyntiau yr ydym yn eu gwneud, ond ni ellir priodoli'r rhain i ymatebwyr unigol.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Promar International[1] ddiolch i'r holl ymatebwyr y buom mewn cysylltiad â nhw yn ystod yr aseiniad hwn, ac am eu hamser a'u cymorth, ond yn benodol, y mewnbwn a gafwyd gan berchnogion y gwinllannoedd eu hunain. Gwerthfawrogir hyn yn fawr.

[1] Mae Promar International yn gwmni ymgynghorol sy'n ymchwilio i'r farchnad sy'n gweithio yn y sectorau amaethyddol, bwyd a diod ac fe'i sefydlwyd yn wreiddiol ar ddiwedd y 1950au. Rydym wedi gwneud llawer iawn o waith yng Nghymru yn y gorffennol. Rydym wedi gweithio ar aseiniadau yn y sector gwin yn Chile, De Affrica, Seland Newydd, yr Unol Daleithiau, Canada, Bwlgaria a Hwngari

At ddibenion yr aseiniad hwn, bu Francis Flavin hefyd yn rhan o'n tîm ymchwil craidd. Mae Francis wedi gweithio i Davy &Co yn Llundain a hefyd bu'n gweithio yn yr holl brif ardaloedd dros y byd sy'n cynhyrchu gwin https://www.linkedin.com/in/francis-flavin-14481636

# Adran 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Trosolwg

Ar sail ein hymchwil mae Promar yn amcangyfrif bod tua 164 erw o winwydd wedi'u plannu yng Nghymru ar hyn o bryd. O'r rhain, mae'r rhan fwyaf i'w cael yn Ne Cymru lle ceir 62 erw ac yng Ngorllewin Cymru lle ceir 61 erw.

Mae data gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn awgrymu bod 38 o winllannoedd yng Nghymru. Mae hyn yn nifer uwch nag a ystyriwyd yn gyffredinol yn y gorffennol. Y ffigur a roddwyd i ni ar ddechrau'r aseiniad hwn oedd 28. Ni fydd rhai o'r gwinllannoedd hyn yn cynhyrchu. Yn ystod ein hymchwil, buom yn siarad â 19 ohonynt[2]. Mae data'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn awgrymu bod yr ardal sy'n cael ei thrin ychydig yn llai, sef 155 erw.

Mae amcangyfrifon amrywiol ar gyfer lefel a gwerth cynhyrchu gwin yng Nghymru. Mae data'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer 2018 yn awgrymu bod 127,869 o boteli wedi'u cynhyrchu yng Nghymru, ond yn 2020, dim ond tua 43,000 a gynhyrchwyd.

Mae amcangyfrifon y diwydiant ei hun wedi awgrymu bod y ffigur oddeutu 100,000 o boteli, ond gydag, efallai 70 – 80,000 o boteli eraill mewn stoc ar unrhyw un adeg [3].

Mae amcangyfrifon Promar sy'n seiliedig ar adborth o gyfweliadau yn awgrymu bod y ffigur yn agosach at 180,000 o boteli.

Fodd bynnag, os defnyddir ffigur diweddaraf yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef dim ond 43,000 o boteli, mae hyn yn cyfateb i werth cynhyrchu o tua £387,000 y flwyddyn[4]. Yn y Pwynt Gwerthu (POS), byddai hyn yn werth tua £774,000.

O ran datblygiad y diwydiant yn y dyfodol, pan fydd nifer o winllannoedd nad ydynt yn cynhyrchu ar hyn o bryd yn "dechrau cynhyrchu", a phan fydd gwinllannoedd eraill yn gallu cynyddu cynhyrchiant, gallai nifer y poteli a gynhyrchir yng Nghymru gynyddu i tua 400,000 y flwyddyn.

Byddai hyn yn rhoi gwerth cynhyrchu o tua £3.6 miliwn ac yn y POS, tua £7.2 miliwn.

Mae cydberthynas gref rhwng gwinllannoedd Cymru a'r sector twristiaeth. Roedd y rhan fwyaf o winllannoedd a oedd yn rhan o'n proses ymchwil naill ai'n cynnig arlwy twristiaeth i'w cwsmeriaid, neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, er eu bod o wahanol natur a graddfeydd. Dywedodd llawer o winllannoedd na fyddent yn gallu gwneud elw heb yr arlwy twristiaeth.

---

[2]Roedd un ohonynt yn union ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac felly nid yw'r gwin a gynhyrchir ganddynt wedi'i gynnwys gan eu bod ar ochr Lloegr i'r ffin

[3] SIG y Diwydiant Gwin ac aelodau allweddol

[4] Yn seiliedig ar £9 y botel - ffynhonnell: amcangyfrifon y diwydiant

## 1.2 Twristiaeth

Mae twristiaeth yn cyfrif am hyd at 50% o refeniw rhai busnesau, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu ar raddfa fach iawn. Amcangyfrifwn fod gwerth uniongyrchol twristiaeth sy'n seiliedig ar win i ddiwydiant Cymru oddeutu £10.0 miliwn y flwyddyn[5], o'i gymharu â gwerth cynhyrchu gwin gwirioneddol sydd ychydig yn llai na £0.4 miliwn y flwyddyn.

Nid ydym wedi ystyried ffactorau eraill ar hyn o bryd megis yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel incwm anuniongyrchol neu ysgogedig[6]. Gan edrych tua'r dyfodol, daw twf, o ran swyddi a buddsoddiad o ochr dwristiaeth y diwydiant yn llawer cynt na'r ochr gynhyrchu gwinllan.

## 1.3 Cyfraniad i Economi Cymru

Yn ôl ein gwaith ymchwil a'r rhai y buom yn siarad â nhw, mae tua 150 o bobl yn cael eu cyflogi'n rhan-amser o fewn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru, ac mae 70 o bobl ychwanegol yn cael eu cyflogi'n llawn amser. Cyflogir y rhan fwyaf o'r rhai a gyflogir yn y sector ar yr ochr dwristiaeth. Os caiff y ffigur ei gynnwys yn ffigur yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gallai fod bron i 400 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector.

Fodd bynnag, nid yw nifer fawr o weithwyr sy'n gweithio o fewn y diwydiant yn weithwyr ffurfiol (e.e. gallant fod yn aelodau o'r teulu, a ddefnyddir ar sail ad hoc neu ffrindiau, a ddefnyddir ar gyfnodau prysur adeg cynaeafu). O'r herwydd, nid yw nifer o'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu talu'n ffurfiol am eu gwaith.

Mae adborth o'n cyfweliadau yn dangos, ar gyfer y rhai a gyflogir yn ffurfiol yn y sector hwn, fod ychydig o dan £2 filiwn y flwyddyn yn cael ei wario ar gyflogau. Os defnyddir data'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel sail, gallai'r ffigur hwn fod hyd at £4 miliwn y flwyddyn.

Er bod y cyfraniad cyffredinol tuag at economi Cymru o'r sector gwinllannoedd yn fach ar hyn o bryd, mae'r diwydiant yn newydd ac yn dal i ddatblygu. Fodd bynnag, mae ganddo'r potensial i dyfu'n llawer mwy yn y dyfodol.

Mae teimlad cyffredinol o optimistiaeth o fewn y sector, gyda llawer o winllannoedd yn ystyried ehangu eu harlwy twristiaeth a'r gwin a gynhyrchir yn y dyfodol. Mae hwn hefyd yn ddiwydiant balch iawn - yn falch o'i gynnyrch, yn falch o ansawdd ei gynnyrch (er y cydnabyddir bod gormod o anghysondeb yn hyn o hyd), yn falch o'i dreftadaeth - ac yn falch o'i "Gymreictod".

Mae pobl yn teimlo'n angerddol iawn o fewn sector gwin Cymru y dylai twristiaeth ffynnu ac y dylid hyrwyddo tarddiad y cynnyrch. Roedd tystiolaeth o ddatblygu economaidd pellach yn y dyfodol, gan fod llawer o gyfweliadau ymchwil wedi datgelu cynlluniau i gynyddu nifer eu herwau, cynyddu'r arlwy twristiaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd/cwsmeriaid o'r sector yn y 5 mlynedd nesaf.

[5]Yn seiliedig ar ddata gan Levercliff a chyfrifiadau diwydiant

[6] Mae hyn yn cynnwys incwm a gynhyrchir gan ddarparwyr gwasanaethau i'r sector gwin neu wariant gan weithwyr yn sector gwin Cymru o ddydd i ddydd. Pe bai hyn yn cael ei ystyried, gallai unwaith eto ddyblu'r nifer, yn seiliedig ar amcangyfrifon o rannau eraill o'r byd

## 1.4 Strwythur a Nodweddion Diwydiant Gwinllannoedd Cymru

### 1.4.1 Datblygu'r Diwydiant

Ers diwedd y 1970au, ar gyfartaledd, mae tua 1 - 2 o winllannoedd newydd wedi'u sefydlu bob blwyddyn yng Nghymru[7]. Mae 80% o winllannoedd yn dal i fod yn llai na 7 erw (3 ha) o ran maint. Dim ond 2 sy'n 24 erw (10 ha) a mwy o ran maint.

### 1.4.2 Y Llwybr i'r Farchnad

Mae'r rhan fwyaf o winllannoedd Cymru yn gwerthu eu gwin drwy "ddrws y seler" (h.y. o'r winllan ei hun, a hynny i siopau bwyd lleol, unigolion preifat a thwristiaid/ymwelwyr eraill). Mae hyn yn cyfrif am tua 77% o'r holl werthiannau ar draws y sector[8].

Mae rhai gwinllannoedd o Gymru yn amcangyfrif bod hyd at 90% o werthiannau o ddrws y seler i dwristiaid.

Ymhlith y sianeli gwerthu ychwanegol mae all-fasnach (siopau lleol) 9%; gwerthiannau ar-lein ar 7%; ar-fasnach (gwestai, bwytai, caffis); yn ogystal â gwerthiannau cyfanwerthu – mae'r rhain tua 3%.

Mae effaith COVID-19 wedi golygu bod nifer o winllannoedd wedi gweld eu gwerthiant i'r sector ar-fasnach yn gostwng yn 2020, wrth i'r lleoliadau hyn orfod cau am gyfnodau hir. O ganlyniad, symudodd gwerthiant yn aml tuag at y sianel ar-lein, fel arfer drwy ddatblygu gwefannau unigol. Ar gyfer rhai gwinllannoedd, mae gwerthiant ar-lein bellach yn cyfrif am tua 50% o gyfanswm eu gwerthiannau.

Mae nifer fach o gynhyrchwyr o Gymru (dim ond dau hyd y gwyddom) wedi bod yn allforio gwin. Mae'r niferoedd dan sylw serch hynny yn fach iawn.

### 1.4.3 Ansawdd a Phrosesu

Mae'r ffaith bod gwin yn cael ei gynhyrchu'n lleol ar raddfa fach yn golygu bod ei ansawdd yn gallu amrywio ar adegau. Mae angen dull mwy cyson o ymdrin â hyn. Yn hanesyddol , dim ond un cyfleuster prosesu[9] sy'n gweithredu yng Nghymru, ond hyd nes y tyfir mwy o winwydd, mae'n ddigon posibl y byddai'n aneconomaidd ystyried cyfleusterau ychwanegol yng Nghymru ei hun.

Wrth i'n gwaith ddod i ben, roedd yn hysbys bod dau gyfleuster yng Nghymru erbyn hyn – sy'n eiddo i'r un teulu a'r ddau yn Sir Fynwy.

Fodd bynnag, dylai hyn fod yn nod tymor canolig i hirdymor i ddiwydiant Cymru. Dylid gwneud y cam o benderfynu ynglŷn â chynnal astudiaeth ddichonoldeb briodol yn flaenoriaeth er mwyn ystyried ei raddfa a'i leoliad posibl.

Mae'r cyfleusterau presennol yn Lloegr (fel arfer yn Swydd Stafford a Chaerloyw), mewn llawer o achosion, yn bodloni gofynion prosesu'r sector yn ddigonol, ar hyn o bryd. Bu rhywfaint o

[7] Promar yn seiliedig ar ymchwil desg a chyfweliadau

[8] Mae amcangyfrif Promar yn seiliedig ar ymchwil gyda 19 gwinllan, 18 ohonynt yng Nghymru

[9] Defnyddir y term "prosesu" fel term generig ar gyfer y prosesau a ddefnyddir wrth gynhyrchu gwin

ddadlau yn sector gwin Cymru ynghylch hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf, gan ei fod yn ymwneud â gofynion Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) a Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI).

Er gwaethaf y berthynas agos hon â gwinoedd yn Lloegr, mae'n amlwg hefyd bod pob un yn sector gwinllannoedd Cymru'n awyddus i fod yn ddiwydiant annibynnol - yn hytrach na bod yn estyniad i sector gwin Lloegr.

### 1.4.4 Marchnata a Defnyddio'r Gymraeg

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gwinllannoedd a'r gweithgarwch twristiaeth cysylltiedig wedi bod yn fwy amlwg, ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol – er bod lle i wella o hyd.  Dyma sut mae'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd yn marchnata eu harlwy twristiaeth i'r cwsmer. Mae COVID –19 wedi sbarduno hyn yn sylweddol.

Yn aml, mae diffyg arwyddion i ddangos bod atyniad i dwristiaid/gwinllan (yn yr ardal dan sylw). Lleisiwyd hyn fel pryder gan nifer o winllannoedd sydd wedi wynebu anhawster i gael arwyddion oherwydd cyfyngiadau awdurdodau lleol. Efallai na fydd arwyddion twristiaeth, ar eu pennau eu hunain, yn datrys yr holl heriau marchnata sy'n wynebu sector gwinllannoedd Cymru - ond ni fyddai'n gwneud unrhyw ddrwg. Yn hytrach byddai o gymorth.

Defnyddir y Gymraeg yn bennaf mewn gwinllannoedd yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Roedd perchnogion busnes yn y rhannau hyn yn credu bod y Gymraeg yn allweddol ar gyfer eu gwaith hyrwyddo. Roeddent o'r farn ei bod yn elfen bwysig o'u USP.

Roedd perchnogion gwinllannoedd yn Ne Cymru yn llai ymroddedig dros ddefnyddio'r Gymraeg, yn bennaf oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd y maent wedi'i lleoli ynddynt. Wedi dweud hynny, roeddent yn dal i ganolbwyntio ar hyrwyddo "Cymreictod" y cynnyrch, gan ddefnyddio'r Gymraeg ar arwyddion twristiaeth ac ar labeli poteli, fel dull brandio.

Er bod defnydd llai eang o'r Gymraeg yn Ne Cymru, roedd y rhan fwyaf (os nad pob un), yn deall pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg i helpu i hyrwyddo ffynhonnell y tarddiad.

### 1.4.5 Cynaliadwyedd

Roedd cynaliadwyedd yn faes ffocws cyffredin i berchnogion gwinllannoedd, fel sbardun ar gyfer arloesi a mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol. Mae'n sbardun allweddol ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn y rhan fwyaf o wledydd eraill sy'n cynhyrchu gwin yng ngweddill y byd, megis Seland Newydd a De Affrica sydd eisoes wedi dechrau'r broses o ddatblygu cynllun diwydiant i gynnwys hyn.

Yng Nghymru, gallai hyn gynnwys cynhyrchu gwin organig, yn ogystal ag asesu'r cyfleoedd i ddefnyddio dŵr a phŵer solar, yn ogystal â photeli papur.

### 1.4.6 Ehangu'r Diwydiant

Nid yw'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd presennol yng Nghymru wedi cynyddu nifer yr erwau a ddefnyddir ganddynt i dyfu grawnwin yn ystod y 5/10 mlynedd diwethaf, ac eithrio rhai o'r safleoedd a blannwyd yn ddiweddar.

Ar sail y diddordeb cynyddol mewn gwin o Gymru, fodd bynnag, mae dros hanner (68%) y perchnogion gwinllannoedd eisoes wedi rhoi cynlluniau ar waith i gynyddu maint eu busnes, neu'n bwriadu gwneud hynny, yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf. Mewn nifer o achosion – yn gynt na hynny.

Gallai hynny fod naill ai drwy gynyddu cyfanswm nifer y gwinwydd, cynyddu'r arlwy twristiaeth o safbwynt seilwaith, neu sefydlu gwindy bach ar y safle.

### 1.4.7 Y Gefnogaeth sydd ar gael i'r Diwydiant

Ar sail ein hymchwil, mae'n ymddangos bod diffyg cyfathrebu o ran y gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'r sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru. Gallai'r bwlch hwn mewn cyfathrebu fod yn ffocws i'r SIG Gwin yn y dyfodol.

Mae'r diwydiant gwinllannoedd yng Nghymru yn awyddus i gael gafael ar grantiau ac opsiynau ariannu eraill, ac mae'n debyg bod angen iddo gael mynediad atynt. Byddai hyn yn eu helpu i ddatblygu a moderneiddio eu gwinllannoedd presennol, yn ogystal â sefydlu arlwy twristiaeth newydd (neu ddatblygu arlwy sy'n bodoli eisoes).

Gofynnwyd i winllannoedd osod mewn trefn nifer o ofynion yn y dyfodol o ran cefnogaeth i'r diwydiant. Ar sail hyn, credir mai'r mathau mwyaf angenrheidiol o gefnogaeth i'r sector yw:

- gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ychwanegol yn y farchnad gartref a'r DU yn ehangach, gan gysylltu â mentrau Croeso Cymru ac ati.
- datblygu sgiliau a chyfleusterau/safleoedd hyfforddi.
- datblygu cadwyni cyflenwi cadarn a chydweithredol yng Nghymru.
- gwella ansawdd, datblygu amrywogaethau ac ati.

Mae Llywodraeth Cymru yn categoreiddio ffermio a thwristiaeth ar wahân, mae'n bwysig nad yw hynny'n rhoi'r sector dan anfantais, nac yn ei gwneud yn anos i winllannoedd gael cymorth gan Lywodraeth Cymru, am y rheswm syml bod gwinllannoedd yn pontio'r ddau sector.

### 1.4.8 Creu USP

Ar hyn o bryd, nid oes pwynt gwerthu unigryw cryf (USP) ar gyfer gwin Cymru, ar wahân i'r busnesau bach unigol unigryw (yng Nghymru). Byddai'r diwydiant yn elwa ar frand Cymreig cyffredinol, ond gan ddal i gadw rhyw elfen unigol o bob gwinllan, rhag colli'r hunaniaeth ranbarthol sy'n werthfawr/bwysig.

Mae perchnogion gwinllannoedd yn cefnogi'r syniad o hyrwyddo "Cymreictod" eu cynnyrch. Yr hyn y maent yn llawer llai sicr yn ei gylch yw sut y byddai hyn yn cael ei ariannu, yn enwedig pe bai angen mesurau ardystio ychwanegol i sicrhau hyn, dros amser.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch cynnal ansawdd y gwin a labelir fel gwin o Gymru, a'r angen i reoli ansawdd yn llym yn seiliedig ar unrhyw broses ardystio. Fodd bynnag, byddai defnyddio brand Cymreig yn galluogi pawb yn y sector i elwa ar hunaniaeth (brand) cryfach a phresenoldeb ledled Cymru - ac i weddill y DU.

Os gellir datblygu fframwaith clir sy'n dangos pwy fyddai/na fyddai'n gallu defnyddio brand gwin o Gymru yn y dyfodol, yna mae ganddo'r potensial i arbed gwinllannoedd rhag gwario

arian ychwanegol ar gael ardystiadau eraill, megis PDO/PGI. Byddai hyn, yn arbennig, o fudd i winllannoedd llai a busnesau newydd i'r diwydiant, a all ei chael yn anodd cael elw digonol ar fuddsoddiad (ROI) yn ystod y blynyddoedd cyntaf.

Hefyd, ymhen amser gallai USP gwin Cymru yn y dyfodol gynnwys hyrwyddo'r cynhyrchion yn isranbarthol.

Gall y dull cynhyrchu hefyd fod yn USP, gan gynnwys cynhyrchu organig a biodynamig. Dylai diwydiant Cymru geisio croesawu'r amrywiaeth o arddulliau cynhyrchu sy'n bodoli. Dylai ganolbwyntio ar ansawdd ei gynhyrchu, nid y math penodol. Gall yr arbenigedd, ynghyd â'r rhanbarthau cynhyrchu, ddilyn yn ddiweddarach.

Mae'r cyfle i gymryd y syniad hwn o darddiad (Cymreig) a datblygu cyswllt o ansawdd uchel â gwinoedd o Gymru.

### 1.4.9 Datblygiad y Sector yn y Dyfodol

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi sector gwinllannoedd Cymru i ehangu ar gyflymder priodol/dan arweiniad y farchnad. Bydd hyn yn rhoi amser i winllannoedd sydd newydd eu plannu ac sy'n ehangu dyfu cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r seilwaith.

Mae'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer gwin Cymru yn niferus ac yn gyffrous. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y sector ar raddfa fach ac yn dal i ddatblygu'n golygu y bydd angen mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau cymorth eraill. Mae angen darlun hirdymor am sut y gallai ac y dylai'r sector edrych ymhen 3/5 – 10 mlynedd gan bawb sy'n gysylltiedig â'r sector.

Nid oes unrhyw ganolfan hyfforddi a/neu addysgol benodol yng Nghymru ar gyfer y sector gwinyddiaeth. Mae'r brif ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyn yn y DU yng Ngholeg Plumpton yn Sussex. Yn y tymor byr, dylid ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cysylltiad cryf â Plumpton. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ddarparu bwrsariaethau i fyfyrwyr o Gymru astudio yno a chymryd rhan mewn trefniadau "gefeillio" eraill/teithiau astudio ac ati. Ymhen amser, gellid cyfiawnhau cyfleuster pwrpasol yng Nghymru - dyma ddylai fod y nod o leiaf.

Mae sawl lle yng Nghymru lle gellid datblygu canolfan ragoriaeth. Mae safleoedd posibl yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu, i Brifysgol Aberystwyth neu Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Dylai cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthiant gwin yng Nghymru ac yna gweddill y DU hefyd fod yn sail resymegol dros gynyddu cynhyrchiant a refeniw i'r diwydiant. Dylai datblygu'r farchnad ar gyfer gwin o Gymru yng ngweddill y DU arwain at gyfleoedd yn y dyfodol, gyda mynediad cymharol hawdd i sylfaen cwsmeriaid enfawr o bosibl a'r logisteg sylfaenol sydd ei hangen. Nid oes digon o wybodaeth am gwsmeriaid Cymru a chwsmeriaid eraill yng ngweddill y DU. Mae hwn yn faes lle dylid comisiynu ymchwil pwrpasol i'r farchnad maes o law.

Mae'n debyg nad yw allforion i weddill yr UE na marchnadoedd sy'n datblygu yn Asia, fel enghraifft, yn nod tymor byr realistig i winllannoedd Cymru. Nid yw lefel cynhyrchu yng Nghymru'n ddigon uchel i edrych yn rhy bell i ffwrdd ar hyn o bryd.

Er bod gan y sector gwinllannoedd yng Nghymru gapasiti cynhyrchu da sy'n gwella, mae diffyg profiad ym maes marchnata a gallu i ddatblygu allforion i'r rhan fwyaf, ac eithrio'r rhai mwyaf entrepreneuraidd.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar yr aseiniad hwn, gall sector gwin Cymru chwarae rhan weithgar yn y mentrau polisi ehangach sy'n cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru.

## 1.5 Rôl LlC a'r SIG

Gellir crynhoi rôl LlC yn y dyfodol yn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth fel a ganlyn:

- Mae twristiaeth gwin, yn fenter amaethyddol ac mae'n rhan o'r sector twristiaeth. Ni all y naill fodoli heb y llall.
- mae perygl felly er y gall y sector ddisgyn rhwng dau faes o ran cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i Lywodraeth Cymru nodi lle mae gwinllannoedd yn perthyn o ran mynediad at gyllid a chynnig gwybodaeth gliriach ynghylch pa gymorth a allai fod ar gael i winllannoedd yng Nghymru.
- cyfrannu at nodi ei ddyhead ei hun ar gyfer y sector.
- cymryd golwg tymor canolig i dymor hir ar gyfraniad y sector gwin a'r sector twristiaeth cysylltiedig yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.
- ymgysylltu â sefydliadau megis cynghorau lleol, Cyswllt Ffermio a Menter a Busnes ac annog sefydliadau i roi cymorth i'r sector gwinllannoedd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'n ymddangos bod y SIG wedi dod yn llawer mwy amlwg, yn bennaf o ganlyniad i'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID. Cafwyd sylwadau cadarnhaol bod y SIG wedi ymwneud mwy â'r gwinllannoedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth, cysylltiadau ag arbenigwyr, cyllid ar gyfer cyrsiau a gweminarau addysgiadol. Mae'r rhain wedi bod o fudd arbennig i'r rhai sy'n fwy newydd i'r diwydiant.

Dylid gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen cyfleuster Cymraeg pwrpasol neu gysylltiad â Plumpton yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Bydd angen astudiaeth ar wahân ar ddichonoldeb cyffredinol hyn.

Yn y tymor canolig i'r tymor hir, dylai Cymru hefyd geisio datblygu mwy o'i chapasiti prosesu ei hun – ond mae angen ystyried hyn yn ofalus. Dylid comisiynu astudiaeth ar hyn, unwaith eto, yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

Dylid cynnal ymarferiad ymchwil i "*pwy mewn gwirionedd yw'r rhai sy'n yfed gwinoedd Cymru*".

Ymchwil a Datblygu ar ddatblygu amrywogaethau a chymorth gyda marchnata i hybu gwerthiannau ar-lein oedd rhai o'r meysydd y soniwyd amdanynt lle byddai angen cymorth ychwanegol yn y dyfodol. Mae angen cymorth technegol ac addysg hefyd i ddenu unigolion medrus ac sydd â diddordeb i'r sector yn y dyfodol.

Er hynny, mae perchnogion gwinllannoedd Cymru yn credu bod rhwystrau o hyd, yn enwedig ar lefel cynghorau lleol wrth sefydlu cynlluniau newydd i ehangu eu busnes (e.e. yr ymdrech i dderbyn arwydd "twristiaeth" brown i ddangos bod gwinllan/arlwy twristiaeth gerllaw).

Roedd pryderon eraill ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru gael mwy o ddealltwriaeth o'r sector i gynnig y cymorth sydd ei angen. Mae deall mwy am yr heriau busnes, ac yn benodol, y cysylltiadau cryf rhwng twristiaeth a'r sector gwin yn allweddol.

## 1.6 Rôl y Gwinllannoedd

Gellir crynhoi hyn fel a ganlyn:


- cefnogi'r SIG yn llawn
- chwilio am feysydd diddordeb cyffredin er mwyn gwella'r sector – yn hytrach na rhaniadau
- datblygu gyda'r SIG, strategaeth gynhwysol ar gyfer datblygu'r diwydiant yn y dyfodol
- cymryd rhan mewn cynllunio olyniaeth a gweithgarwch mentora fel y bo'n briodol
- cefnogi ymdrechion marchnata'r diwydiant
- cael gwybod mwy am gymorth ariannol a chymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru
- ymgysylltu â chynghorau lleol i oresgyn rhwystrau a chyfyngiadau
- cymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad ei hun
- dangos sut y gall gyfrannu at amcanion ehangach Llywodraeth Cymru

Yn gyffredinol, mae hon yn agenda eithaf uchelgeisiol ond yn un y mae angen ei deall os yw'r sector am gyflawni ei botensial dros y 5 – 10 mlynedd nesaf.

# Adran 2. Trosolwg o Sector Gwinllannoedd a Thwristiaeth Cymru

## 2.1 Cynhyrchu Gwin yng Nghymru

Ar sail ein hymchwil amcangyfrifir bod tua 164 o erwau o winwydd wedi'u plannu yng Nghymru ar hyn o bryd. O'r rhain, mae'r rhan fwyaf i'w cael yn Ne Cymru lle ceir 62 erw a Gorllewin Cymru lle ceir 61 erw.




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Promar, ymchwil desg ac yn seiliedig ar gyfweliadau ymchwil

Mae'r data diweddaraf gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd[10] yn awgrymu bod 38 o winllannoedd yng Nghymru. Mae hyn yn nifer uwch nag a ystyriwyd yn gyffredinol yn y gorffennol. Ni fydd rhai o'r gwinllannoedd hyn yn cynhyrchu gwin. Yn ystod ein hymchwil, buom yn siarad â 19 ohonynt[11]. Mae data'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn awgrymu bod y tiroedd tyfu ychydig yn llai, sef 155 erw.

Mae amcangyfrifon amrywiol ar gyfer lefel a gwerth cynhyrchu gwin yng Nghymru. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Promar, credwn fod hyn yn dod i hyd at 180,000 o boteli y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar y data a gafwyd drwy ein 19 cyfweliad, o 4,780 o boteli ar gyfartaledd fesul gwinllan a'i gynnwys yn nata'r Asiantaeth Safonau Bwyd o 38 o winllannoedd.

[10] Mai 2021

[11] Roedd un ohonynt yn union ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac felly nid yw'r gwin a gynhyrchir ganddynt wedi'i gynnwys gan eu bod ar ochr Lloegr i'r ffin

Os defnyddir ffigurau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, mae'r ffigur yn 2020 yn llawer is na hyn, sef dim ond tua 43,000 o boteli. Yn seiliedig ar ddata'r Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gwerth allbwn oddeutu £387,000 ac yn y POS mae hyn yn werth tua £774,000 y flwyddyn. Mae amcangyfrifon y diwydiant ei hun wedi awgrymu bod y ffigur oddeutu 100,000 o boteli, ond ar unrhyw un adeg, efallai bod 70 – 80,000 o boteli eraill mewn stoc[12].

Yn seiliedig ar ragfynegiadau, gallai'r lefel cynhyrchu presennol yng Nghymru gyrraedd 400,000 o boteli'r flwyddyn, ond mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i bob gwinllan newydd ddechrau cynhyrchu yn ystod y blynyddoedd nesaf a bod y gwinllannoedd presennol yn dod o hyd i farchnadoedd newydd a thrwy hynny, gynyddu eu cynhyrchiant.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y datblygwyd ein hamcangyfrifon yn wreiddiol[13]:

| Gwinllan | Erwau Tyfu Grawnwin | Nifer Poteli | Nifer Poteli ar Gyfartaledd fesul Erw |
|---|---|---|---|
| A | 2.4 | 600 | 250 |
| B | 4 | 4,000 | 1,000 |
| C | 6.5 | 9,000 | 1,385 |
| D | 20 | 17,500 | 875 |
| E | 1 | 1,000 | 1,000 |
| F | 2.5 | 6,500 | 2,600 |
| G | 1 | 1,500 | 1,500 |
| H | 3.5 | 2,000 | 571 |
| I | 3.5 | 8,500 | 2,429 |
| J | 7 | 18,000 | 2,571 |
| K | 9 | 3500 | 389 |
| L | 17 | 9,000 | 529 |
| M | 4 | 3,000 | 750 |
| N | 1 | 2,000 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | **82.4** | **86,100** | |
| **Cyfanswm Cyfartalog** | | | **1,275** |

Ffynhonnell: Promar, yn seiliedig ar ymchwil

Mae 80% o winllannoedd yng Nghymru yn dal i fod yn llai na 7 erw (3 ha) o ran maint. Dim ond 2 sy'n 24 erw (10 ha) a mwy o ran maint[14].


[12] SIG y Diwydiant Gwin ac aelodau allweddol

[13] Mae gwinllannoedd unigol yn ddienw. Pan roddwyd amrediad o ffigurau cynhyrchu, yn dibynnu ar y flwyddyn, cymerwyd y cyfartaledd

[14] Promar yn seiliedig ar ymchwil desg a chyfweliadau

Ers diwedd y 1970au, ar gyfartaledd sefydlwyd oddeutu 1 - 2 winllan newydd bob blwyddyn yng Nghymru[15].

Y prif fathau o win a gynhyrchwyd yng Nghymru, yn ôl ein hymchwil oedd Seyval Blanc, ac yna Rondo a Pinot Noir. Cynhyrchwyd y mathau hyn ar draws y nifer fwyaf o winllannoedd, fel y nodir yn y graff isod.




Nodwch: mae'r categori "arall" yn cynnwys: Triomph d'Alsace, Reichensteiner, Siegrrebe, Chardonnay, Bacchus, Pinot Meunier, Cabernet Franc, Albariño, Muller Thurgan, Pydew, Fruhburgunder, Schonburger, Sauvignon Blanc, Divico, Orion and Tempranillo

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Promar yn seiliedig ar gyfweliadau ymchwil

Mae rhan o sector gwin Cymru yn canolbwyntio ar gynhyrchu gwin trwy ddefnyddio technegau organig a bio organig. Er mai rhai gwinllannoedd sy'n defnyddio'r technegau hyn, nid yw'r dull cynhyrchu yn cael ei ddefnyddio'n eang. Mae data o Winllannoedd Cymru yn dangos bod 6 gwinllan yn gweithredu'n organig, gyda 4 o'r rhain yn defnyddio system biodynamig[16].

## 2.2 Y Llwybr i'r Farchnad

Mae'r rhan fwyaf o winllannoedd Cymru yn gwerthu eu gwin drwy "ddrws y seler" (h.y. o'r winllan ei hun i siopau bwyd lleol, unigolion preifat a thwristiaid/ymwelwyr eraill). Mae hyn yn cyfrif am tua 77% o'r holl werthiannau[17]. Mae gan winllannoedd wahanol ddulliau o werthu


[15] Promar, yn seiliedig ar ymchwil desg a chyfweliadau

[16] Fel yr adroddwyd i Promar yn ein cyfweliadau

[17] Yn seiliedig ar adborth o'n cyfweliadau

drwy ddrws eu seler, gyda rhai'n gwerthu dim ond tua 20% fel hyn, ond mae hyd at o leiaf chwe gwinllan yn gwerthu 100% o'u gwin drwy'r sianel werthu hon[18].

Mae'r diagram ar y dudalen ganlynol yn dangos yn fanylach sut mae gwin Cymru fel arfer yn cael ei werthu yn y Man Gwerthu (POS).




Ffynhonnell: Promar International yn seiliedig ar ymchwil > cyfweliadau

Ymhlith y sianeli gwerthu ychwanegol mae all-fasnach (siopau lleol) 9%; gwerthiannau ar-lein ar 7%; ar-fasnach (gwestai, bwytai, caffis); yn ogystal â gwerthiannau cyfanwerthu – mae'r rhain tua 3%.

Nid oes digon o wybodaeth am gwsmeriaid gwin Cymru. Mae hwn yn faes lle y dylid comisiynu ymchwil pwrpasol i'r farchnad ar ryw adeg yn y dyfodol.

Mae effaith COVID-19 wedi golygu bod nifer o winllannoedd wedi gweld eu gwerthiant i'r sector masnach yn gostwng yn 2020, wrth iddynt orfod cau am gyfnodau hir. O ganlyniad, symudodd gwerthiant yn aml tuag at y sianel ar-lein, fel arfer drwy ddatblygu gwefannau unigol. Ar gyfer rhai gwinllannoedd, mae gwerthiant ar-lein bellach yn cyfrif am tua 50% o gyfanswm eu gwerthiannau.

Mae nifer fach o gynhyrchwyr o Gymru (dim ond dau hyd y gwyddom) wedi bod yn allforio gwin. Mae'r niferoedd dan sylw serch hynny yn fach iawn.

[18] Promar, yn seiliedig ar adborth a data o gyfweliadau

Mae’r ffaith bod sector gwin Cymru ar raddfa fach, i bob pwrpas, yn hybu'r sianeli gwerthu lleol. Dosberthir swm cymharol fach hefyd i weddill y DU, ac fel arfer gwneir hyn drwy gyfanwerthwyr/masnachwyr gwin o winllannoedd ar raddfa fwy yn y sector yng Nghymru.

Er bod y rhan fwyaf o win yn cael i werthu drwy "ddrws y seler", mae'n anodd gwybod faint sy'n cael ei werthu i gwsmeriaid lleol, a faint sy'n cael ei werthu i dwristiaid sy'n ymweld â'r ardal[19]. Yr hyn sy'n glir, serch hynny, yw bod gwerthiant sy'n seiliedig ar dwristiaeth yn helpu i sicrhau bod gwin Cymru’n cyrraedd rhannau o bob cwr o’r DU ac o bosibl y tu hwnt.

Mae’r ffaith bod gwin yn cael ei gynhyrchu’n lleol ar raddfa fach yn golygu bod ei ansawdd, yn arbennig o ran y gost gymharol uchel o’i gynhyrchu (ac yna’r elw wrth ei werthu ymlaen yn y gadwyn gyflenwi) yn gallu amrywio ar adegau. Mae angen dull mwy cyson o ymdrin â hyn.

Rhaid sicrhau bod ansawdd uchel yn ganolog i sector gwin Cymru.

Ar hyn o bryd dim ond dau gyfleuster prosesu[20] sy'n gweithredu yng Nghymru, ond hyd nes y tyfir mwy o winwydd, mae'n ddigon posibl y byddai'n aneconomaidd ystyried cyfleusterau ychwanegol yng Nghymru ei hun. Fodd bynnag, dylai hyn fod yn nod tymor canolig i hirdymor i ddiwydiant Cymru. Mae'r cyfleusterau presennol yn Lloegr (fel Swydd Stafford a Swydd Gaerloyw) yn aml yn bodloni gofynion prosesu’r sector yn ddigonol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ychydig o ddadlau wedi bod ynglŷn â’r mater hwn yn sector gwin Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â gofynion PDO a PGI.

Fodd bynnag, dylai hyn fod yn nod tymor canolig i hirdymor i ddiwydiant Cymru. Dylid gwneud y cam o benderfynu ynglŷn â chynnal astudiaeth ddichonoldeb briodol yn flaenoriaeth er mwyn ystyried ei raddfa a'i leoliad posibl.

Fodd bynnag, yn y tymor canolig i hirdymor, dylai'r amcan o gynyddu cynhyrchiant gwinwydd yng Nghymru, cael gwell cysondeb o ran ei ansawdd a chael mwy o gapasiti prosesu yng Nghymru oll fod yn amcanion allweddol i'r diwydiant.

---

[19] Dylai hynfod yn rhan, o leiaf, o’r ffocws mewn unrhyw ymchwil I’r farchnad yn y dyfodol

[20] Rydym wedi defnyddio'r term "prosesu" i gwmpasu'r ystod o weithgareddau wrth gynhyrchu gwin. Cydnabyddir serch hynny fod gan wneud gwin a gweithredu gwindy lawer o ofynion sgiliau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwin o ansawdd uchel


# Adran 3: Ardaloedd effaith allweddol

## 3.1 Datblygiadau yn Sector Gwinllannoedd a Thwristiaeth Cymru

Mae cydberthynas gref rhwng gwinllannoedd a sector twristiaeth Cymru. Roedd y rhan fwyaf o winllannoedd hygyrch a fu'n rhan o'n proses gyfweld naill ai'n cynnig arlwy twristiaeth i'w cwsmeriaid, neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, er bod hynny ar wahanol raddfa a natur.

Mae twristiaeth yn cyfrif am hyd at 50% o refeniw rhai busnesau, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu niferoedd bach. Amcangyfrifwn fod gwerth uniongyrchol twristiaeth sy'n seiliedig ar win i ddiwydiant Cymru oddeutu £10.0 miliwn y flwyddyn o'i gymharu â gwerth cynhyrchu gwin gwirioneddol sydd ychydig yn llai na £0.4 miliwn y flwyddyn.


Mae'r diagram isod yn rhoi syniad o'r mathau o arlwy twristiaeth a geir fel arfer yng ngwinllannoedd Cymru.




Ffynhonnell: Promar International, yn seiliedig ar gyfweliadau ac ymchwil desg

Mae gwinllannoedd ar raddfa lai yn tueddu i ganolbwyntio ar gynnig teithiau lleol, sesiynau blasu a hyrwyddo'r diwylliant a'r dirwedd leol. I'r gwrthwyneb, mae rhai o'r gwinllannoedd mwyaf yn tueddu i gynnig mwy o ddigwyddiadau ar raddfa fawr (e.e. lleoliadau priodas a llety).

Nid yw hyn yn awgrymu nad oes gan rai gwinllannoedd ar raddfa fach arlwy twristiaeth da - ond mae'n fwy o gwestiwn o faint y busnes yn gyffredinol.




Ffynhonnell: Promar International yn seiliedig ar gyfweliadau B2B ac ymchwil desg

Mae uchelgais gref o fewn sector gwin Cymru i dwristiaeth ffynnu a hyrwyddo tarddiad y cynnyrch. Roedd tystiolaeth o ddatblygu economaidd pellach yn y dyfodol, gan fod llawer o gyfweliadau ymchwil wedi datgelu cynlluniau i gynyddu nifer yr erwau, cynyddu'r arlwy twristiaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd/cwsmeriaid o'r sector yn y 5 mlynedd nesaf.

Ar wahân i rai o'r materion mwy dadleuol yn sector gwin[21] Cymru, roedd cydweithio hefyd yn faes o ddiddordeb cyffredin ymhlith y rhan fwyaf o winllannoedd. Mae gan y rhan fwyaf o'r gwinllannoedd y buom yn siarad â nhw, sy'n cynnig opsiwn sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, ddiddordeb mewn sefydlu mentrau eraill, megis llwybrau beicio i gydweithio â gwinllannoedd eraill yn yr un rhanbarth. Byddai hyn yn helpu i wella ansawdd ac amrywiaeth gyffredinol yr arlwy twristiaeth.

Mae rhai enghreifftiau rhagorol sy'n dangos sut mae'r cysylltiad rhwng bwyd/diod a thwristiaeth wedi'i ddatblygu yng Nghymru ar wefan Croeso Cymru[22]. Bydd y rhain o bryd i'w gilydd yn cynnwys gwinllannoedd. Byddai'n syniad da i winllannoedd Cymru asesu'r rhain, a dysgu'r hyn y gallant oddi wrthynt, yn unol â hynny. Mae mwy nag un ffordd o lwyddo. Fodd bynnag, mae creu "profiad ymwelwyr" llawn a chysylltu â chymaint â phosibl o atyniadau eraill i dwristiaid, yn ogystal â gwestai/bwytai lleol ac ati, i gyd yn rhan o hyn.

[21] Lle mae gwinwydd yn cael eu prosesu a rhinweddau ac anfanteision cynhyrchu organig/biodynamig yn hytrach na chonfensiynol a defnyddio ardystiadau PDO/PGI

[22] https://www.visitwales.com/attraction/food-or-drink/aber-falls-distillery-2040971

Mae gan Croeso Cymru nifer o bosibiliadau i'w gweld ar eu gwefan. Mae'r cyfrifoldeb ar y gwinllannoedd eu hunain - neu drwy waith y SIG Gwin i gymryd rhan mewn modd mwy rhagweithiol a chreu cynnig twristiaeth allweddol i ychwanegu at apêl y winllan ei hun.

O'r gwinllannoedd y siaradwyd â nhw, gellid disgrifio'r mwyafrif fel gwinllannoedd "traddodiadol" sydd wedi'u sefydlu ers blynyddoedd lawer, gyda dim ond llond llaw o winllannoedd newydd eu prynu neu newydd eu plannu. Mae'r safleoedd hyn a sefydlwyd yn fwy diweddar yn aml yn dibynnu ar eu harlwy twristiaeth i ddod ag incwm i'r busnes yn ystod y cyfnod datblygu cychwynnol. Yn aml nid yw'r cnwd a gynaeafir yn ddigonol ar gyfer cynhyrchu gwin yn y pum mlynedd cyntaf i wneud elw.

Mae presenoldeb gwinllannoedd a gweithgarwch y sector, ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, wedi cynyddu, er bod lle i wella o hyd. Dyma sut mae'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd yn marchnata eu harlwy twristiaeth i'r defnyddiwr.

Drwy gydol pandemig COVID-19, mae'r presenoldeb ar-lein hwn, yn arbennig, wedi bod yn fodd i warchod rhai o'r gwinllannoedd, wrth i dwristiaeth ddod i stop fwy neu lai. Mae'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth a'r galw gan gwsmeriaid am darddiad lleol bwyd a diod hefyd yn cefnogi datblygiad y sector. Mae llawer naill ai'n ceisio gwerthu eu gwin drwy "ddrws y seler" neu drwy siopau a busnesau lletygarwch lleol, ynghyd â chynnyrch lleol arall.

Hefyd mae diffyg arwyddion ar raddfa eang i ddangos bod atyniad i dwristiaid/gwinllan mewn ardal benodol. Lleisiodd nifer o ymatebwyr fod hyn yn destun pryder. Efallai na fydd arwyddion twristiaeth, ar eu pennau eu hunain, yn datrys yr holl heriau marchnata sy'n wynebu sector gwinllannoedd Cymru - ond ni fyddai'n gwneud unrhyw ddrwg. Yn hytrach byddai o gymorth.

### 3.1.1 Defnydd o'r Gymraeg

Yn Ne a Gorllewin Cymru mae'r rhan fwyaf o winllannoedd wedi'u plannu yng Nghymru, gydag ardal lai yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru. Roedd y defnydd o'r Gymraeg i'w weld yn bennaf yng ngwinllannoedd Gogledd a Gorllewin Cymru. Roedd perchnogion busnes yn y rhannau hyn yn credu bod y Gymraeg yn allweddol ar gyfer eu gwaith hyrwyddo. Roeddent o'r farn ei bod yn elfen bwysig o'u USP [23].

Roedd perchnogion gwinllannoedd yn Ne Cymru yn llai ymroddedig dros ddefnyddio'r Gymraeg, yn bennaf oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd y maent wedi'i lleoli ynddynt.

Wedi dweud hynny, roeddent yn dal i ganolbwyntio ar hyrwyddo "Cymreictod" y cynnyrch, gan ddefnyddio'r Gymraeg ar arwyddion twristiaeth ac ar labeli poteli, fel dull brandio. Er bod defnydd llai eang o'r Gymraeg yn Ne Cymru, roedd y rhan fwyaf (os nad pob un), yn deall pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg i helpu i hyrwyddo ffynhonnell y tarddiad.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'r diwydiant. Fodd bynnag, er mwyn apelio at farchnad dwristiaeth ehangach, defnyddir yr iaith Saesneg yn gyffredin hefyd.

---

[23] Nodwch: o'r 26 cyfweliad a gynhaliwyd gennym, cynhaliwyd pedwar yn Gymraeg

### 3.1.2 Newidiadau Disgwyliedig a Chyfleoedd yn y Dyfodol

- **Cynhyrchu yn y Dyfodol**

Nid yw'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd presennol yng Nghymru wedi cynyddu nifer eu herwau tyfu grawnwin yn ystod y 5/10 mlynedd diwethaf, ac eithrio rhai safleoedd a blannwyd yn ddiweddar. Mae rhai o'r gwinllannoedd sy'n dal i gynhyrchu heddiw ymhlith rhai o'r cyntaf i fodoli yng Nghymru.

Ar sail y diddordeb cynyddol mewn gwin o Gymru, fodd bynnag, mae dros hanner (68%) y perchnogion gwinllannoedd eisoes wedi rhoi cynlluniau ar waith i gynyddu maint eu busnes, neu'n bwriadu gwneud hynny, yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf. Mewn nifer o achosion – yn gynt na hynny.

Gallai hynny fod naill ai drwy gynyddu cyfanswm nifer y gwinwydd, cynyddu'r arlwy twristiaeth o safbwynt seilwaith, neu sefydlu gwindy bach ar y safle.

- **Cynllunio Gweithgarwch**

Mae pryderon ynghylch y rhwystrau a wynebir wrth wneud cais cynllunio a'r opsiynau sydd ar gael, i winllannoedd er mwyn cynyddu eu maint. Mae rhai o'r safleoedd mwyaf yn buddsoddi symiau sylweddol (h.y.  mewn rhai achosion, hyd at £1 miliwn a mwy) i gynyddu eu harlwy twristiaeth, gyda chyfleusterau fel glampio, peiriannau ail-lenwi poteli, gweithgareddau awyr agored a lletygarwch o'r radd flaenaf.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddeall anghenion y sector yn well er mwyn cefnogi busnesau i ehangu yn y dyfodol.

- **Hunaniaeth Diwydiant Cymru**

Mae barn gyfunol gref y byddai gwindai "boutique" bach ar safle'r gwinllannoedd yn gwella profiad cyffredinol yr arlwy twristiaeth i gwsmeriaid i raddau helaeth.

Ni ystyriwyd bod y syniad o windai masnachol ar raddfa fawr yng Nghymru yn ymarferol ym marn y rhan fwyaf o weithredwyr gwinllannoedd. Y rhesymau yw'r raddfa fach y mae'r sector yn gweithredu arni ar hyn o bryd, a'r berthynas a sefydlwyd â gwinoedd profiadol yn Lloegr.

Er gwaethaf y berthynas agos hon â gwinoedd yn Lloegr, mae'n amlwg hefyd bod pob un yn sector gwinllannoedd Cymru'n awyddus i fod yn ddiwydiant "annibynnol" - yn hytrach na bod yn estyniad i sector gwin Lloegr.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r sector yng Nghymru i ehangu ar gyflymder priodol/dan arweiniad y farchnad. Bydd hyn yn rhoi amser i winllannoedd sydd newydd eu plannu ac sy'n ehangu dyfu cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r seilwaith.

*''Wrth i'r diwydiant dyfu, gallem gael mwy o gyfleusterau potelu yng Nghymru, ond mae angen i hyn ddigwydd ochr yn ochr â thwf y sector''*

Mae amrywiaeth demograffig y rhai sy'n berchen ar winllannoedd Cymru neu'n eu rheoli yn eang iawn. Mae gan rai gynlluniau i ddirwyn i ben a lleihau maint eu busnes yn ystod y 5

mlynedd nesaf, oherwydd bod perchnogion ar fin ymddeol[24]. Mae'n hysbys bod y winllan fwyaf yng Nghymru ar werth, os gellir dod o hyd i'r prynwr cywir.

Mae eraill yn cychwyn busnes. Enghraifft dda yw'r winllan arfaethedig ychydig y tu allan i Gaerdydd sy'n anelu at werthu ei gwin yng nghanol y ddinas.

- **Hyfforddiant, Addysg a Thechnoleg**

Nid oes unrhyw ganolfan hyfforddi a/neu addysgol benodol yng Nghymru ar gyfer y sector gwinyddiaeth. Mae'r brif ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyn yn y DU yng Ngholeg Plumpton yn Sussex.

Yn y tymor byr, dylid ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cysylltiad cryf â Plumpton. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru ddarparu bwrsariaethau i fyfyrwyr o Gymru astudio yno a chymryd rhan mewn trefniadau "gefeillio" eraill/teithiau astudio ac ati.

Mae sawl lle yng Nghymru lle gellid datblygu canolfan ragoriaeth. Mae safleoedd posibl yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu, i Brifysgol Aberystwyth neu Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Dylid gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen cyfleuster Cymraeg pwrpasol neu gysylltiad â Plumpton yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Bydd angen astudiaeth ar wahân ar ddichonoldeb cyffredinol hyn.

Trwy wneud gwell defnydd o dechnoleg ac arloesi, yn ogystal â chael mwy o wybodaeth, dylai'r diwydiant allu symud ymlaen o ran cynhyrchu gwin a thwristiaeth.

Mae gwella cynnyrch yn rhanbarthau tyfu gwin Cymru yn ffocws pwysig i'r sector. Mae rhai wedi ystyried y defnydd o dwneli polythen i gael cnwd mwy cyson. Mae Cyswllt Ffermio (CFf) wedi bod yn darparu rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer meysydd fel tocio a chynaeafu ac ati, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn rhaglen weithgarwch CFf. Mae rhywfaint o gymorth ychwanegol gan CFf hefyd wedi'i ddarparu i berchnogion gwinllannoedd ar gyfer rhaglenni cyfnewidfa rheolaeth, ond nid yw'r rhain yn gyffredin.

- **Marchnadoedd a Dargedir**

Mae cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthiant gwin o Gymru, yng Nghymru ac yna gweddill y DU, hefyd yn rheswm dros gynyddu cynhyrchiant a refeniw'r diwydiant. Mae'n debyg nad yw allforion i weddill yr UE neu farchnadoedd sy'n datblygu, er enghraifft Asia, yn nod tymor byr realistig i winllannoedd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r galw ar sail leol.

Dylai datblygu'r farchnad ar gyfer gwin Cymru yng ngweddill y DU arwain at gyfleoedd yn y dyfodol, gyda mynediad cymharol hawdd i sylfaen enfawr o gwsmeriaid a'r logisteg sylfaenol sydd ei hangen.

Nid yw lefel cynhyrchu yng Nghymru'n ddigon uchel i edrych yn rhy bell i ffwrdd ar hyn o bryd. Er bod gan y sector gwinllannoedd yng Nghymru gapasiti cynhyrchu da sy'n gwella, mae diffyg profiad ym maes marchnata a gallu i ddatblygu allforion i'r rhan fwyaf, ac eithrio'r rhai mwyaf entrepreneuraidd.

[24] Mae dwy winllan yn Sir Fynwy wedi uno'n ddiweddar

## Cysylltiadau â Pholisi ehangach Llywodraeth Cymru

Gall sector gwin a thwristiaeth Cymru chwarae rhan weithredol yn y mentrau polisi ehangach sy'n cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r rhain yn cynnwys fel a ganlyn:

- Bydd a gall y sector gwinllannoedd helpu i gefnogi a chyfrannu tuag at ddatblygu'r **Strategaeth Bwyd a Diod Cymru 2020 - 2026** newydd. Bydd rhagweld datblygiad y sector gwin yng Nghymru yn y dyfodol yn ei helpu i sefydlu ei hun fel gwlad sy'n cynhyrchu gwin o safon gyson. Trwy ragweld tueddiadau newydd ac unrhyw newid o ran anghenion y farchnad/cwsmeriaid bydd cyfle i winllannoedd Cymru hefyd fynd ar y blaen a chystadlu'n fwy effeithiol yn y farchnad gartref

- Pwrpas Strategaeth Croeso Cymru, **Croeso i Gymru – Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr, 2020-2025,** yw tyfu twristiaeth er budd Cymru, gan anelu at ddatblygu sgiliau, twf economaidd teg, cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a manteision iechyd. Mae cyfle da i ddiwydiant gwinllannoedd Cymru gyfrannu'n llawn at yr amcan hwn a datblygu'r arlwy twristiaeth yn sector gwin Cymru. Mae angen dull rhagweithiol o ymdrin â rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â thwristiaeth bwyd Cymru

Hefyd mae saith nod sy'n dod o dan y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog
- Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol am lefel byd-eang

Gall diwydiant gwin a thwristiaeth Cymru gyfrannu, drwy gyfrwng y canlynol:

- wrth i winllannoedd ehangu, bydd potensial i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd ledled Cymru gyfan. Serch hynny, bydd mwy o gyflogaeth yn cael ei chreu yn y sector twristiaeth gwin cysylltiedig yn hytrach nag yn yr ochr cynhyrchu'r gwinoedd.

- bydd cyfleoedd cyflogaeth yn helpu i ddatblygu cymuned fwy cydlynus mewn ardaloedd cynhyrchu gwin allweddol

- bydd datblygu cyfleusterau prosesu gwin yng Nghymru yn y pen draw yn creu mwy o gyfleoedd cyflogaeth o werth ychwanegol, mewn meysydd fel potelu gwin a marchnata, yn hytrach na bod yn ddim ond cynhyrchwyr gwin yn unig

- bydd ymdrechion arallgyfeirio, boed hynny o feysydd craidd amaethyddiaeth yng Nghymru, neu fel ffordd o ddatblygu mentrau sy'n seiliedig ar dwristiaeth mewn ardaloedd gwledig, yn cyfrannu at Gymru fwy cydnerth yn y dyfodol

- bydd defnyddio'r Gymraeg wrth farchnata a hyrwyddo gwin yn ychwanegu at yr ymdeimlad o ddiwylliant Cymreig
- byddai buddsoddi mewn mentrau cynaliadwyedd wrth gynhyrchu a phrosesu gwin yn helpu'r ymdeimlad o Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- byddai cadwyn gyflenwi fwy cydweithredol ar gyfer y dyfodol yn cyfrannu at Gymru fwy llewyrchus

Felly, gall y sector gwin a thwristiaeth gysylltiedig yng Nghymru gyfrannu'n gyffredinol at gyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.

## 3.2 Cyfraniad i Economi Cymru

### 3.2.1 Refeniw

Mae data gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dangos bod diwydiant Cymru fel arfer yn cynhyrchu refeniw cyfartalog o tua £337,000 y flwyddyn. Amcangyfrifir bod gweithgarwch twristiaeth yn cynhyrchu £10.0 miliwn ychwanegol y flwyddyn.

Er bod y cyfraniad cyffredinol tuag at economi Cymru o'r sector gwinllan yn fach ar hyn o bryd, mae'r diwydiant yn newydd ac yn dal i ddatblygu. Fodd bynnag, mae ganddo'r potensial i dyfu'n llawer mwy yn y dyfodol. Mae teimlad cyffredinol o optimistiaeth o fewn y sector, gyda llawer yn gobeithio ehangu eu gwinllan a'u harlwy twristiaeth yn y dyfodol.

Nid oes awydd yn y diwydiant i gael eu hystyried yn estyniad i sector gwin Lloegr, ond yn hytrach i ddiffinio ei hunaniaeth ei hun dros amser. Nid yw'r nodweddion hyn wedi'u cyfyngu yng Nghymru i'r sector gwin wrth gwrs, ond teimlem fod hyn yn rhan o'r cymeriad sy'n diffinio diwydiant gwin Cymru.

### 3.2.2 Cwsmeriaid

Mae natur sector gwin Cymru yn golygu bod y rhan fwyaf o werthiannau'n digwydd gyda chwsmeriaid lleol, bwytai a gwestai, unigolion preifat neu dwristiaid ar sail uniongyrchol. Dangosodd data o'n cyfweliadau ymchwil fod[25]:

- 71% o winllannoedd yn gwerthu eu gwin yn bennaf i gwsmeriaid lleol
- fel arfer, mae gwerthiant gwin Cymru yn cael ei wneud drwy "ddrws y seler" neu o fewn y sector lletygarwch lleol
- mae 77% o werthiannau gwin Cymru yn digwydd drwy "ddrws y seler" neu drwy siop ar y safle

Yn ystod 2020, addasodd diwydiant gwinllannoedd Cymru'n gymharol dda i effeithiau COVID-19, yn enwedig pan fu'n rhaid i fusnesau twristiaeth gau. Gwelodd gwinllannoedd gynnydd amlwg yn y galw gan gwsmeriaid pan ganiatawyd i fusnesau twristiaeth ailagor - yn aml gwnaed iawn am y gwerthiannau hynny a gollwyd yn ystod y cyfyngiadau clo.

[25] Roedd hyn yn cynnwys 19 o winllannoedd i gyd

Yn ogystal â hyn, addasodd llawer o winllannoedd i'r galw cynyddol am werthiannau ar-lein a gwelwyd y sianel hon yn cynyddu dros y flwyddyn, gan arwain at gynnydd mawr mewn gwerthiant ar-lein yn y cyfnod cyn y Nadolig.

*"Bu'n rhaid rhoi'r gorau i werthu trwy "ddrws y seler" yn ystod y cyfyngiadau clo, ond gweithiodd gwinllannoedd ar sicrhau teyrngarwch gan eu cwsmeriaid, fel eu bod yno pan oeddent yn ail-agor"*

Mae denu twristiaid i winllannoedd yn ystod 2021 yn parhau i fod yn gyfle allweddol i winllannoedd ac yna, adeiladu ar ail bryniannau drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, mae'r elw a geir wrth werthu drwy "ddrws y seler" yn llawer gwell i'r cynhyrchydd o'i gymharu â gwerthu i fasnachwr gwin neu leoliad lletygarwch sy'n ychwanegu eu helw eu hunain.

Dros y pum mlynedd nesaf, dylai gwinllannoedd Cymru geisio parhau i ganolbwyntio ar gwsmeriaid lleol a chwsmeriaid yn y DU. Dylai allforio i weddill y byd fod yn ffocws strategaeth llawer mwy hirdymor, yn enwedig gan na all y cyflenwad presennol ddarparu ar gyfer y lefel llawer uwch sydd ei hangen ar sail ryngwladol. Gyda'r rhan fwyaf o werthiannau gwin yn dal i fod yn rhai "lleol", mae marchnad "heb ei chyffwrdd" fwy neu lai yn y DU o hyd i ganolbwyntio arni.

### 3.2.3 Cyflogaeth

Mae cysylltiad annatod rhwng cyflogaeth o fewn sector gwinllannoedd Cymru a sector twristiaeth (Cymru). Ni fyddai rhai gwinllannoedd yn goroesi heb elfen(nau) twristiaeth eu busnes.

Fel arfer, ychydig iawn o bobl sy'n cael eu cyflogi mewn gwinllannoedd. Dim ond 4 gwinllan o'r 19 y buom yn siarad â nhw oedd yn cyflogi mwy na 10 o bobl. Fel arfer, mae'r rhai sydd â niferoedd uwch yn cyflogi pobl ar gyfer yr elfen dwristiaeth, yn hytrach nag ar gyfer rhedeg y winllan ei hun.

Mae ein hymchwil yn dangos bod tua 150 o bobl yn cael eu cyflogi'n rhan-amser o fewn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru, a bod 70 o bobl eraill yn cael eu cyflogi'n llawn amser.

Os defnyddir data'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel canllaw, mae'n ddigon posibl y bydd y ffigur yn agosach at 400. Cyflogir y rhan fwyaf o'r rhai a gyflogir yn y sector ar gyfer yr elfen dwristiaeth. Fodd bynnag, nid yw nifer fawr o weithwyr sy'n gweithio o fewn y diwydiant yn weithwyr ffurfiol (e.e. gallant fod yn aelodau o'r teulu, a ddefnyddir ar sail ad hoc neu ffrindiau, a ddefnyddir ar gyfnodau prysur adeg cynaeafu).

O'r herwydd, nid yw nifer o'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu talu'n ffurfiol am eu gwaith. O blith y rhai a gyflogir yn ffurfiol, mae ychydig o dan £2 filiwn y flwyddyn yn cael ei wario ar gyflogau. Os defnyddir data'r Asiantaeth Safonau Bwyd, gallai'r ffigur hwn fod yn nes £4 miliwn y flwyddyn.

Gan edrych tua'r dyfodol, daw twf, o ran swyddi a buddsoddiad o ochr dwristiaeth y diwydiant yn llawer cynt na'r ochr gynhyrchu.

## 3.3 Y Gefnogaeth sydd ar gael i Sector Gwinllannoedd a Thwristiaeth Cymru

### 3.3.1 Cefnogaeth Gyffredinol

Mae diffyg cyfathrebu rhwng sefydliadau cefnogi a gwinllannoedd. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr p'un ai a oedd gwinyddiaeth yn faes blaenoriaeth gwirioneddol i Lywodraeth Cymru. Roeddent yn teimlo bod llai o gefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â diwydiannau bwyd-amaeth eraill Cymru, megis defaid, cig eidion a llaeth. Mae hwn yn sylw cywir.

Ystyriwyd bod y ffaith bod yr astudiaeth hon yn cael ei chynnal yn gam mawr ymlaen.

Mae cynhyrchu grawnwin yn fenter amaethyddol. Serch hynny, daw cyfran fawr iawn o refeniw gwinllan (a chyfraniad i'r economi ehangach) o dwristiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn categoreiddio ffermio a thwristiaeth ar wahân, mae'n bwysig nad yw hynny'n rhoi'r sector dan anfantais, nac yn ei gwneud yn anos i winllannoedd gael cymorth gan Lywodraeth Cymru, am y rheswm syml bod gwinllannoedd yn pontio'r ddau sector.

Roedd sefydliadau rhanddeiliaid yn awyddus i dynnu sylw at ffynonellau data a oedd yn darparu gwybodaeth am y sector, megis:

- Gwefan LIC
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Croeso Cymru
- CFf – mae wedi helpu rhai gwinllannoedd mewn meysydd fel cyfnewidfeydd rheolaeth tramor ac yna meysydd mwy technegol fel tocio a chynaeafu, ond nid yw'n ymddangos bod ganddynt raglen gefnogi gynhwysfawr yn ei lle i gynorthwyo'r sector gwinllannoedd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynhyrchu data blynyddol ar y maes cynhyrchu yng Nghymru. Nid oedd y data diweddaraf ar gyfer 2020 ar gael nes bod ein hadroddiad drafft yn cael ei ddiwygio.

Fodd bynnag, roedd gweithredwyr gwinllannoedd yn aml yn llai ymwybodol, am ba reswm bynnag, o'r math hwn o wybodaeth a meysydd cymorth posibl. Mae'n debyg bod hyn yn fwy o broblem i'r gwinllannoedd mwy newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, dywedodd tua 82% o'n hymatebwyr, er enghraifft, nad oeddent yn ymwybodol o'r data ymchwil sydd ar gael i'w ddefnyddio ar wefan Croeso Cymru. Dylai hyn fod yn hawdd ei gywiro. Gallai fod yn dasg i'r SIG Gwin.

Mae'r diwydiant gwinllannoedd yng Nghymru yn awyddus i gael gafael ar grantiau ac opsiynau ariannu, a bod angen hynny, i'w helpu i ddatblygu a moderneiddio eu gwinllannoedd presennol, yn ogystal â sefydlu arlwy twristiaeth newydd (neu ddatblygu'r rhai presennol). Mae'r gwinllannoedd hynny sydd am ddatblygu yn y dyfodol yn deall yr angen i ddatblygu ochr dwristiaeth y busnes er mwyn tyfu eu gwerthiant cyffredinol.

Ar yr un pryd, mae elfen o bryder - os bydd newydd-ddyfodiaid yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r sector gwinyddiaeth yng Nghymru efallai bydd twf nas cynlluniwyd yn digwydd a hynny'n arwain at anghysondeb pellach o ran ansawdd y gwin a gynhyrchir.


Mae angen cael cydbwysedd yma – bydd angen gwaed newydd yn y sector yn y dyfodol, wrth gwrs, ond dyma lle y gallai cynllun olyniaeth a reolir yn ofalus ar gyfer diwydiant Cymru dalu ar ei ganfed.

### 3.3.2 Cymorth Penodol i Ddiwydiant Gwinllannoedd Cymru

Gofynnwyd i winllannoedd osod nifer o ofynion cymorth y diwydiant yn y dyfodol mewn trefn ar raddfa o 1 – 7 (dim angen oedd 1, a 7 oedd angen fwyaf). Ar sail hyn, credir mai'r mathau o gymorth sydd eu hangen fwyaf i'r sector yw:

1. *Gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ychwanegol yn y farchnad gartref a marchnad ehangach y DU, gan gysylltu â mentrau Croeso Cymru ac ati*
2. *Datblygu sgiliau a chyfleusterau/safleoedd hyfforddi pwrpasol yng Nghymru*
3. *Datblygu cadwyni cyflenwi cadarn a chydweithredol*
4. *Gwella ansawdd, datblygu amrywogaethau ac ati*

Mae'r graff isod yn manylu ar y mathau o gymorth y gofynnwyd amdanynt fwyaf (h.y. y rhai a gafodd eu rhestru naill ai fel 6 neu 7 gan ymatebwyr) yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer datblygu sector gwin Cymru yn y dyfodol.




Ffynhonnell: Promar International, yn seiliedig ar ymchwil/cyfweliadau

Trafodir y meysydd pwysicaf i sector gwin Cymru yn fanylach isod:

### 3.3.3. Gweithgarwch CC Ychwanegol yn y Farchnad Gartref a'r DU yn ehangach, gan Gysylltu â Mentrau Croeso Cymru

Gallai'r diwydiant elwa fwyaf o gael gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ychwanegol – sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y farchnad yng Nghymru - ac yna marchnad ehangach y DU.

*"Does dim digon o farchnata gwin o Gymru gan unrhyw un ar hyn o bryd"*

*"Mae angen inni farchnata a hyrwyddo'r sector gwin mewn cysyniad ehangach – ei hyrwyddo drwy farchnata bwyd a diod yn ehangach, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr â'r sectorau twristiaeth"*

*"Mae cyfle gwych i weithio ar ymgyrchoedd hyrwyddo tymhorol dros y Pasg a'r Nadolig"*

Mae hyn i gyd yn ychwanegu at ymdeimlad, tra bod diwydiant Cymru yn hyderus yn ei allu i gynhyrchu amrywiaeth o winoedd ar gyfer y farchnad leol, ac mewn rhai achosion ymhellach i ffwrdd, nad yw'n ystyried ei fod yn hyderus wrth farchnata ei ddiwydiant a/neu ei gynhyrchion mewn modd cydgysylltiedig.

Mae rhai enghreifftiau da o weithgarwch marchnata wedi'i weithredu'n dda yn sector gwin Cymru, ond mae'r rhain fel arfer yn digwydd ar lefel cwmnïau unigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd yn fusnesau ar raddfa fach. Yn aml, nid oes ganddynt yr adnoddau i gymryd rhan mewn gweithgarwch marchnata proffesiynol iawn. Nid cynhyrchu gwin yw'r her yn y dyfodol i sector gwinllannoedd Cymru - gall wneud hynny - yn hytrach pa mor dda y gall farchnata ei hun yn y dyfodol - i ystod gynyddol o fathau o gwsmeriaid.

Mae ymgyrchoedd blaenorol fel "Wythnos Gwinoedd Cymru" a " Dathlwch y Nadolig gyda Diodydd Cymru" wedi llwyddo i greu gwell ymwybyddiaeth a gwella canfyddiad o ansawdd ynglŷn â'r sector. Mae wedi helpu i fagu hyder yn y sector. Mae'n dangos sut y gall bawb yn y diwydiant elwa, trwy weithio gyda'i gilydd.

Mae cyfle i gynyddu gweithgareddau traws-hyrwyddo gyda diwydiant lletygarwch Cymru, a'r sector bwyd a diod ehangach, yn ogystal â chydweithio rhwng gwinllannoedd lleol. Dylid canolbwyntio ar dynnu sylw at agweddau twristiaeth y diwydiant, a fydd wedyn yn denu pobl ac yn cynyddu gwerthiant gwinllannoedd.

### 3.3.4 Datblygu Sgiliau a Chyfleusterau Hyfforddi Pwrpasol yng Nghymru

Er bod llawer iawn o wybodaeth ar gael yn y byd ar dyfu mewn hinsawdd oer, gan gynnwys dewis o amrywogaethau, stociau gwraidd, dewis clonol, dadansoddiad pridd/hinsawdd/topograffig, ac ati, nid oes gan Gymru sefydliad ymchwil ffurfiol sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddatblygu'r sgiliau o fewn y sector gwinyddiaeth.

Mae'r ffaith bod diwydiant gwinllannoedd Cymru ar raddfa fach yn golygu bod sefydlu cyfleusterau o'r fath yn debygol o fod yn rhan o strategaeth tymor hir.

Rydym eisoes wedi cyfeirio at yr angen i ystyried y mater hwn ac y dylid rhoi blaenoriaeth eithaf uchel i geisio penderfynu yn ei gylch.

### 3.3.5 Datblygu Cadwyn Gyflenwi Gadarn a Chydweithredol

Drwy bob rhan o'r gadwyn gyflenwi, mae angen mwy o gydweithio er mwyn i'r sector weithio gyda'i gilydd i'w yrru ymlaen. Gallai hyn, ar un lefel, gynnwys gwinllannoedd yn cydweithio i rannu gwybodaeth, sgiliau ac offer. Dylai hefyd gynnwys meithrin perthynas ag atyniadau twristiaeth/cwmnïau bwyd lleol, bwytai a gwestai, yn ogystal â gwinllannoedd eraill i gyfuno darpariaeth ond gan rannu adnoddau a deunyddiau marchnata'r un pryd.

Mae'n ymwneud â chreu "stori" i sector gwin Cymru a dylai pob dull y gellir ei gynnwys er mwyn sicrhau hyn. Mae angen i'r stori fynd ymhell y tu hwnt i bresenoldeb y winllan ei hun.

### 3.3.6 Gwella Ansawdd a Datblygu Amrywogaethau

Nid yw'r syniad sydd gan bobl o win Cymru bob amser yn cyfleu ansawdd, yn y ffordd y mae eraill yn ei wneud mewn gwledydd cynhyrchu allweddol, megis Ffrainc, yr Eidal, Sbaen, Chile, Seland Newydd neu Dde Affrica. Ychwanegir at hyn gan gost gymharol uchel cynhyrchu gwin yng Nghymru.

Dim ond rhan o'r ateb i ddatrys y mater hwn yw canolbwyntio ar hyrwyddo diwydiant Cymru yn well. Mae angen canolbwyntio ar wella ansawdd y gwin ei hun a datblygu hyn drwy ymchwil a datblygu, e.e. trwy ddatblygu amrywogaethau.

*"Mae llawer o wyddoniaeth yn gysylltiedig â thyfu gwin, dylem fod yn ceisio cydweithio â phrifysgolion lleol i gynnal ymchwil academaidd"*

*"Rydym am gynhyrchu gwin yng Nghymru sydd o ansawdd da iawn. Nid yw llawer o win o Gymru (a Lloegr) yn dangos beth yw amrywogaeth y grawnwin - mae angen i ni hyrwyddo hyn fel y bydd amrywogaethau'r DU yn dod yn gyfarwydd i gwsmeriaid"*

Bydd sector gwin Cymru bob amser yn ei chael yn anodd cystadlu (o ran pris) yn erbyn y cynhyrchwyr rhyngwladol blaenllaw eraill fel Seland Newydd, De Affrica, Chile a hyd yn oed yn erbyn y rheini sydd yn yr UE, megis Ffrainc, Sbaen a'r Eidal. Mae'r cyfuniad o gynhyrchu ar raddfa fach a'r ffaith nad yw'n sicrhau unrhyw arbedion maint sylweddol a'r costau cynhyrchu uwch a wynebir yng Nghymru o'r herwydd, yn golygu na all Cymru gystadlu yn erbyn y cyflenwyr hyn ar sail pris. Mae mynd â gwinwydd i Loegr i gael eu prosesu ac ati hefyd yn ychwanegu at gost gwinoedd Cymru - mae amcangyfrifon y diwydiant yn awgrymu y gallai hyn fod cymaint â £5 y botel.[26]

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r pwyntiau allweddol o ran pris ar gyfer amryw o winoedd - yn seiliedig ar y ffaith bod cost nodweddiadol cynhyrchu potel o win o Gymru tua £8 - £10, mae'n amlwg pam na ddylai Cymru fyth geisio cystadlu ar sail pris yn erbyn cynhyrchwyr eraill.

[26] Adborth y diwydiant

| Math o Win | Pris Ardoll heb gynnwys TAW | Pris Manwerthu yn cynnwys TAW (all-fasnach) | Pris i ar-fasnach heb gynnwys TAW |
|---|---|---|---|
| Gwin PDO Sbaen | £3.40 | £7 - £8 | £4.53 |
| Sauvignon Blanc Seland Newydd | £5.23 | £11.50 - £12.50 | £6.97 |
| Gwin Llonydd o Loegr | £8.55 | £15.50 - £17 | £11.40 |
| Sancerre, Ffrainc | £8.55 | £18.50 – £20 | £11.40 |

Ffynhonnell: Promar yn seiliedig ar ymchwil diwydiant a dadansoddi masnach

Mae pedwar goblygiad allweddol i hyn:

- mae angen i Gymru ganolbwyntio ar ansawdd ei gwin - a cheisio gwella hyn yn gyson fel mater o drefn.
- sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng gwinyddiaeth â'r sector twristiaeth
- dylai Cymru ystyried y diwydiannau gwin llai a geir ledled y byd, megis Tasmania a Nova Scotia, fel y rhai i gystadlu yn eu herbyn ac fel ei modelau rôl posibl, er bod llawer y gellir ei ddysgu o hyd gan ddiwydiannau yn Seland Newydd a De Affrica ac ati
- Mae Cymru'n wlad sy'n cynhyrchu gwin arbenigol ac felly mae angen iddi sicrhau safle yn y diwydiant a chael strategaeth. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar ei ansawdd, hunaniaeth/naratif y diwydiant a phris uchel yn y POS fel elfen gadarnhaol, ac nid anfantais

Mae'r angen am weithgarwch parhaus ym meysydd gwella ansawdd a datblygu amrywogaethau'n dasg allweddol ar gyfer y dyfodol.

## 3.4 Arloesi gyda Chynnyrch

### 3.4.1 Ansawdd a Delwedd y Diwydiant

Yn ein cyfweliadau dywedodd nifer o'r o'r cynhyrchwyr gwin mwy medrus a hyfforddedig fod yn '*Rhaid rhoi lle blaenllaw i ansawdd wrth arloesi*'.

Bydd gwella lefel y sgiliau a'r wybodaeth ymhlith cynhyrchwyr gwin yng Nghymru, wrth gwrs, yn helpu hyn (arloesi). Mae rhai o'r cyfleusterau mwyaf yn gallu gweithredu ar dueddiadau yn y diwydiant, er enghraifft, cynhyrchu 'gwin oren'.

Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhan fwyaf o berchnogion gwinllannoedd fod her fwy sylfaenol yn eu hwynebu: sicrhau ansawdd cyson er mwyn cynnal diddordeb cwsmeriaid yn y cynnyrch.

*"Rhaid i newydd-ddyfodiaid fod yn ofalus; rhaid i ni ganolbwyntio ar ansawdd i sicrhau bod y cynnyrch yn ddymunol yn esthetig i ddenu mwy o gwsmeriaid a thwristiaid. Os nad yw'r gwin yn dda, ni fydd pobl yn ei brynu eto"*

*"Mae llawer o winoedd o Gymru'n gyfuniad o winoedd, felly mae'r rhain eisoes yn unigryw ac yn arloesol i'r diwydiant"*

Mae sicrhau'r cysylltiad rhwng y prif gynhyrchydd a'r gwneuthurwr gwin yn hanfodol er mwyn dilysrwydd a tharddiad y cynnyrch Cymreig.

Y farn gyffredin ymhlith y gwinllannoedd bach niferus heb fawr o seilwaith yw bod arloesi'n allweddol i ddatblygiad y sector yn y dyfodol, gan sicrhau bod gwahanol arddulliau a thechnegau cynhyrchu'n cael eu defnyddio i greu cynnyrch (unigryw). Mae hyn yn gofyn am wybodaeth ac arbenigedd, a allai gael eu darparu yn y pen draw gan gyrff addysgol ac ymchwil a datblygu yng Nghymru, fyddai'n cynnig cyrsiau gwinyddiaeth arbenigol.

### 3.4.2 Cynaliadwyedd

Roedd cynaliadwyedd yn faes ffocws cyffredin i berchnogion gwinllannoedd, fel sbardun ar gyfer arloesi a mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol[27]. Mae rhai o berchnogion gwinllannoedd Cymru wedi bod yn ymchwilio i'r defnydd o boteli papur a thuniau gwin.

Mae eraill wedi bod yn edrych ar y cyfle i ddatblygu gwin organig. Mae marchnad arbenigol gynyddol yng Nghymru a gweddill y DU ar gyfer hyn.

Mae diddordeb hefyd mewn defnyddio pŵer solar a dŵr. Gallai hyn gynnig atebion arloesol i wneud y diwydiant yn fwy effeithlon, yn ogystal â gwerthu i farchnadoedd lle mae cwsmeriaid yn edrych fwyfwy ar fanteision amgylcheddol y cynnyrch - a sut y caiff ei gynhyrchu.

### 3.4.3 Tueddiadau Cwsmeriaid

Mae bod yn fwy rhagweithiol ac yn ymwybodol o dueddiadau cwsmeriaid a'r farchnad hefyd yn ffordd o sicrhau arloesedd yn y sector. Rhai o'r tueddiadau sydd wedi ymddangos yn boblogaidd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yw gwinoedd gyda chanran is o alcohol,

[27] Promar yn seiliedig ar 19 cyfweliad â gwinllannoedd

cynhyrchu figan ac organig, gyda rhai gwinllannoedd yng Nghymru eisoes yn ystyried hyn o fewn eu cynlluniau busnes presennol a'u blaengynlluniau.

*"Mae gwell marchnata'n allweddol i ysgogi'r galw, ac mae angen mwy o ymchwil a datblygu i gynhyrchu a datblygu amrywogaethau"*

### 3.4.4 Datblygu Amrywogaethau a Marchnata

Nid yw rhai o'r mathau o win a dyfir yng Nghymru mor gyfarwydd â hynny i'r defnyddiwr, ac yn aml ni chânt eu dangos ar label y cynnyrch. Byddai'n fuddiol i'r rhywogaethau a dyfir ddod yn fwy adnabyddus drwy farchnata'r rhain ar y botel. Roedd rhai mentrau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys annog cynhyrchwyr gwin o Gymru i gynnwys eu cynnyrch mewn cystadlaethau gwobrwyo (e.e. Gwobrau Gwin Prydain Fawr).

## 3.5 Datblygu Brand Cymreig

### 3.5.1 Y Brand

Ar hyn o bryd, nid oes USP cryf ar gyfer gwin o Gymru, ac eithrio'r ffaith bod y diwydiant yn cynnwys casgliad o fusnesau bach unigol, unigryw, i bob pwrpas. Byddai'r diwydiant yn elwa ar frand Cymreig cyffredinol, ond gan ddal i gadw rhyw elfen unigol o bob gwinllan, rhag colli'r hunaniaeth ranbarthol sy'n werthfawr/bwysig.

Datgelodd ein cyfweliadau ymchwil fod perchnogion gwinllannoedd yn credu y dylent allu hyrwyddo "Cymreictod" y cynnyrch, ond nid oeddent mor sicr sut y gellid ariannu hyn, yn enwedig os oedd angen elfen o ardystiad. Codwyd rhai pryderon hefyd ynghylch ansawdd y gwin, gan gynnwys pryderon y gellid labelu gwin o radd is fel gwin "o Gymru", oni cheir trefn gaeth i reoli ansawdd ac ardystio.

Byddai defnyddio brand Cymreig yn galluogi pawb o fewn y sector i elwa ar hunaniaeth gryfach ledled Cymru, ac i weddill y DU. Pe bai fframwaith clir yn cael ei ddatblygu sy'n manylu ar y gofynion i ddefnyddio brand gwin Cymreig, yna byddai hefyd yn bosibl i winllannoedd arbed arian ychwanegol ar ennill ardystiadau eraill fel PDO/PGI. Byddai hyn yn arbennig o fanteisiol i winllannoedd llai a newydd-ddyfodiaid, a all ei chael yn anodd cael elw digonol ar fuddsoddiad yn ystod y blynyddoedd cyntaf o weithredu.

Byddai datblygu brand cyffredinol ar gyfer gwin yng Nghymru hefyd yn helpu i hyrwyddo a datblygu enw da r ochr twristiaeth y gwinllannoedd.

*"Mae gan bob gwinllan yng Nghymru bwynt gwerthu, sef eu bod yn fusnesau bach unigryw, gallai brand Cymreig cyffredinol fod yn ddefnyddiol wrth gategoreiddio'r rhain"*

Gall USP gwin Cymru, ar ryw adeg yn y dyfodol, gynnwys hyrwyddo'r cynhyrchion yn isranbarthol. Gallai rhanbartholi yn y pen draw helpu i greu cystadleuaeth ymhlith rhanbarthau Cymru, ond byddai angen datblygu delwedd "Gwin Cymru" cyn gwneud hynny. Yn anad dim, nid oes gan yr un o'r rhanbarthau y màs critigol/adnoddau, ar hyn o bryd, i ddatblygu eu hunaniaeth eu hunain.

Y cam cyntaf yw cael gwell cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o win Cymru yn y lle cyntaf, yn hytrach na datblygu nifer o is-frandiau. Dydi diwydiant Cymru ddim yn ddigon mawr i wneud hyn - eto.

Nid oes awydd yng Nghymru i gael ei darlunio fel "estyniad" i'r sector gwin yn Lloegr.

*"Yr hyn sy'n allweddol i wreiddioldeb a natur unigryw'r cynnyrch yw'r man lle caiff ei dyfu yn hytrach na'i brosesu"*

### 3.5.2 Ardystio a Tharddiad

Gall ardystio a dulliau cynhyrchu hefyd fod rhan o USP, gan gynnwys cynhyrchu organig a biodynamig. Fodd bynnag, wrth i'r diwydiant ddatblygu, gallai Cymru groesawu'r amrywiaeth o gynnyrch Cymreig sy'n bodoli. Dylai ganolbwyntio ar ansawdd ei chynnyrch, nid y math penodol o gynhyrchu. Gall arbenigo mewn cynhyrchu, ynghyd ag elfen ranbarthol cynhyrchu, ddilyn yn ddiweddarach.

Mae cwsmeriaid hefyd yn dod yn fwyfwy ymwybodol ac am wybod o ble y daw eu bwyd a'u diod a sut y cânt eu cynhyrchu. Byddai arddangos cynhyrchion Cymreig (gwin) y gellir eu tyfu a'u cynhyrchu yng Nghymru i safon o ansawdd uchel yn apelio at y cwsmer lleol a phobl sy'n 'ymddiddori mewn bwyd' sy'n gwerthfawrogi'r math hwn o wybodaeth am darddiad.

Mae cyfle i gymryd y canfyddiad hwn o darddiad Cymreig a datblygu cysylltiad yn seiliedig ar ansawdd uchel gwinoedd Cymru.

## 3.6 Perthnasedd Statws PDO/PGI

Mae'r cwestiwn o ddefnyddio dynodiadau PDO a PGI wedi ennyn ymateb cymysg yn sector gwin Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai o'r farn nad yw hyn mor bwysig â safonau eraill (e.e. cynhyrchu organig a biodynamig).  Nid yw cynhyrchwyr eraill yn cynhyrchu digon o rawnwin eto ac maent yn defnyddio % o rawnwin o Loegr i gael digon i'w prosesu.

Yn seiliedig ar adborth anffurfiol drwy ein proses ymchwil, gwelwyd yn aml fod cwsmeriaid yn eithaf difater ynglŷn â'r ffaith bod gwin (o Gymru) yn cael ei brosesu yn Lloegr. Yn aml dywedai perchnogion gwinllannoedd fod cwsmeriaid yn dal i'w ystyried fel gwin o Gymru.

Roedd y rhan fwyaf o berchnogion gwinllannoedd yn cytuno nad oedd ardystiad PDO/PGI yn USP, gan nad yw'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn deall ystyr llawn/gwirioneddol yr achrediad. Felly mae angen buddsoddi mewn hyrwyddo a marchnata yn y dyfodol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r cynllun Dynodiad Daearyddol a'i gynnyrch, os yw gwin Cymru am elwa'n llawn ar gael achrediad llwyddiannus.

Yn gyffredinol, daethpwyd i'r casgliad bod "yr elfen Gymreig" a dilysrwydd/tarddiad/treftadaeth y cynnyrch yn bwysicach na PDO/PGI swyddogol, yn bennaf, oherwydd maint a natur bresennol sector Cymru.

*"Y prif ffactor i gwsmeriaid yw bod y grawnwin yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru"*

*"Mae achrediad biodynamig ac ardystiad organig yn bwysicach"*

*"Rydym wedi gwneud hynny erioed, fel yr awgrymodd y gwindy. Fodd bynnag, nid ydym yn defnyddio hyn fel USP gan nad yw cwsmeriaid yn gwybod beth mae'n ei olygu - mae angen hysbysebu hyn i elwa arno"*

Y realiti yw, fodd bynnag, waeth pa mor angerddol mae rhai yn y sector yn teimlo ynglŷn â chynhyrchu'n organig neu'n fiodynamig yn y dyfodol, mae eraill nad ydynt yn awyddus  neu

nad ydynt yn gallu  tyfu grawnwin yn organig oherwydd yr amodau lleol a/neu sy'n ffafrio blas gwin a gynhyrchir yn gonfensiynol.

Fodd bynnag, waeth pa mor gryf y mae rhai gwinllannoedd yn teimlo am achrediad PDO/PGI, mae eraill nad ydynt o'i blaid ac eraill sy'n arddel egwyddorion biodynamig sy'n eu hatal rhag gwneud gwinoedd cymwys, neu sydd mewn sefyllfa (yn barhaol neu dros dro/strategol) sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gynhyrchu gwinoedd nad ydynt yn gymwys.

Am y rheswm hwn credwn y dylai blaen-strategaeth ar gyfer sector gwin Cymru gynnwys yr holl ddulliau cynhyrchu a chynlluniau achredu sydd ar gael, a dylid ystyried yr amrywiaeth o ran cynhyrchu fel ffactor cadarnhaol.

## 3.7 Rôl Llywodraeth Cymru, y Diwydiant a SIG Gwin

Mae rôl Llywodraeth Cymru a grŵp SIG Gwin Cymru yn cael dylanwad pwysig ar ddyfodol y sector.

### 3.7.1 Rôl LlC

Mae rhwystredigaeth ynghylch gallu gwinllannoedd i gael gafael ar gyllid Llywodraeth Cymru, a'r eglurhad ynghylch a yw gwinllannoedd yn cael eu dosbarthu o dan amaethyddiaeth neu dwristiaeth.

Mae perchnogion gwinllannoedd Cymru hefyd yn credu bod rhwystrau o hyd, yn enwedig ar lefel cyngor, wrth sefydlu cynlluniau newydd i roi hwb i'w busnesau (e.e. y drafferth i gael arwydd "twristiaeth" brown i ddangos bod arlwy twristiaeth /gwinllan gerllaw).

Gallai deall y math o gefnogaeth sydd ar gael fod o gymorth i berchnogion gwinllannoedd sy'n awyddus i dyfu eu busnesau ond sy'n aml yn ansicr sut yn union y gellid gwneud hynny. Gallai hon fod yn rôl allweddol arall i SIG Gwin.

O ran y rhwystrau a wynebir ar lefel cynghorau lleol, credir bod y rhain yn codi oherwydd diffyg dealltwriaeth gan Lywodraeth Cymru. Byddai cefnogaeth well a chliriach gan Lywodraeth Cymru ac ar lefel cyngor ynghylch materion cynllunio, yn arbennig, o fudd i'r sector twristiaeth, yn hytrach nag ar gyfer cynhyrchu gwinwydd yn unig.

Yn yr achosion mwyaf eithafol, roedd y rhwystredigaeth wrth hyrwyddo cynlluniau busnes yn golygu bod rhai perchnogion gwinllannoedd hyd yn oed yn ystyried symud eu busnes y tu allan i Gymru, pe bai hynny'n golygu bod mwy o gymorth i fusnesau ar gael mewn mannau eraill.  Nid yw'n glir a fyddai hyn yn digwydd ai peidio - ond mae'n debyg nad yw'n risg sy'n werth ei chymryd.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu fframwaith i'r awdurdodau lleol, a allai roi well dealltwriaeth iddynt o ofynion gwinllannoedd a gwinoedd fel busnesau, o ran cynhyrchu gwinwydd a thwristiaeth.  Byddai cydweithio rhwng yr holl randdeiliaid yn sicrhau bod y sector yn elwa ar y fframwaith yn y ffordd orau bosibl.

*"Mae profiad ymwelwyr ochr yn ochr â'r gwin yn dod law yn llaw"*

*"Ychydig iawn o seilwaith fyddai ei angen i weithredu gwindy bach iawn ar y safle, ond gallai fod yn amhrisiadwy i ddwy agwedd - cynhyrchu gwin a thwristiaeth - y busnes"*

*"Gall gwindy fod yn ddyluniad syml iawn, y cyfan sydd ei angen yw adeilad amaethyddol wedi'i gladio â sinc, sydd wedi'i inswleiddio'n dda ac sydd â lloriau draenio."*

Efallai mai'r cymorth a gynigir yn yr hirdymor, ar ôl i'r diwydiant dyfu a chynyddu lefelau cynhyrchu, fydd cefnogi buddsoddiad mewn cyfleusterau prosesu ychwanegol yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes, efallai y bydd y logisteg o rai ardaloedd yng Nghymru i windai eraill yn y DU yn dal i fod yn fwy ymarferol na chanolfan ganolog yng Nghymru - byddai angen ystyried hyn yn ofalus. Dylid ystyried astudiaeth ddichonoldeb i asesu'r mater hwn.

Fodd bynnag, dylai datblygu cyfleusterau prosesu mwy pwrpasol yng Nghymru fod yn un o amcanion y diwydiant yn y tymor canolig i hirdymor.

Pe bai gwinllannoedd yn gallu gweithredu gwindai llai ar y safle, efallai y byddai'n bosibl iddynt ddatblygu cynnyrch unigryw a chynyddu'r arlwy twristiaeth. Fodd bynnag, nid yw ymarferoldeb hyn mor syml, gyda'r rhan fwyaf o winllannoedd yn awyddus i edrych ar opsiynau twristiaeth eraill a chynnal eu perthynas bresennol â gwindai Lloegr ar gyfer prosesu.

O ran gwella llif gwybodaeth rhwng y sector gwinllannoedd a Llywodraeth Cymru, rhaid iddo, fodd bynnag, fod iddi fod yn broses dwyffordd. Gall y SIG helpu i nodi ffynonellau cyllid ac egluro'r rhain i gynhyrchwyr gwinyddiaeth, gan y gall arwain y ffordd mewn meysydd eraill hefyd. Ar yr un pryd, mae angen i sector gwin Cymru gymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad ei hun hefyd.

Nid yw gwinyddiaeth yng Nghymru, yn gyffredinol, wedi cael llawer o gyllid na chymorth gan Lywodraeth Cymru. Gallai sefydliadau fel Menter a Busnes helpu i farchnata/datblygu brand. Yn ogystal â hyn, gallai CFf helpu'r rhai sydd eisiau cymorth i ymuno â'r sector am y tro cyntaf i arallgyfeirio.

Mae'r cymorth hwn yn aml yn anodd ei gael, gan nad yw gwinllannoedd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel daliadau amaethyddol.

### 3.7.2 Y SIG

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'n ymddangos bod y SIG wedi dod yn fwy amlwg, o ganlyniad i'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol yn ein hymchwil bod y SIG wedi ymwneud mwy â gwinllannoedd ac wedi cynnig cryn gefnogaeth, yn cynnwys mynediad at wybodaeth, cysylltu ag arbenigwyr, cyllid ar gyfer cyrsiau a gweminarau addysgiadol. Mae'r rhain wedi bod o fudd arbennig i'r rhai sy'n fwy newydd i'r diwydiant.

Mae angen i'r SIG Gwin barhau i fod yn rhagweithiol i sicrhau bod cymorth ar gael yn y meysydd priodol, yn ogystal â gweithredu ar adborth gan yr aelodau.

Gallai'r SIG arwain ar astudiaethau ynglŷn â'r galw am gyfleusterau prosesu yn y dyfodol, y galw am ganolfan hyfforddi pwrpasol yng Nghymru ar gyfer y sector gwin ac ymchwil i natur cwsmeriaid Cymru.

Roedd Ymchwil a Datblygu ar ddatblygu amrywogaethau a chymorth gyda marchnata i hybu gwerthiant ar-lein, yn arbennig, ymysg rhai o'r meysydd mwy cyffredin a grybwyllwyd lle byddai cymorth yn cael ei werthfawrogi. Mae angen cymorth technegol ac addysg hefyd i ddenu unigolion medrus â diddordeb i'r sector yn y dyfodol.

*"Mae diffyg cysylltiadau cyhoeddus a marchnata gwin yng Nghymru - gallai fod yn gynnyrch mwy cyfarwydd i gwsmeriaid"*

*"Mae angen i bobl ifanc yn y sector helpu i ddatblygu syniadau marchnata creadigol"*

### 3.7.3 Cyrff Sector Gwin Gwyn

Mae angen i ddiwydiant Cymru weithio'n fwy cydweithredol yn y dyfodol. Mae sawl sefydliad sy'n ymddiddori yn y ffordd y mae'r sector yn gweithredu, a'i gyfeiriad yn y dyfodol – sef, SIG Gwin, Gwinllannoedd Cymru a Chymdeithas Gwinllannoedd Cymru.

Wine GB yw cymdeithas fasnach genedlaethol y DU ar gyfer gwinllannoedd a chynhyrchwyr gwin. Fe'i trefnir yn rhanbarthau, ac mae Cymru'n un o'r saith. I ddod yn aelod o Wine GB, mae'n rhaid i winllan dalu ffi flynyddol sy'n cyfateb, ar gyfartaledd, i gannoedd o bunnoedd y flwyddyn. Hyd yn oed ar gyfer gwinllan fach iawn sydd ag ychydig o dan 1 hectar o winwydd, y ffi a dalwyd ym mis Mehefin 2020 oedd £174.

Ar gyfer gwinllannoedd mwy, gall fod yn sylweddol uwch.

Nid yw'n bosibl ymuno â Wine GB fel gwinllan o Gymru heb ymuno â Chymdeithas Gwinllannoedd Cymru ar yr un pryd, ac nid yw'n bosibl ymuno â Chymdeithas Gwinllannoedd Cymru yn annibynnol ar Wine GB – nid yw cyfansoddiad Wine GB yn caniatáu hynny.

Mae cred gyffredinol hefyd fod ffocws Wine GB i raddau helaeth ar fuddiannau gwinllannoedd mawr yn Lloegr.

Nid yw gwinllannoedd Cymru fel y cyfryw yn gymdeithas fasnach. Mae gwefan sy'n rhestru (yn genedlaethol ac yn ôl rhanbarth) ac yn mapio'r gwinllannoedd yng Nghymru, gyda manylion a lluniau wedi'u darparu gan y gwinllannoedd. Mae trefn y rhestr yn cael ei newid bob wythnos er mwyn i bob gwinllan gael yr un amlygrwydd dros amser.

Caiff rhestrau eu diweddaru'n rheolaidd wrth i winllannoedd ddarparu gwybodaeth a lluniau newydd. Nid yw'n costio dim, ac mae'r wefan yn uchel ar y dudalen ganlyniadau gyntaf ar gyfer chwiliadau Google am "winllannoedd Cymru" neu "winllannoedd yng Nghymru" ac ati . Felly mae'n ffordd dda o ddenu cwsmeriaid ychwanegol i wefannau gwinllannoedd unigol.

Mae ganddi dudalen benodol ar gyfer gwerthu gwin o Gymru, lle gallwch glicio ar fanwerthwyr i brynu bocsys cymysg o win o Gymru. Hefyd ceir presenoldeb amlwg ar y cyfryngau cymdeithasol ar draws Facebook, Instagram a Twitter gan rannu cynnwys o winllannoedd Cymru. Gweinyddir y rhain gan wahanol aelodau unigol o gymuned Gwinllannoedd Cymru.

Fodd bynnag, ar gyfer sector mor fach, dylid cael dull symlach yn y dyfodol, gydag un sefydliad yn arwain y ffordd. Mae gan y SIG Gwin well adnoddau na'r ddwy gymdeithas ar gyfer y diwydiant yng Nghymru ac mae ganddo fynediad cryfach a mwy uniongyrchol i seilwaith Llywodraeth Cymru. Gallai gymryd y rôl arweiniol yn hyn o beth.

Er gwaethaf eu hymdrechion hyd yma, nid oes gan y ddwy gymdeithas yr adnoddau na'r mynediad at gyllid i fynd i'r afael â'r amrywiaeth eang o faterion y mae angen rhoi sylw iddynt os ydym am ddatblygu sector gwin a thwristiaeth cysylltiedig ffyniannus yng Nghymru.

### 3.7.4 Rôl y Gwinllannoedd

Mae rôl y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru yn debyg, yn rhannol i safbwynt a ffocws Llywodraeth Cymru a'r SIG Gwin. Mae perchnogion gwinllannoedd yn credu mai eu rôl nhw yw gyrru'r sector yn ei flaen, yn ogystal â gyrru eu busnes eu hunain yn ei flaen. Mae llawer o berchnogion brwdfrydig yn y sector sydd am wneud hyn.

Er mwyn cryfhau'r ffocws hwn, mae angen strategaeth gyffredinol ar gyfer y sector. Byddai hyn yn sicrhau bod gan bob gwinllan ac arlwy twristiaeth cysylltiedig gyfeiriad cliriach o ran yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni (fel diwydiant) yn y 3/5 - 10 mlynedd nesaf a thu hwnt.

Mae rhai perchnogion presennol ar fin ymddeol, ond maent yn ceisio sicrhau y gallant drosglwyddo profiad, gwybodaeth a'r winllan i unigolion perthnasol[28]. O'r herwydd, mae angen cael rhaglen i ddenu newydd-ddyfodiaid i'r sector ac i gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgarwch cynllunio olyniaeth ac i berchnogion hŷn gwinllannoedd rannu eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u sgiliau.

*"Rydym am weithio gyda'r SIG Gwin a bod yn esiampl i ddangos yr hyn y gellir ei wneud yn y sector – hyrwyddo'r elfen dwristiaeth yn ogystal â datblygu ein gwinllan"*

*"Rwyf am ddefnyddio fy nghyfleusterau i wneud gwin Cymru yn fwy gweladwy"*

*"Rydym yn arloesi, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa i gynghori eraill"*

*"Mae angen i ni hyrwyddo, marchnata, amddiffyn a datblygu cymuned y cynhyrchwyr gwin"*

*"R wyf yn gwrando ar yr hyn sydd gan eraill i'w ddweud ac mae gen i graffter busnes i'w rannu. Gallwn fod yn fentor, gallwn ddysgu eraill gyda fy arbenigedd a gallant hefyd ddysgu o fy nghamgymeriadau"*

Mae hon yn agenda eithaf uchelgeisiol, ond yn un y mae angen ei deall os yw'r sector am gyflawni ei botensial dros y 5 – 10 mlynedd nesaf.

Ceir rhagor o fanylion am rolau penodol pob rhan o gadwyn gyflenwi gwinyddiaeth Cymru yn Adran 7.2 (lle rydym yn rhestru ein prif argymhellion).

[28] Mae dwy winllan yn Nhrefynwy, fel enghraifft, wedi uno'n ddiweddar

# Adran 4. Astudiaethau achos rhyngwladol

## 4.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon ceir nifer o astudiaethau achos[29] o wledydd eraill sy'n cynhyrchu gwin er mwyn rhoi syniad o:

- raddfa a thwf y sector – yn anad dim, o ran cynhyrchu a chyflogaeth.
- rôl twristiaeth o fewn hyn
- o fewn pa farchnadoedd y maent fel arfer yn gweithredu
- sut mae'r diwydiant yn cael ei drefnu
- beth fu rôl y llywodraeth yn natblygiad y diwydiant
- beth allai fod yn "wersi trosglwyddadwy" i Gymru

Mae diwydiant Cymru fwy neu lai'n dal i ddatblygu. Credwn fod o leiaf rai "gwersi trosglwyddadwy" o'r holl astudiaethau achos hyn. Efallai bod cymharu diwydiant Cymru â'r diwydiannau ar raddfa fawr yn Seland Newydd neu Dde Affrica yn ymddangos yn fympwyol, ond mae pob un ohonynt wedi gorfod ddechrau yn rhywle ac felly teimlwn fod y gwersi y gellir eu dysgu yn dal yn ddilys.

Wedi dweud hynny, gallai cymharu sector gwin Cymru â rhanbarthau eraill fel Nova Scotia a Thasmania, sydd â diwydiannau ar raddfa fach, ond sydd wedi datblygu sefyllfa arbenigol fod mor ddilys a phwysig ag unrhyw un.


Rydym hefyd wedi rhoi rhai sylwadau ar ddatblygu sector gwin Lloegr er bod ymdeimlad cryf yng Nghymru y dylai'r diwydiant edrych a theimlo'n wahanol i'r un yn Lloegr.

[29] Roedd y rhain yn cynnwys diwydiannau yn Lloegr, Tasmania, Seland Newydd, De Affrica a Nova Scotia. Fe'u cynhaliwyd gan ddefnyddio ymchwil desg o ffynonellau gwybodaeth cadarn yn y diwydiant. Mae'r sectorau gwin yn Seland Newydd a De Affrica, yn benodol, wedi'u dogfennu'n arbennig o dda. Buom hefyd yn cynnal cyfweliadau dilynol dros y ffôn gyda sefydliadau allweddol a chawsom fewnbwn hefyd, gan ein harbenigwr yn y diwydiant gwin sydd wedi teithio i'r holl wledydd hyn yn y gorffennol

## 4.2 De Affrica

### 4.2.1 Maint a Thwf y Diwydiant

De Affrica yw'r 7fed cynhyrchydd gwin mwyaf yn y byd, fel y dangosir yn y diagram isod.




Ffynhonnell: The Drinks Business

Yn 2019, yn Ne Affrica, proseswyd tua 1.25 miliwn tunnell o rawnwin ar gyfer cynhyrchu gwin. Ar lefel genedlaethol, cyfrannodd y diwydiant gwin yr hyn sy'n cyfateb i £2.6 biliwn i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth De Affrica.

Fodd bynnag, ers 2013 bu gostyngiad cyson mewn cynhyrchu gwin yn Ne Affrica, gyda Chyfradd Twf Cyfansawdd Flynyddol (CAGR) o - 3% rhwng 2013 a 2019. Bu mwy o ostyngiad mewn mathau o win coch, gyda CAGR o - 4.3% o gymharu â - 2.4% mewn mathau o win gwyn.


Er gwaethaf y gostyngiad hwn dros y 6 blynedd diwethaf, mae CMC y diwydiant yn dal i fod yn sylweddol uwch nag yn 2009, pan oedd y cyfraniad yn cyfateb i £1.28 biliwn.

Yn 2019, roedd tua 2,700 o brif dyfwyr grawnwin yn Ne Affrica, sef tua 540 yn llai nag yn 2013 a 1,060 yn llai na 2009. Gan fod llawer o'r prif gynhyrchwyr grawnwin yn Ne Affrica yn gymharol fach, yn aml nid ydynt wedi gallu cynnal eu hunain yn dilyn blynyddoedd o gynaeafu amhroffidiol. Mae hwn yn ffactor pwysig yn y gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd. Fodd bynnag, yn 2020, amcangyfrifwyd y byddai cynhyrchu De Affrica yn dychwelyd i'w lefel fwy arferol, ar ôl sawl blwyddyn o sychder a chynaeafau llai.

Yn ogystal â'r ffaith bod gostyngiad yn nifer y prif dyfwyr, mae diwydiant gwin De Affrica hefyd yn wynebu risg newydd oherwydd mae'n bosibl bydd prinder sylweddol o amrywogaethau penodol o rawnwin dros y blynyddoedd nesaf. Y rheswm am hyn yw bod mwy na hanner y gwinwydd yn 2019 wedi mynd heibio i'r cyfnod gorau ar gyfer ffrwytho. Y cyfnod ffrwytho gorau yw rhwng 4 - 12 mlynedd. Yn 2019, roedd tua 50% o gyfanswm yr hectarau o winllannoedd yn 16 mlynedd neu'n hŷn. Yn 2013, roedd tua 38% o gyfanswm yr hectarau a oedd yn 16 mlynedd neu'n hŷn.

Fel arfer, nid yw prif dyfwyr grawnwin De Affrica yn prosesu'r grawnwin, ond yn hytrach yn eu gwerthu i'r "selerydd gwin". Roedd tua 530 o selerydd gwin yn prosesu grawnwin yn 2019. Roedd niferoedd selerydd gwin yn sefydlog rhwng 2013 - 2016, ond ers hynny, maent hwythau hefyd wedi dechrau gostwng, gyda thua 30 yn llai yn 2019 na 2013.

Gellir rhannu'r rhain yn ôl maint: micro, bach, canolig, mawr a "mega". Selerydd gwin canolig a gyfrannodd fwyaf yn gyffredinol i'r diwydiant twristiaeth gwin yn 2019.





Source: Vinpro

### 4.2.2. Strwythur Sefydliadol Diwydiant Gwin De Affrica

Mae strwythur sefydliadol gwin De Affrica yn cynnwys tri endid gyda phedair uned fusnes yn gweithredu oddi tanynt fel y gwelir isod.

### Strwythur Diwydiant Gwin de Affrica




Ffynhonnell: Vinpro


Cyfunodd y sefydliadau hyn (Vinpro, SALBA, SAWIS, WOSA, Winetech a SAWITU) i sefydlu Ymarfer Strategol y Diwydiant Gwin (WISE) yn 2014. Diben hyn oedd gosod targedau ar gyfer y diwydiant ei hun a chefnogi cyfraniad y diwydiant tuag at Gynllun Datblygu Cenedlaethol De Affrica a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Mae gwin a thwristiaeth De Affrica wedi'u dogfennu'n dda yn nhermau:

- tueddiadau o ran cynhyrchu
- data am y farchnad a chyflogaeth
- y cysylltiad rhwng gwinyddiaeth a thwristiaeth

### 4.2.3 Rhanbarthau Cynhyrchu

Yn 2019, roedd 92,066 ha o winllannoedd ym Mhenrhyn y Gorllewin a'r Gogledd, gyda 23 o winllannoedd wedi'u henwi ar fap "llwybrau gwin" De Affrica, a thua 15 o'r rhain o fewn 200 km i Cape Town. Mae'r gyfran uchaf o winllannoedd yn rhanbarth Stellenbosch. Mae bron pob un o brif ranbarthau cynhyrchu grawnwin De Affrica wedi gweld gostyngiad mewn cynhyrchiant o 2013.





Source: SAWIS

### 4.2.4 Marchnadoedd

Yn 2019, roedd gwin yn cyfrif am 9% yn unig o gyfanswm yr alcohol a yfwyd yn Ne Affrica (cwrw sy'n cael ei werthu fwyaf yn y farchnad gartref). Mae llawer o selerydd gwin yn cyflenwi'r farchnad gartref yn unig, felly gyda'r cynhaeaf gwin a'r gwerthiant yn gostwng, cyfrannodd hyn at bwysau ar selerydd De Affrica i ystyried dod at ei gilydd neu ddatblygu sylfaen gwsmeriaid ehangach.

Bu gostyngiad sydyn hefyd yn allforion De Affrica ers 2017. Yn 2019, allforiwyd tua 320 miliwn litr o win De Affrica, a oedd 24% yn llai na 2018. Mae'r rhan fwyaf o win yn Ne Affrica yn cael ei allforio mewn swmp. Mae gwin swmp yn cyfrif am 55% o allforion De Affrica. Nod rhaglen WISE yw cyrraedd targed o 60% ar gyfer poteli gwin, yn hytrach na swmp erbyn 2025, i fanteisio ar werth ychwanegol uwch hyn.

Y tri phrif gyrchfan allforio ar gyfer gwin De Affrica yw'r DU, yr Almaen a'r Iseldiroedd. Ymhlith y marchnadoedd allforio pwysig eraill mae gwledydd eraill yr UE, yr Unol Daleithiau a Chanada, sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o weddill allforion De Affrica.




Ffynhonnell: Gwinoedd De Affrica

Y farchnad bwysicaf yn Affrica ar gyfer allforion De Affrica yw Cenia. Yn gyffredinol, fodd bynnag, prin yw'r fasnach o fewn Affrica hyd yma. Teimlir, serch hynny, fod cyfleoedd i dreiddio'n well i'r farchnad mewn marchnadoedd rhanbarthol/Affricanaidd eraill yn y dyfodol.

Mae diwydiant gwin De Affrica hefyd wedi nodi Tsieina, yr Unol Daleithiau, Cenia, Tasmania a Sambia fel ardaloedd ar gyfer twf strategol mewn allforion.

### 4.2.5 Effaith COVID - 19

Mae COVID–19 wedi cael effaith ddifrifol ar ddiwydiant gwin De Affrica. Er nad yw'r effaith lawn yn hysbys eto, mae ymchwil ragarweiniol yn awgrymu bod y cyfyngiadau ar werthiannau domestig ac allforion diodydd alcoholig wedi arwain at amcangyfrif o golledion mewn gwerthiant gwin sy'n cyfateb i £395 miliwn yn ystod y cyfyngiadau clo cyntaf a £39 miliwn yn yr ail, gyda thua 21,000 o swyddi wedi'u colli yn ystod y cyfyngiadau clo cyntaf ac ychydig o dan 6,000 o swyddi wedi'u colli yn yr ail. Ffynhonnell: SAWIS

### 4.2.6 Cyflogaeth

Yn 2019, cefnogodd gweithrediadau diwydiant gwin De Affrica gyfanswm o 269,100 o swyddi sy'n cyfateb i 1.6% o gyfanswm cyflogaeth y wlad (gan ystyried cyflogaeth anffurfiol a ffurfiol). Roedd 80,175 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol (ffermio a phrosesu) yn sector gwin De Affrica.

Felly, o'r 269,100 mae tua 188,925 o bobl yn cael eu cyflogi yn yr agweddau ehangach yn y diwydiant gwin, gan gynnwys y sectorau ariannol/busnes a gwasanaethau cymunedol eraill.

Mae cyfanswm nifer y swyddi yn Ne Affrica y mae'r diwydiant gwin yn gyfrifol amdanynt wedi amrywio dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda chynnydd o 275,600 yn 2009 i 289,200 yn 2013. Er 2013, fodd bynnag, mae'r nifer wedi gostwng tua 7%.

Mae'r gostyngiad mwyaf i'w weld mewn cyflogaeth anuniongyrchol a chyflogaeth ysgogedig (h.y. incwm gwariant llafur wedi'i logi i ddefnyddio gwasanaethau lleol (e.e. mecaneg ceir). Bu gostyngiad mewn cyflogaeth ysgogedig yn sgil llai o brynu'n lleol a phwysau ar incwm aelwydydd.

Fodd bynnag, bu cynnydd mewn cyflogaeth uniongyrchol  o tua 17,730. Byddai hyn yn cynnwys rhywfaint o dwristiaeth.

Mae'r diwydiant twristiaeth gwin yn Ne Affrica yn darparu cyfanswm o tua 36,400 o gyfleoedd cyflogaeth (cyflogaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig). Mae tua 5,800 o bobl yn cael eu cyflogi'n barhaol ar sail uniongyrchol yn y diwydiant twristiaeth gwin, gyda 4,415 o weithwyr achlysurol yn y tymor brig a 2,655 arall yn y tymor tawel.

Mae nifer y bobl a gyflogir ym maes twristiaeth gwin wedi tyfu dros y 10 mlynedd diwethaf. Cyflogwyd tua 28,357 yn y sector hwn yn 2009.

### 4.2.7 Rôl Twristiaeth

Mae gan rôl twristiaeth yn niwydiant gwin De Affrica werth economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Roedd cyfraniad uniongyrchol twristiaeth gwin De Affrica yn 2019 i CMC yn cyfateb i tua £115 miliwn, gyda'r cyfuniad o gyfraniad uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig (gwariant y rhai a gyflogir yn y diwydiant gwirod) yn dod i gyfanswm o £345 miliwn.

Nod rhaglen WISE yw cyrraedd cyfraniad sy'n cyfateb i £720 miliwn erbyn 2025.

Yn 2019, croesawodd y diwydiant twristiaeth, yn ei gyfanrwydd, 10.2 miliwn o bobl o dramor yn Ne Affrica. Rhwng 2013 a 2019, bu cyfradd twf flynyddol o 2.2% yn nifer y bobl o dramor a fu'n ymweld â diwydiant twristiaeth De Affrica.

Fodd bynnag, ers COVID-19, mae twristiaeth wedi aros yn ei hunfan, heb unrhyw ymwelwyr rhyngwladol fwy neu lai, a dim ond teithiau lleol cyfyngedig.

Mae'r "opsiynau" i dwristiaid a ddarperir mewn selerydd gwin fel arfer yn cynnwys:

- drws y seler/stafelloedd blasu
- bwytai, lleoliadau cynadledda a digwyddiadau
- teithiau a phrofiadau gwin
- capeli priodasau a llety

Roedd 88% o'r diwydiant twristiaeth gwin yn cynnwys 4 prif weithgaredd; blasu gwin, llety dros nos, bwyd a diod a chynadleddau a digwyddiadau.

Mae gwahaniaeth rhwng tyfwyr cynradd a selerydd gwin sy'n prosesu grawnwin, o ran twristiaeth.  Fel arfer, nid yw tyfwyr cynradd yn cynnig unrhyw arlwy twristiaeth, ond mae'r selerydd gwin sy'n prosesu'r grawnwin yn gwneud hynny. Mae twristiaeth yn cyfrannu 14.7% at gyfanswm y trosiant ar gyfartaledd ar gyfer selerydd gwin sy'n prosesu grawnwin.

Fodd bynnag, mae seleri gwin micro, y rhai sydd â throsiant llai na SAR 10 miliwn (£479,000) yn llawer mwy dibynnol ar dwristiaeth, gan gyfrannu at gyfanswm trosiant o 41.3% ar gyfartaledd.

Yn y rhanbarth rhwng Cape Town ac o amgylch Stellenbosch mae tua 60% o gyfanswm trosiant y diwydiant gwin yn deillio o dwristiaeth.

### 4.2.8 Datblygiadau yn y Dyfodol yn Sector Gwin De Affrica

Mae'r diwydiant gwin yn elfen bwysig o'r cymorth sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau De Affrica i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol.

Mae rhaglen WISE yn ceisio gwella gwerthiant gwin lleol hyd at 450 miliwn litr yn 2025 o'r llinell sylfaen 350 miliwn litr o 2015, yn ogystal â sicrhau bod 100% o win De Affrica wedi'i achredu'n foesegol. Ar hyn o bryd yn 2019, 61% yw'r ganran.

Nod pwysig iawn arall yw cynyddu adnoddau tir a dŵr ym mherchnogaeth pobl ddu Affricanaidd o 3% yn 2019 i 20% erbyn 2025.

Mae diwydiant gwin De Affrica yn gweithio'n agos gyda'r Fenter Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd (*Confronting Climate Change*), y sefydliad Masnach Deg ac mae ganddo sêl Gwin Cynaliadwy De Affrica. Diben yr holl weithgarwch hwn yw gwneud y diwydiant yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol o safbwynt economaidd-gymdeithasol, gwleidyddol a hinsoddol.

## 4.3 Seland Newydd

### 4.3.1 Hanes a Throsolwg

Dechreuwyd tyfu gwinwydd yn Seland Newydd yn wreiddiol tua dechrau'r 19eg ganrif, fodd bynnag, amharwyd ar hyn gan gyfuniad o glefydau gwinwydd a'r mudiad dirwest.

Cododd y diwydiant yn ei ôl yn gryf yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pan godwyd ardollau ar win a fewnforiwyd, gan arwain at dwf mewn cynhyrchu domestig. Gwinwydd o Ogledd America a mathau hybrid a dyfid yn bennaf, a oedd yn cynhyrchu cnydau da. Er hynny, ar y cyfan roedd y rhain yn cynhyrchu gwin o ansawdd israddol i'r mathau eraill o rawnwin a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Rhwng y 1970au a'r 1990au gwelwyd cynnydd mewn croesi'r amrywogaeth Muller Thurgau fel y prif rawnwin, gan gynhyrchu gwinoedd ychydig yn felys a oedd yn boblogaidd bryd hynny.

Bu cynnydd gwirionedd mewn cynhyrchu gwin o ansawdd yn Seland Newydd ar ôl cyflwyno mathau "rhyngwladol" o rawnwin *Vitis Vinifera* o 2000 ymlaen. Bellach roedd y diwydiant mewn sefyllfa gref yn y farchnad gartref ac o ran allforio.

Roedd llwyddiant y diwydiant gwin yn Seland Newydd yn seiliedig ar eu gallu i bontio o amrywogaethau hybrid/croesi i amrywogaethau rhyngwladol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu marchnadoedd allforio na fanteisiwyd arnynt. Yn ganolog i'r twf hwn, roedd *Sauvignon Blanc* a ddaeth i fod yn brif amrywogaeth y wlad.

### 4.3.2 Maint a Thwf y Diwydiant

30 mlynedd yn ôl, roedd 100 o windai yn Seland Newydd - erbyn hyn mae bron i 700 ohonynt.

Dathlodd diwydiant gwin Seland Newydd 200 mlynedd ers plannu eu gwinwydd cyntaf yn 2020. Y llynedd, cynhyrchodd Seland Newydd 457,000 tunnell o rawnwin o 39,935 ha o winllannoedd. Dechreuodd y diwydiant, ar ôl cael ei fasnacheiddio gyntaf ar ddechrau'r 1960au, dyfu ar raddfa fawr o 1975.

Arweiniodd hyn at newid o gynhyrchu Armagnac (gwin wedi'i ddistyllu) i ffocws presennol y diwydiant, Sauvignon Blanc.


Y prif amrywogaethau grawnwin yn Seland Newydd yw:

- **Gwyn** – Sauvignon Blanc, Chardonnay, Riesling, Pinot Gris/Grigio, Gewurztraminer
- **Coch** – Pinot Noir, Cabernet Sauvignon, Syrah, Merlot

Fodd bynnag, mae gwin Seland Newydd yn cyfateb i 1% yn unig o gyfanswm y gwin a gynhyrchir byd-eang ac mae ganddo gyfran o 3% o'r farchnad fyd-eang. Mae'r ffocws ar amrywogaethau gwin gwyn wedi arwain at lefel allforio sydd wedi cynyddu'n gyflym dros y 10 mlynedd diwethaf.

Yn 2020, roedd cyfanswm y gwerthiannau allforio yn cyfateb i tua £989 miliwn a gwerthiannau domestig i £257 miliwn. Amharodd pandemig COVID-19 ar incwm twristiaeth gwin Seland Newydd yn 2020, er yn 2018-19, bu tua 775,000 o dwristiaid yn ymweld â gwinllannoedd ledled y wlad.

Daeth hyn ag incwm ychwanegol o tua £1.7 biliwn i economi Seland Newydd.




Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Gwin Seland Newydd 2020

### 4.3.3 Datblygu'r Diwydiant

Cefnogir diwydiant cynhyrchu gwin a gwinwyddaeth Seland Newydd gan Win Seland Newydd (NZW) - bwrdd ardoll gwirfoddol. Maent yn cefnogi 717 o winoedd ac oddeutu 700 o dyfwyr ledled y wlad. Er bod nifer y gwindai wedi aros yn gymharol debyg dros y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y tyfwyr wedi gostwng o 853 i 694.

Y rheswm am y gostyngiad hwn bod tyfwyr llai yn gadael y diwydiant neu'n ymddeol a'u tir yn dod yn rhan o fentrau gwinllannoedd maint canolig. Mae'r busnesau gwinyddiaeth a gwindai yma'n perthyn i berchnogion yn Seland Newydd, fodd bynnag, mae 34% yn eiddo i fuddsoddwyr tramor, yn bennaf cwmnïau buddsoddi yn yr Unol Daleithiau.

Mae tuedd gynyddol i ffermwyr defaid yn Seland Newydd arallgyfeirio a phrydlesu eu tiroedd isel i fentrau gwinyddiaeth. Yn gyffredinol, maent yn lleihau maint eu diadell i niferoedd sy'n addas i bori ucheldiroedd eu ffermydd, gan brydlesu'r tiroedd isel ar gyfer cynhyrchu grawnwin.

### 4.3.4 Cyflogaeth a Chynaliadwyedd

O 2017, darparodd y diwydiant gwin Seland Newydd tua 20,000 o swyddi llawn amser, ac mae 46% ohonynt yn cael eu gwneud gan ferched. Mae agwedd dymhorol llawer o'r swyddi hyn, yn enwedig cynaeafu, yn cael ei gwrthbwyso gan y diwydiant twristiaeth gwin sy'n weithgaredd ar hyd y flwyddyn.

Mae NZW hefyd yn rhoi cefnogaeth ariannol i nifer o gynlluniau i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, yn ogystal â denu mwy o bobl ifanc i mewn i'r diwydiant. Mae grŵp eiriolaeth "NZ Women in Wine" a ariennir gan ardoll yn hyrwyddo cyfleoedd i ferched rwydweithio a chael gyrfa yn y sector.

Mae Gwinwyddwr a Gwneuthurwr Gwin Ifanc y Flwyddyn yn gystadlaethau blynyddol sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo cynhyrchwyr ifanc (o dan 35 oed) yn y wlad.

O 2020, defnyddiodd NZW arian y llywodraeth hefyd i lansio eu cynllun Hwb i Brentisiaid. Mae hyn yn caniatáu i gyflogwyr y diwydiant gwin hawlio'r hyn sy'n cyfateb i tua £6,000 ar gyfer pob prentis a gyflogir yn y flwyddyn gyntaf a £3,000 yn yr ail. Mae hwn yn rhedeg ar y cyd â chynllun prentisiaid garddwriaethol cyffredinol, gan annog pobl ifanc i ymuno â'r diwydiant.

Er gwaethaf mentrau cynaliadwyedd cymdeithasol blaengar, mae NZW, yn y gorffennol, wedi'i gyhuddo o beidio â gweithredu digon i wella cynaliadwyedd amgylcheddol. Yn 2018, cynhaliodd Prifysgol Wellington arolwg o 500 o windai, gan holi am eu cynlluniau i addasu a lliniaru yn erbyn newid hinsawdd. Nid oedd gan 63% o'r ymatebwyr unrhyw gynlluniau i addasu i'r newidiadau yr oeddent yn eu profi. Y rhesymau mwyaf cyffredin y tu ôl i hyn oedd diffyg data a chost gwelliannau amgylcheddol.

O ganlyniad, yn 2019, cyflogodd NZW eu Rheolwr Cyffredinol Cynaliadwyedd cyntaf, yn ogystal ag ailstrwythuro eu His-adran Amgylcheddol.

Mae diwydiant gwin Seland Newydd hefyd wedi lansio'r system cerdyn sgorio "Tyfu Gwin Cynaliadwy Seland Newydd", mewn ymdrech i feincnodi effeithiau amgylcheddol y diwydiant. Ers 2018, maent hefyd wedi defnyddio ardollau i ariannu Sefydliad Bragato fel eu huned ymchwil fewnol, gan anelu at 6 blaenoriaeth ymchwil allweddol: ansawdd, cynaliadwyedd, newid hinsawdd, arallgyfeirio, bioddiogelwch ac ehangu gwinyddiaeth.

Gan ddatblygu ar hyn, mae'r diwydiant Seland Newydd hefyd wedi gosod targed i fod yn garbon niwtral erbyn 2050, ynghyd â dechrau cofnodi eu hôl troed carbon.


### 4.3.5 Marchnadoedd

Yn ogystal â datblygu gwaith sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd, mae NZW hefyd yn helpu i hyrwyddo gwin Seland Newydd mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Mae'r Unol Daleithiau, y DU ac Awstralia i gyd yn brif farchnadoedd allforio ar gyfer diwydiant gwin Seland Newydd a rhyngddynt, roedd yn cyfrif am 75% o allforion gwin Seland Newydd, yn ôl gwerth yn 2020 roedd hyn yn cyfateb i £737 miliwn o ran gwerth allforio. Ym mis Medi

2019, cynhaliodd grŵp NZW ddigwyddiadau marchnata yn San Francisco, Toronto ac Efrog Newydd mewn ymgais i arddangos dulliau cynhyrchu gwin cynaliadwy'r wlad. Mae llawer o'r pwyslais marchnata hefyd ar ddigwyddiad i arddangos gwin organig Seland Newydd, gyda digwyddiad tebyg yn y DU, sy'n rhoi cyfle i westeion brofi bron i 100 o winoedd organig y wlad.

Yn ogystal â gwaith marchnata cyffredinol ar ran y gwindai, mae NZW hefyd yn cynnig cyrsiau gweminar byr ar fasnach ryngwladol a marchnata i'w aelodau. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ddysgu sut i farchnata eu hunain yn uniongyrchol i dwristiaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag adeiladu busnes marchnad allforio eu hunain.




Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Gwin Seland Newydd 2020

Mae NZW wedi datblygu hunaniaeth glir iddynt eu hunain sy'n canolbwyntio ar amrywogaethau grawnwin rhyngwladol ac arddulliau gwin sy'n apelio i'r cwsmeriaid. Mae ganddynt ffocws rhanbarthol cryf, gan gyfleu'r arddulliau a'r amrywogaethau a ffafrir ym mhob rhanbarth yn Seland Newydd a'u USP. Arweiniwyd allforion yn wreiddiol gan frandiau "halo", megis Cloudy Bay, a fraenarodd y ffordd ar gyfer gweddill y diwydiant.

Mae tyfwyr a'r diwydiant cyfan yn Seland Newydd wedi gweithio'n dda i osgoi syrthio i'r fagl o orgyflenwi (yn wahanol i Awstralia) ac wedi cadw pris cyfartalog y botel yn uchel, o'i gymharu â chystadleuwyr rhyngwladol eraill.

### 4.3.6 Enghreifftiau o Dwristiaeth Gwin

Mae nifer o enghreifftiau da o dwristiaeth gwin o Seland Newydd yn cynnwys:

- Cyfleusterau drws y seler sy'n cynnig sesiynau blasu, profiadau bwyta, llety. Ymhlith yr enghreifftiau gorau mae:
  - Te Kano, Canol Otago
  - Amisfield, Canol Otago
- Teithiau gwin
  - Teithiau Gwin mewn Hofrennydd (gyda Richie McCaw), Christchurch
  - Teithiau Gwin Grawnwin Pefriog, Marlborough

- Taith Win a Chwrw Hopys a Grawnwin, Marlborough

### 4.3.7 Datblygiad Sector Gwin Seland Newydd yn y Dyfodol

Mae allforion *Sauvignon Blanc* yn cyfrif am tua 88% o gyfanswm y gwinoedd a allforir o Seland Newydd. *Pinot Noir* a *Pinot Gris* sy'n 2il a 3ydd, sy'n cynnwys 3% yr un o gyfanswm yr allforion yn y drefn honno. Mae'r detholiad eithaf cyfyngedig hwn o fathau o win yn cael ei allforio i 3 phrif farchnad: yr Unol Daleithiau, y DU ac Awstralia.

Yn ei dro, mae mentrau gwinyddiaeth yn darparu ased amaeth-dwristiaeth gwerthfawr i economi'r wlad.

Yn yr un modd ag y newidiwyd o gynhyrchu *Armagnac* i *Sauvignon* yn y 1970au, mae'r sector gwin Seland Newydd bellach yn bwriadu dod yn arweinydd y byd mewn cynhyrchu gwin cynaliadwy.

Mae eu hymdrechion cynhyrchu, ymchwil a datblygu a marchnata yn cael eu harwain gan y diwydiant, ond fe'u cefnogir gan Lywodraeth Seland Newydd ar ffurf datblygu cytundebau masnach rydd.

Er enghraifft, mae'r "Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth Traws-Pasiffig (CPTPP)" wedi gostwng tariffau allforio ar gyfer gwin Seland Newydd i Ganada a Japan, eu 4ydd a'u 10fed marchnadoedd allforio mwyaf yn y drefn honno.

Ochr yn ochr â hyn, mae llawer o gyfathrebu rhwng diwydiant gwin Seland Newydd a'r Llywodraeth mewn meysydd allweddol, fel cyflogaeth, masnach, bioddiogelwch a newid hinsawdd.

Gan ddefnyddio'r pwyslais ar hyblygrwydd a thrwy weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, nod NZW yw goresgyn yr heriau y mae COVID-19 wedi'u hachosi i dwristiaeth a hefyd adeiladu ar y potensial allforio ychwanegol y maent yn credu sy'n bodoli yng Nghanada, Tsieina ac Ewrop.

## 4.4. Nova Scotia


### 4.4.1 Maint a Thwf y Diwydiant

Plannwyd y winllan gyntaf un yn Nova Scotia yn 1611 gan Ffrancwyr a ymsefydlodd yno ac ers hynny, mae'r diwydiant wedi datblygu o winllannoedd preifat i fentrau masnachol.

Ar hyn o bryd mae tua 90 o dyfwyr grawnwin, sy'n gweithio dros 850 erw o winllannoedd mewn lleoliadau trefol a gwledig. Mae'r niferoedd wedi tyfu o 658 erw yn 2011 ac yn debygol o ddyblu dros y blynyddoedd nesaf.

Mae 70 o wahanol amrywogaethau o rawnwin, gyda dros 18 o windai wedi'u lleoli mewn 7 rhanbarth gwin. Mae'r dalaith yn cynhyrchu mwy nag 1.75 miliwn litr o win bob blwyddyn.

Nova Scotia yw'r 4ydd rhanbarth cynhyrchu gwin mwyaf yng Nghanada. Mae gwerth marchnad diwydiant gwin Canada yn cyfateb i £5 biliwn y flwyddyn - gyda Nova Scotia yn cyfrannu £126 miliwn i'r economi.




Ffynhonnell: Statista

### 4.4.2 Strwythur Sefydliadol Diwydiant Gwin Novia Scotia

Yn 2002, ffurfiwyd Cymdeithas Gwindai Nova Scotia i godi ymwybyddiaeth o frand Gwinoedd Nova Scotia a gweithio gyda'r Llywodraeth i dyfu'r diwydiant.

Yn 2020, ailfrandiwyd y sefydliad hwn i Dyfwyr Gwin Nova Scotia (WGNS) er mwyn cyd-fynd â Thyfwyr Gwin Canada a rhanbarthau gwin eraill ledled y wlad.

Mae'r WGNS yn cynrychioli ffermwyr a gwerthwyr gwin lleol ar draws diwydiant gwin Nova Scotia, gyda 15 aelod. Yn Nova Scotia, mae tua 50% o'r erw grawnwin ym mherchnogaeth y tyfwyr.

Sefydlwyd Cymdeithas Tyfwyr Grawnwin Nova Scotia ym 1982. Mae wedi bod yn allweddol wrth dyfu'r diwydiant cynhyrchu grawnwin a gwin. Mae'r gymdeithas yn hwyluso addysg, hyfforddiant ac ymchwil fel bod grawnwin o'r ansawdd gorau yn cael eu tyfu. Mae dros 100 o aelodau yn y gymdeithas. Mae'n un o sylfaenwyr Rhwydwaith Ardystio Gwinwydd Canada, sy'n sicrhau ansawdd grawnwin ledled Canada.

### 4.4.3 Rhanbarthau Cynhyrchu

Mae'r hinsawdd gwinyddiaeth yn Nova Scotia yn unigryw, gan mai yno y ceir llanw uchaf y byd ynghyd â chymysgedd o dywodfaen a llechi a chyrff mawr o ddŵr o amgylch y gwinllannoedd, gyda phob gwinllan yn ddim ond 20 km o'r cefnfor.

Mae tymheredd cyfartalog y tymor tyfu yn Nova Scotia rhwng 13 a 15°C. O ran cynhyrchu, mae 60% o'r holl win a wneir yn win gwyn neu win pefriog, tra bod gwinoedd coch yn cyfrif am 23% o'r gwinoedd a gynhyrchir yn unig.

### 4.4.4 Marchnadoedd

Fel arfer, mae gwinllan yn Nova Scotia yn cynhyrchu tua 10,000 o focsys gwin bob blwyddyn, ond mae cyfanswm o 20.6 miliwn x bocsys 9 litr yn cael eu gwerthu yng Nghanada.

Y mae poblogaeth Canada yn yfed tua 247 miliwn o boteli o win o Ganada y flwyddyn. Fel arfer, mae gwin Nova Scotia yn cael ei werthu drwy sianeli megis: yn uniongyrchol i gwsmeriaid; uniongyrchol i fasnachwyr; drwy fyrddau gwirod; a thrwy allforion.

Mae dau ddosbarthiad ar gyfer gwin a gynhyrchir yn Nova Scotia. Gall hyn yn win a ddynodwyd yn ddaearyddol, sef 85% o win a dyfir yn Nova Scotia a 15% o Ganada neu win dynodedig Tidal Bay sy'n dod o amrywogaethau penodol o rawnwin a dyfir i gyd yn Nova Scotia. Lansiwyd y label hwn yn swyddogol yn 2012.

Effeithiwyd ar y diwydiant gan rew yn 2018, Corwynt Dorian yn 2019 ac yna yn 2020 daeth COVID-19 a daeth y Polisi Rhanbarthau Gwin sy'n Datblygu i ben.

Galwodd Sefydliad Masnach y Byd am ddod â'r Polisi Rhanbarthau Gwin sy'n Datblygu i ben yn dilyn cwyn gan Awstralia, bod Nova Scotia yn torri cyfraith ryngwladol. Bu'r Polisi Rhanbarthau Gwin sy'n Datblygu yn gyfrifol am ostwng yr elw ar hylifau Nova Scotia o 100% i 43% ar gyfer gwin rhanbarth sy'n datblygu.

Bydd y polisi hwn yn awr yn cael ei ddiddymu'n raddol dros gyfnod o 4 blynedd i ddiogelu perthynas fasnach Canada ag Awstralia.

### 4.4.5 Cyflogaeth

Yn 2011, roedd 854 o bobl yn cael eu cyflogi yn niwydiant gwin Nova Scotia, gyda dros 930 bellach yn cael eu cyflogi. Mae'r rhain yn gymysgedd o weithwyr llawn amser a thymhorol sy'n gweithio yn y sectorau canlynol: gwindai; bwrdd gwirod; bwyty; siopau manwerthu; gwinllan; twristiaeth; cyflenwyr gwinoedd; lorïau/warws; ymchwil/addysg/ymgynghori.

Amcangyfrifir bod pob erw o rawnwin a blannir yn Nova Scotia yn creu un swydd newydd.

### 4.4.6 Rôl Twristiaeth

Mae Nova Scotia yn croesawu tua 112,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r refeniw o dwristiaeth bellach yn cyfateb i £25 miliwn. Yn ôl yn 2011, dim ond £8 miliwn oedd y refeniw. Rhanbarthau eraill yng Nghanada sy'n cystadlu yn erbyn Nova Scotia o ran twristiaeth yw gwindai British Columbia, Ontario a Quebec, yn ogystal â Chaliffornia, Ffrainc, Awstralia a Seland Newydd.

### 4.4.7 Hyfforddiant a Chefnogaeth Arall ar gyfer Datblygu

Mae Coleg Cymunedol Nova Scotia (Kingston wedi'i leoli yn Kentville) yn cynnig cyrsiau tyfu grawnwin rhagarweiniol a chanolradd.

Roedd Rhaglen Datblygu ac Ehangu Gwinllannoedd, 2019 - 2020 yn rhaglen a ariannwyd gan y taleithiau. Roedd yn anelu at gynorthwyo diwydiant grawnwin gwin Nova Scotia drwy gefnogi mwy o gynhyrchu, gwella'r gallu i gystadlu a sicrhau marchnadoedd newydd.

Os oes meini prawf gofynnol y rhaglen yn cael eu bodloni, yna roedd 50% o gymorth ariannol ar gael i gael gwared ar winwydd a phlannu rhai newydd.

## 4.5 Lloegr

### 4.5.1 Hanes a Throsolwg

Mae rhywfaint o dystiolaeth o dyfu gwin yn y DU yn dyddio'n ôl i gyfnod y Rhufeiniaid. Fodd bynnag, ystyrir bod y diwydiant wedi'i sefydlu yn y cyfnod Normanaidd ar ddechrau'r 11eg ganrif, pan ddaeth William y Concwerwr ag Abadau o Ffrainc a mynaich i'r wlad. Daeth y rhain â gwybodaeth am dyfu gwin gyda nhw.

Mae Llyfr Doomsday yn cofnodi gwinllannoedd mewn 42 o leoliadau ar wahân yng Ngwlad yr Haf, Swydd Gaerloyw, Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon. Dros y 600 mlynedd nesaf, edwinodd yr arfer o dyfu gwinwydd yn Lloegr yn raddol. Prin fod unrhyw winllan yn y wlad nes i'r diwydiant brofi adfywiad yn y 1950au.

Sefydlwyd nifer sylweddol o winllannoedd newydd rhwng y 1970au a'r 1990au a gwelwyd twf pellach a mwy sylweddol yn ddiweddar. Mae ardal gwinllannoedd Lloegr wedi mwy na dyblu dros y 10 mlynedd diwethaf - ac wedi cynyddu pedair gwaith ers 2000.

Roedd y camau cynnar yn yr adfywiad cynyddol o dyfu gwinwydd yn Lloegr yn canolbwyntio ar rawnwin a mathau hybrid sy'n addas iawn ar gyfer cynhyrchu mewn hinsawdd oer. Mae'r grawnwin hyn yn tueddu i wrthsefyll clefydau ac aeddfedu'n gynnar, sy'n ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu mewn hinsawdd oer.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, plannwyd mwy o amrywogaethau o rawnwin rhyngwladol, yn enwedig grawnwin Siampên; Chardonnay, Pinot Noir a Pinot Meunier. Mae Lloegr bellach wedi sefydlu enw da am win pefriog a wneir drwy'r dull traddodiadol.

### 4.5.2 Prif Gynhyrchwyr

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **wedi hen sefydlu**: Nye Timber, Gisborne, Ridgeview, Chapel Down
- **ail don**: Hattingly Valley, Wisden, Rathfinney, Exton Park, Hambledon
- **tyfwyr siampên:** Domaine Evermond, Kent (sy'n eiddo i Siampên Tatinger/Hatch Mansfield), Louis Pommery, Hampshire (sy'n eiddo i Pommery)

### 4.5.3 Ffactorau ar gyfer Twf

Mae nifer o ffactorau sydd wedi helpu i ddatblygu sector gwin Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **gwybodaeth** - sefydlwyd cyrsiau gwinyddiaeth a gwneud gwin yng Ngholeg Plumpton, ac agorodd ei ganolfan ymchwil gwin yn 2014. Mae Plumpton yn enwog o fewn y DU a thu hwnt fel canolfan ragoriaeth o ran addysg gwin
- **buddsoddiad cynyddol** - bu cynnydd mewn buddsoddiad i'r diwydiant, yn enwedig yn yr 20 mlynedd diwethaf
- **newid hinsawdd** - mae'r hinsawdd yn y DU yn sicr wedi dod yn gynhesach dros y 10 mlynedd diwethaf, gan helpu i gynhyrchu gwin o safon a helpu i gynyddu cnwd. Mae hyn

wedi arwain at ddiwydiant mwy hyfyw yn economaidd (ac yn un y gellir buddsoddi ynddo)

### 4.5.4 Twristiaeth Gwin

Mae nifer o enghreifftiau da o dwristiaeth gwin ledled Lloegr, sef:

- Cydweithio Rhanbarthol
    - Wine Garden of England - Caint
- Cyfleusterau drws y seler sy'n cynnig sesiynau blasu, profiadau bwyta, llety. Mae'r enghreifftiau gorau'n cynnwys:
    - The Nest - Gusbourne (drws y seler / teithiau drwy'r winllan)
    - Tillingham (drws y seler, teithiau drwy'r winllan, llety)
    - Hush Heath (drws y seler, teithiau drwy'r winllan, llwybrau cerdded, llety, tafarndai)
    - Denbies (drws y seler, teithiau drwy'r winllan, priodasau, llety)

### 4.5.5 Y Dyfodol

Mae'r cynnydd o ran faint a gynhyrchir a'i ansawdd wedi gwella sefyllfa fasnachol gwin Lloegr. Gall y diwydiant bellach ymfalchïo mewn marchnad gartref ac allforio sy'n tyfu. Mae arwyddion bod lefel cynhyrchu'n fwy na'r galw, felly gall y diwydiant wynebu heriau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae llawer o'r gwinllannoedd sy'n cael eu plannu ar hyn o bryd/yn y dyfodol yn Essex/Dwyrain Anglia. Bydd cynnydd mewn grawnwin ar gyfer cynhyrchu gwin pefriog yn null Charmat a gwin llonydd.

Mae prosiectau ymchwil a datblygu parhaus yn cael eu cynnal i edrych ar sut y gellir cynyddu'r cnwd yn y dyfodol. Diben hyn yw helpu i ostwng costau cynhyrchu, heb effeithio ar ansawdd. Ceir astudiaethau hefyd sy'n edrych ar addasrwydd gwahanol amrywogaethau o rawnwin ar gyfer cynhyrchu gwin llonydd, yn enwedig wrth i'r hinsawdd barhau i gynhesu.

Disgwylir i amrywogaethau rhyngwladol, megis *Chardonnay, Pinot Noir* a *Pinot Meunier* barhau i gael eu cynhyrchu'n gynyddol. Efallai y bydd cynnydd hefyd mewn *Pinot Gris, Pinot Blanc, Riesling* ac *Albarino,* yn ogystal â'r amrywogaeth hybrid a sefydlwyd ers amser, *Bacchus.*

## 4.6 Tasmania

### 4.6.1 Hanes a Throsolwg

Mae'r diwydiant gwin Tasmania yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg ganrif. Cofnodwyd bod y winllan gyntaf wedi'i phlannu yn 1823 a chynhyrchwyd gwin pefriog cyntaf Awstralia yn 1826. Dechreuwyd cynhyrchu gwin masnachol a chynaliadwy yn llawer diweddarach, o'r 1950au ymlaen.

Yn Tasmania, sydd wedi'i leoli ar ledred mwy deheuol i weddill rhanbarthau gwin Awstralia, ystyrir bod yr hinsawdd yno'n oer ar gyfer tyfu grawnwin, yng nghyd-destun cynhyrchu gwin yn Awstralia.

Yn fyd-eang, fodd bynnag, gellir ei ddisgrifio fel hinsawdd gymedrol, forol - yn enwedig yn ddiweddar, gan fod yr hinsawdd wedi cynhesu'n sylweddol. Amrywogaethau o rawnwin rhyngwladol a gynhyrchir yn bennaf, sy'n apelio'n fasnachol at farchnadoedd gartref a'r farchnad allforio.

Mae Tasmania yn arbennig o adnabyddus am gynhyrchu gwin pefriog o ansawdd uchel a gellir ei ystyried ymhlith prif gynhyrchwyr gwin pefriog o ansawdd uchel yn y 'byd newydd'.

Bu cynnydd sylweddol o ran cynhyrchu dros y deugain mlynedd diwethaf. Yn 1987, roedd 47 ha o winllannoedd, erbyn 2003 roedd y ffigur hwnnw wedi tyfu i 800 ha a heddiw mae dros 2,000 ha o winllannoedd.

### 4.6.2 Prif Gynhyrchwyr

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Janz - un o'r cynhyrchwyr arloesol a roddodd Tasmania ar y map am y tro cyntaf fel rhanbarth cynhyrchu gwin o safon.
- Gwinllannoedd Dalrymple - Pinot Noir Dalrymple o'r radd flaenaf
- Tamar Ridge
- Devil's Corner

### 4.6.3 Prif Amrywogaethau o Winwydd

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwyn** – Sauvignon Blanc, Chardonnay, Riesling
- **Coch** – Pinot Noir, Cabernet Sauvignon, Merlot (Pinot Noir yn bennaf gan ei fod yn addas ar gyfer hinsawdd oer a chynhyrchu gwin pefriog)

### 4.6.4 Ffactorau ar gyfer Twf

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cynhyrchwyr Arloesol**

Arweiniwyd twf yn y diwydiant gan gynhyrchwyr arloesol, megis Janz, a brofodd fod cynhyrchu o ansawdd yn bosibl yn Tasmania. Mae hyn yn gyffredin mewn hinsawdd oerach/ymylol lle mae'r cynhyrchwyr cyntaf yn gwneud y "gwaith cychwynnol" ac yn profi hyfywedd cyn i fuddsoddiad a thwf pellach symud y farchnad yn ei blaen.

- **Gwybodaeth/Cymorth gan y Llywodraeth**

Mae hyn yn cynnwys:

- TastTafe – cyrsiau gweithredu'r diwydiant gwin
- mynediad i raglen enfawr o gyrsiau gwneud gwinoedd a gwinyddiaeth ar dir mawr Awstralia
- Cymdeithas Gwinllannoedd Tasmania - sefydlwyd hon yn 1973 ond daeth i ben yn 2006/7 – cyflwynwyd y TAO sydd bellach wedi dod i ben yn 1986
- Gwin Tasmania - corff diwydiant blaengar ac wedi'i ariannu'n dda sy'n cynrychioli buddiannau'r diwydiant gwin yn Nhasmania

- **Delwedd**

Mae gan Tasmania hunaniaeth glir sy'n canolbwyntio ar amrywogaethau o rawnwin rhyngwladol a gwinoedd sy'n apelio at gwsmeriaid.

Mae newid amlwg tuag at winoedd 'hinsawdd oer' yn Awstralia, gan fod ffocws y defnyddiwr wedi symud tuag at arddulliau mwy ffres gyda lefel is o alcohol. Mae Tasmania yn ganolog i'r mudiad hwn, ochr yn ochr ag Adelaide Hills a Phenrhyn Mornington.

### 4.6.5 Twristiaeth Gwin

Mae gan Tasmania amrywiaeth o gyfleusterau "drws y seler" sy'n cynnig sesiynau blasu, profiadau bwyta, llety.

Mae'r enghreifftiau gorau'n cynnwys:

- Clover Hill – hediadau panoramig, profiadau blasu, profiadau cynnyrch lleol
- Devil's Corner
- Llwybrau Gwin
- Teithiau Amrywogaethau Penodol
- Llawlyfr Gwin Tasmania

## 4.7 Gwersi Trosglwyddadwy i Gymru

Rydym wedi darparu nifer o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn ar ddatblygu'r sector gwin a'r diwydiant twristiaeth cysylltiedig.

Dewiswyd y rhain i adlewyrchu nifer o wahanol fathau o ddiwydiannau. Gellir ystyried bod De Affrica a Seland Newydd gyda'r gorau yn eu hawl eu hunain ac yn gweithredu ar raddfa fawr. Mae Nova Scotia a Tasmania ar ben arall y sbectrwm. Maent yn llawer llai o ran maint cyffredinol ac felly maent yn debycach i'r sefyllfa a geir yng Nghymru.

Mae diwydiant Lloegr hefyd yn gymharol newydd ond mae wedi tyfu'n gyflym yn enwedig yn ystod y 10 - 15 mlynedd diwethaf. Credwn y bydd yr holl astudiaethau achos hyn yn cynnig rhai elfennau o "wersi trosglwyddadwy" ar gyfer diwydiant Cymru.

Ar draws pob un ohonynt, fodd bynnag, mae nifer o elfennau sy'n gyffredin rhyngddynt mewn o leiaf 2 - 3 achos ac a allai fod yn ddefnyddiol wrth i ddiwydiant Cymru ddysgu/datblygu dros y 3 - 5/10 mlynedd nesaf.


Ymhlith y pwysicaf o'r rhain - –mae cyfuniad o'r canlynol:

- derbynnir bod cysylltiad rhwng datblygu'r sector gwin a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- derbynnir fel ffaith y bydd nifer y tyfwyr a'r gwindai'n cyfuno yn y tymor canolig i'r hirdymor
- ystyrir bod gwinyddiaeth yn rhan o broses arallgyfeirio amaethyddol naturiol
- maent yn bwriadu gwerthu llawer i'w marchnadoedd lleol eu hunain
- ystyrir allforion fel nod tymor hir
- croesewir cystadleuaeth ryngwladol i ryw raddau
- ystyrir bod mewnfuddsoddi allanol o fudd
- mae marchnata cryf yn elfen allweddol y mae'r diwydiant wedi'i seilio arno – defnyddir gwahanol fodelau i ddatblygu hyn, ond mae cyfuniad o ddelweddau cenedlaethol a rhanbarthol yn bosibl dros amser
- mae'r diwydiannau wedi datblygu cysylltiadau masnachol cryf ac ati ond yn unol â maint eu sector
- mae'r llywodraeth wedi darparu rhywfaint o gymorth yn y cyfnodau datblygu allweddol, hyd yn oed cyllid uniongyrchol
- mae cymorth yn aml ar gael i newydd-ddyfodiaid
- ystyrir bod cynaliadwyedd yn ffactor allweddol ar gyfer y dyfodol
- ystyrir bod tarddiad y sylfaen gyflenwi a chynhyrchu yn allweddol i lwyddiant
- mae'r ffocws ar ansawdd y gwin a gynhyrchir - er bod hyn i gyd yn gymharol, i ryw raddau
- mae angen ymchwil a datblygu ar gyfer datblygu amrywogaethau ac ymdrechion hyfforddi cysylltiedig
- gall cynhyrchwyr ar raddfa fach weithredu mewn cadwyn gyflenwi gydweithredol

Ni fydd yr holl wersi trosglwyddadwy hyn yn berthnasol i Gymru, drwy'r amser, a gallai rhai fod yn bwysicach nag eraill dros gyfnod.

Yr hyn sy'n amlwg serch hynny yw nad yw diwydiant gwin Cymru, er ei fod yn dal yn gymharol fach, yn gweithredu ar wahân i weddill yr economi gwin. Mae nifer o wersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y mae'r sectorau gwin a thwristiaeth cysylltiedig eraill hyn wedi datblygu dros amser.

# Adran 5. Dadansoddiad SWOT



**CRYFDERAU**

- Hunaniaeth Gymreig a chanfyddiad
- Diwydiant balch
- Cynhyrchu gwin o ansawdd da
- Cysylltiadau da a buddion amlwg ar gyfer twristiaeth
- Newydd ddyfodiaid a buddsoddiad yn y farchnad

**GWENDIDAU**

- Diwydiant ar raddfa fach 0 cynhyrchu sypiau bach
- Canfyddiad o ddiffyg cysondeb o ran ansawdd
- Dim ffocws clir ar farchnata
- Diffyg cyfleusterau gwasgu yng Nghymru
- Diffyg sgiliau, addysg, ymchwil a datblygu yng Nghymru
- Canfyddiad nad yw gwin o Gymru'n ganolog i ffocws LIC

**CYFLEOEDD**

- Rhagolygon ar gyfer cynnydd mewn gwyliau gartref yn y DY
- Ymgyrchoedd marchnata penodol o godi ymwybyddiaeth
- Cydweithio – twristiaeth, bwyd a diod
- Tyfu'r farchnad yng ngweddill y DU

**BYGYTHIADAU**

- Diffyg ffocws strategol ar gyfer y dyfodol i'r diwydiant
- Strwythur tameidiog i'r diwydiant
- Rhaniad o fewn y diwydiant o ran ardystiad PDO/PGI
- Diffyg cefnogaeth gan LIC ar gyfer newydd ddyfodiaid ac ehangu i faes twristiaeth

## 5.1 Cryfderau

Mae hunaniaeth (Gymreig) y diwydiant yn un o'i brif gryfderau.

Gallai'r ffaith bod y sector ar raddfa fach gael ei throi hefyd yn gryfder - yn y ffordd y mae'n ymddangos y mae Nova Scotia, Tasmania a hyd yn oed sector gwin Lloegr – fel cynhyrchydd arbenigol – wedi'i wneud.

Bydd cael hunaniaeth brand gryfach yn helpu i greu mwy o bwynt gwerthu unigryw (USP) ar gyfer diwydiant Cymru a'i gynnyrch. Yn ogystal â hyn, mae poblogaeth Cymru a rhai twristiaid[30] yn deyrngar iawn i fwyd a diod o Gymru. Mae'r ffactorau hyn, yn helpu i gyfiawnhau (yn rhannol), y prisiau uwch sydd gan win Cymru yn y POS

Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl gwneud mwy yn y dyfodol. Mae perchnogion gwinllannoedd a rhanddeiliaid o Gymru y siaradwyd â nhw fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn yn deall na fydd Cymru byth yn cystadlu ar sail marchnad dorfol fel De Affrica, Awstralia neu Seland Newydd.

Felly, rhaid i Gymru ganolbwyntio ar ei hansawdd, natur unigryw ei chynnyrch a'r "stori Gymreig" y tu ôl iddo.

Mae'r canfyddiad o'r berthynas rhwng ansawdd/pris gwin Cymru wedi bod braidd yn gymysg yn y gorffennol. Mae rhai rhwystrau o hyd o ran pryderon ynghylch ansawdd/pris gan fasnachwyr y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae rhai o'r gwinllannoedd mwyaf yng Nghymru yn gwneud enw da iddynt eu hunain am gynhyrchu gwin o ansawdd uwch[31]. Mae hyn yn

[30] Yn seiliedig ar adborth o'n cyfweliadau

[31] Dylid nodi nad yw hyn bob amser wedi'i gyfyngu i'r gwinllannoedd mwyaf

amlwg drwy'r gwobrau y mae gwinllannoedd mawr wedi'u hennill am eu gwinoedd ynghyd â gweini gwinoedd Cymru mewn digwyddiadau, megis uwchgynhadledd NATO a Chwpan Ryder.

Fodd bynnag, dylai gwella cysondeb ansawdd gwin Cymru fod yn amcan allweddol ar gyfer y dyfodol.

Mae cysylltiad annatod rhwng gwinllannoedd a thwristiaeth Cymru. Er mwyn tyfu'r sector gwinllannoedd, mae angen datblygu rhagor ar yr arlwy twristiaeth. Mae rhai enghreifftiau da iawn o winllannoedd yng Nghymru sydd wedi datblygu'r cyswllt hwn yn llwyddiannus drwy gynnig gweithgareddau megis: teithiau drwy'r winllan, canolfannau ymwelwyr, caffis a bwytai ar y safle, gwerthu drwy ddrws y seler, llety ar y safle a chynnal digwyddiadau corfforaethol.

Drwy ein gwaith ymchwil, roedd yn amlwg bod llai o winllannoedd yn gweithredu yng Nghymru nag a ystyriwyd yn wreiddiol. Mae ein gwaith ymchwil wedi ein harwain i gredu mai dim ond 28 o winllannoedd sydd mewn gwirionedd yn gweithredu ar unrhyw raddfa.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn awgrymu bod y ffigur hyd yn oed yn uwch - 38.

Fodd bynnag, o'r rhai a nodwyd, credai 62% mai eu ffocws dros y pum mlynedd nesaf fydd ehangu a thyfu'r busnes. Mae'r ffaith mai ychydig o winllannoedd sy'n rhan o ddiwydiant Cymru yn cael ei hystyried yn gryfder, gan fod grŵp craidd o fewn y rhain sy'n arwain y ffordd o fewn y sector. Yn ogystal â hyn, yn ôl ein cyfweliadau, mae newydd-ddyfodiaid ar hyn o bryd yn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i sefydlu eu hunain.

Y prif gryfder yw ei fod yn Gymreig – mae hynny'n rhoi pwynt gwerthu unigryw nad y war gael i unrhyw gynhyrchwyr gwin eraill.

Mae natur graddfa fach ein cynhyrchiant fel diwydiant yn gallu cael ei droi'n fantais gan ein bod yn gallu canolbwyntio ar dwf organic.

Mae yna ffyddlondeb tuag at bopeth o Gymru ymysg poblogaeth Cymru.

Mae yna lawer o bobl angerddol o fewn y diwydiant sy'n awyddus i hyrwyddo gwin o Gymru.

Mae ansawdd ein cynnyrch a'n Cymreictod unigryw yn gryfder allweddol.

Mae'r diwydiant yn gweithio'n dda gyda'i gilydd – mae'n grŵp da o bobl.

Mae gan y sector ymdeimlad o bwrpas cyffredin ac yn fodlon gweithio gyda'i gilydd.

## 5.2 Gwendidau

Yn ogystal â bod yn gryfder posibl, mae'r ffaith bod y sector ar raddfa fach hefyd yn wendid. Mae lefelau cynhyrchu isel ledled Cymru yn golygu bod angen cydbwyso twf y sector yn ofalus yn erbyn sicrhau y gellir cyflenwi'r lefel ofynnol. Yn y blynyddoedd nesaf rhaid canolbwyntio ar gynllunio rhywfaint o dwf.

Gallai'r sector hefyd elwa ar wella sgiliau ac addysg - mae rhagor y gall diwydiant Cymru ei ddysgu gan rai sy'n cystadlu yn ei erbyn sydd wedi'u sefydlu ers tro. Mae'r rhai o fewn sector Cymru yn awyddus i fod yn ddiwydiant sy'n annibynnol ar ddiwydiant gwin Lloegr. Gallai hynny fod ar draul deall sut y mae'r sector hwnnw wedi tyfu a datblygu ac yn defnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer y sector yng Nghymru.

Er bod rhai gwinllannoedd wedi sefydlu eu gwin fel cynnyrch o ansawdd uchel ag iddo enw da, nid yw gwinllannoedd eraill Cymru bob amser yn bodloni'r un disgwyliad o ran cymhareb pris/ansawdd. Dangosir hyn yn rhannol gan y ffaith bod nifer o fasnachwyr gwin a stocwyr o Loegr yn gwrthod derbyn gwinoedd Cymru. Mae'r pris uchel yn y POS hefyd yn rhwystr wrth gymharu'r canfyddiad o ansawdd Cymru.

O ran marchnata a hyrwyddo gwin o Gymru, mae diffyg ffocws. Teimlai dros 60% o'n hymatebwyr fod angen brand gwin Cymreig cydweithredol. Rydym yn tueddu i gytuno. Mae hynny'n gadael tua 40% sy'n anghytuno. Teimlai'r gwinllannoedd hynny fod gan bob un (winllan) ei rhinweddau unigryw ei hun ac y gellid colli'r rheini o fewn brand cyffredinol ehangach.

Mae diffyg cyfleusterau prosesu[32] yng Nghymru: yn hanesyddol dim ond un winllan sydd â'i chyfleuster prosesu ei hun. Mae 95% o winllannoedd Cymru fel arfer yn anfon eu grawnwin i Loegr i gael eu prosesu, fel arfer naill ai yn Halfpenny Green yn Swydd Stafford neu Three Choirs yn Swydd Gaerloyw.

Credai'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd y siaradwyd â nhw nad oedd defnyddio cyfleuster prosesu yn Lloegr yn "tynnu oddi wrth" hunaniaeth Gymreig y gwinoedd, gan fod hyn yn seiliedig ar ble mae'r grawnwin wedi'u tyfu. Fodd bynnag, mae ychydig o winllannoedd sydd yn erbyn y cysyniad hwn ac sy'n awyddus i gyfeirio at winoedd fel rhai "o Gymru" yn unig os cânt eu prosesu a'u potelu yn y wlad.

Mae canfyddiad cryf o fewn diwydiant gwin Cymru nad yw'r sector yn faes ffocws allweddol i Lywodraeth Cymru, o ran bwyd a diod. Ystyrir bod y diffyg ymchwil a datblygu o fewn sector gwin Cymru yn dangos nad yw'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Hyd yma, mae hyn yn gywir.

[32] Wrth i'n gwaith ddod i ben, agorwyd ail windy. Mae'r ddau gyfleuster hyn yn eiddo i'r un teulu ac mae'r ddau wedi'u lleoli yn Sir Fynwy

Mae Llywodraeth Cymru'n dal i feddwl bod ffermio'n ymwneud bîff defaid a llaeth.

Nid oes digon o farchnata proffesiynol yn cael ei wneud am win o Gymru. Nid oes delwedd brand, na phwynt gwerth unigryw yn cael ei gyfathrebu.

Os byddwn nan cynhyrchu gormod yn rhy sydyn heb sylw i fanylder, rydym ni mewn perygl o golli ein hunaniaeth a gwerth o ran prinder, ac felly o ddod yn fwy cyffredin.

Yn wrthrychol, nid yw ein gwin yn well na gwin o Loegr nag unrhyw wlad arall.

Nid oes llawer o gymorth amlwg i'r sector gan Lywodraeth Cymru.

Ni does unrhyw ffocws strategol amlwg ar gyfer y sector.

Mae diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaeth au rhwng gwinoedd Cymru o fewn LIC.

Nid oes digon o rawnwin yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru i gyfiawnhau cyfleusterau gwasgu. Nid oes digon o win yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru i gefnogi'r farchnad leol yn unig, heb sôn am allforio.

Ni does digon o ddatblygu sgiliau/hyfforddiant. Mae angen i ni ddatblygu cysylltiad gyda Plumpton neu annog prifysgolion a cholegau Cymru i ddechrau cynnal cyrsiau gwinwyddaeth.

## 5.3 Cyfleoedd

Roedd cau'r diwydiant lletygarwch yn ystod COVID-19 yn golygu bod diwydiant gwin Cymru wedi newid y ffordd yr oedd yn gwerthu ei gynnyrch. Bu twf mewn gwerthiant ar-lein. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd pellach i'r sector wrth iddo symud ymlaen. Fel arfer, bydd twristiaid sy'n ymweld â gwinllan yn prynu ychydig o boteli gwin ar ôl taith/ymweliad, ond mae cael presenoldeb ar-lein yn golygu y gall y cwsmeriaid hynny barhau i brynu poteli o'r winllan, waeth ble maent yn byw.

Yn ogystal â hyn, mae gwerthu ar-lein yn agor cynulleidfa'r winllan i gapasiti llawer mwy. Mae gallu gwerthu gwin o ddrws y seler neu ar-lein hefyd yn golygu nad ydynt yn colli'r elw y mae masnachwyr gwin fel arfer yn tueddu i'w ychwanegu o tua 15 - 20% wrth werthu drwyddynt, yn ogystal ag elw manwerthu o unrhyw le rhwng 30 - 40% ar ben hyn.

Hefyd, ers COVID- 19, ac i ryw raddau, Brexit, bu cynnydd mewn gwerthiant bwyd a diod "lleol", gyda chwsmeriaid yn awyddus i gefnogi busnesau lleol. Bu cyfle i nifer o winllannoedd elwa y llynedd wrth i win o Gymru gael ei gynnwys mewn hamperi Nadolig. Hefyd cafwyd hwb mewn gwerthiant ar ôl i'r cyfyngiadau clo gael eu codi.

Y tu allan i Gymru, mae cyfle i dyfu gwerthiant yng ngweddill y DU. Yn ystod y cam hwn o ddatblygiad y sector, dylai allforion i weddill y byd fod yn rhan o strategaeth fwy hirdymor, yn bennaf oherwydd na chynhyrchir digon o win i gyflenwi marchnadoedd allforio. Mae diffyg sgiliau a gwybodaeth allforio hefyd yn sector gwin Cymru.

Bydd sefydlu gwin o Gymru o fewn marchnad ehangach y DU yn helpu i hybu ymwybyddiaeth a gwerthiant, yn enwedig os yw'n gysylltiedig â'r duedd a ragwelir o dreulio "gwyliau gartref".

Mae data diweddar gan Mintel yn dangos y bydd cwsmeriaid yn y DU yn gwario £7.1 biliwn ar wyliau yn y DU yn 2021 – "Gwyliau gartref". Mae'n ddigon posibl y bydd y duedd hon yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Disgwylir i'r galw am wyliau gartref yr haf hwn fod yn uwch na'r lefelau cyn COVID- 19, oherwydd cwsmeriaid gofalus, nad ydynt am fentro teithio dramor, neu efallai na chaniateir iddynt wneud hynny hyd yn oed.

Mae'r cynnydd hwn mewn gwyliau gartref yn gyfle gwirioneddol i'r sector gwinllannoedd a thwristiaeth fanteisio ar dwristiaid "lleol" sydd eisoes yn deall ansawdd bwyd a diod Cymru. Er mwyn manteisio'n llawn ar hyn, dylai gwinllannoedd fabwysiadu dull rhagweithiol o ddenu'r twristiaid hyn i'w gwinllannoedd.

Gallai cydweithio â gwinllannoedd eraill, atyniadau i dwristiaid a chyflenwyr bwyd a diod eraill yng Nghymru helpu i gryfhau'r arlwy twristiaeth a'r gwerthiant. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cydweithio ar sail ranbarthol gyda gwinllannoedd lleol eraill gan greu taith drwy wahanol winllannoedd i ymwelwyr.
- gweithio gydag atyniadau twristiaeth lleol i ddarparu dull twristiaeth rhanbarthol, gyda ffocws ehangach na thwristiaid gwin. (e.e. gallai gwinllan yng Nghonwy weithio ochr yn ochr ag atyniadau sy'n bodoli eisoes fel Castell Conwy)
- yn y gwinllannoedd hynny lle ceir caffis a bwytai, sicrhau bod eitemau bwyd a diod eraill o Gymru yn cael eu defnyddio ar y fwydlen. Gweithio gyda chyflenwyr lleol (lle bo'n briodol) i hyrwyddo hyn (e.e. y gwin gorau, i'w weini â chaws rhanbarthol). Ceir rhai enghreifftiau da iawn o ddatblygiadau tebyg eraill yng Nghymru megis Distyllfa Aber Falls, Distyllfa Penderyn ac ati

Er gwaethaf amlygrwydd cryf y diwydiant bwyd a diod (Cymreig) (yn enwedig o fewn Cymru) a'r DU, mae cyfle i barhau i gynyddu ymwybyddiaeth o sector gwinoedd Cymru ymhellach drwy ymgyrch farchnata â ffocws.

Mae ein siop ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod COVID.

Ar ôl Brexit, mae angen i'r sector amaeth arallgyfeirio oddi wrth orddibyniaeth ar gynhyrchu bîff, cig oen a llaeth.

Gyda chynllunio gofalus, buddsoddiad a chefnogaeth LIC, gallai'r diwydiant ddyblu – heb y rhain, ni fyddai hynny'n bosibl, a gallai hyd yn oed fynd am yn ôl.

Mae gennym ni gyfle i hyrwyddo ein diwydiant gan nad oes llawer o bobl yn gwybod bod gwinllannoedd yng Nghymru.

Mae marchnad sylweddol ar gael i ni dros y ffin.

Mae angen i ni fanteisio ar y cynnydd mewn twristiaeth yn aros gartref ar gyfer gwyliau wrth i'r cyfyngiadau godi.

Mae nifer o gyfleoedd ar gyfer gwin o Gymru, ond mae'n rhaid i ni gael delwedd gliriach.

Bydd y sector yn tyfu'n organig os bydd gwendidau'n cael sylw.

## 5.4 Bygythiadau

Mae diffyg strategaeth wirioneddol ar gyfer y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru. Er bod y diwydiant ar raddfa fach, mae ymagwedd ddigyswllt tuag at gyfeiriad y sector yn y dyfodol.

Mae statws PDO/PGI y sector yng Nghymru yn un o'r rhai sy'n achosi'r rhwyg mwyaf o fewn y diwydiant, gyda rhai'n teimlo ei fod yn bwysig - ac eraill yn teimlo nad oedd yn cael llawer o effaith.

Bydd angen i'r gwinllannoedd hynny sy'n ceisio marchnata eu brandiau fel rhai "Cymreig" ystyried eu cadwyn gyflenwi wrth symud ymlaen. Os yw gwinllannoedd yn dymuno gwerthu eu gwinoedd fel rhai o Gymru, yna mae'n rhaid i 85% o'r grawnwin a ddefnyddir ddod o winwydd Cymreig. Ar hyn o bryd, gellir prosesu gwin mewn sir gyffiniol, fel Caerloyw ac mae'n dal i gael ei dosbarthu fel gwin o Gymru, fel y gall y gwinoedd hynny gael eu prosesu yn Swydd Stafford o dan randdirymiad.

Ar hyn o bryd nid yw lefel cynhyrchu diwydiant Cymru yn ddigonol i gyfiawnhau buddsoddiad pellach mewn canolfan brosesu yng Nghymru. Rydym wedi sôn am yr angen am astudiaeth briodol ar y mater hwn. Mae gwinllannoedd yng Nghymru ar wasgar, ac felly gallai fod yn anodd dewis lleoliad canolog. Efallai na fydd llawer o winllannoedd Cymru yn defnyddio canolfan brosesu leol gan eu bod eisoes wedi meithrin perthynas dda â chyfleusterau yn Lloegr ac yn agos atynt yn logistaidd.

Mae'r sector yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, o ran annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant a chefnogi'r gwaith o ddatblygu gwinllannoedd presennol i gynnig arlwy twristiaeth.

Mae ardollau gwin yn uchel. Cydnabyddir ei fod, yn fwy na thebyg, y tu hwnt i gylch gwaith Llywodraeth Cymru i ostwng y cyfraddau hyn, ond mae cyfleoedd i Lywodraeth Cymru gefnogi datblygiad y sector mewn ffyrdd ychwanegol.

Roedd rhai gwinllannoedd, er enghraifft, wedi wynebu anawsterau o ran cael gofynion cynllunio ar gyfer ychwanegu cyfleusterau twristiaeth ar eu safleoedd presennol gan atal twf. Mae pryder hefyd y gallai darparu cyllid i newydd-ddyfodiaid arwain at ostwng prisiau drwy orlenwi'r farchnad ac amharu ar ansawdd uchel y gwinoedd a gynhyrchir.

Os nad yw'r llywodraeth yn deal y diwydiant yn llawn, ni fyddant yn gallu rhoi cefnogaeth.

Mae'r cyswllt â thwristiaeth ar gyfer y sector gwin yn hanfodol – hebddo, mae'n debyg na fyddai'n broffidiol.

Os bydd pobl yn plannu gwinllannoedd, byddant yn cael trafferth cael caniatâd cynllunio i adeiladu'r dwristiaeth angenrheidiol i'w cefnogi.

Nid oes gan y diwydiant Gwin yng Nghymru bwynt gwerthu unigryw i fanteisio arno. Nid oes unrhyw ymdrech benodol i ddatblygu gwell cynhyrchiant nac i annog buddsoddiad mewnol.

Mae angen mwy o gydweithio gyda LIC, gellir gwneud mwy i ddangos i bobl beth sydd ar eu stepen drws.

Mae yna raniad gwirioneddol o fewn y diwydiant yn ymwneud â phynciau penodol, a dim ffocws strategol amlwg.

Nid oes digon o gyfleoedd i winllannoedd o Gymru gael mynediad at grantiau.

# Adran 6. Model Pedwar Cam Cynhyrchwyr Cymru

Mae'r Model Pedwar Cam Cynhyrchwyr Cymru a ddangosir isod yn seiliedig ar brofiad blaenorol Promar.

Mae'r pedwar math yma o gynhyrchwyr yn aml yn bodoli ar draws pob sector bwyd-amaeth (gan gynnwys gwin), yn ogystal ag ar draws Cymru, y DU a thu hwnt.

Mae dosbarthiad mathau o gynhyrchwyr yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis maint (gwinllan), strwythur perchnogaeth, diwylliant busnes a dyhead y winllan, seilwaith a chapasiti ffisegol, niferoedd staff, sianeli gwerthu, yr arlwy twristiaeth a strategaethau ymchwil a datblygu.

## MODEL 4 CAM GWINWYDDAETH YNG NGHYMRU

### 1 RHAN AMSER AC FEL HOBI

- Graddfa fechan (tua 1 erw) – menter ran amser
- Dim ond yn gwerthu o ddrws y seler
- Dim bwriad i greu gweithgaredd twristiaeth
- Dim achrediadau ffurfiol
- Ystod gyfyngedig o winoedd ar gael
- Prinder gweithgareddau Ymchwil a Datblygu

### 2 CYNHYRCHWYR AR RADDFA FACH

- Gwerthu o ddrws y seler ac yn cyflenwi'r gwasanaeth bwyd yn lleol
- Rhywfaint o weithgaredd twristiaeth
- Dim achrediad gan y diwydiant
- Dim gweithgaredd Ymchwil a Datblygu ffurfiol wedi'i gynllunio
- Ychydig iawn o ymgysylltiad ehangach gyda chwsmeriaid

### 3 RHEOLWYR

- Llai o ddibyniaeth ar werthu o ddrws y seler - cwsmeriaid ledled Cymru a gweddill y DU
- Mwy o weithgareddau twristiaeth gyda gweithwyr cyflogedig
- Rhywfaint o achrediadau'r diwydiant
- Gwneud rhywfaint o weithgaredd Ymchwil a Datblygu
- Rhywfaint o ymgysylltu ehangach gyda chwsmeriaid

### 4 ARWEINWYR

- Nifer o sianeli gwerthu, drws y seler, lletygarwch, ar-lein, allforio ayb
- Cyfleuster potelu eu hunain
- Gweithgareddau twristiaeth cwbl integredig gyda gweithwyr cyflogedig
- Ystod lawn o achrediadau'r diwydiant
- Adnoddau marchnata a gweithgareddau penodol
- Cynhyrchu ystod eang o winoedd

Ni fwriedir i nodweddion pob cam o'r model fod yn gyflawn.

Mae'r rhan fwyaf o winllannoedd yng Nghymru yn dod o dan Gamau 1 a 2 ("rhan amser ac fel hobi" a "chynhyrchwyr ar raddfa fach", gyda llai yn cael eu dosbarthu fel "rheolwyr" neu "arweinwyr" o fewn y diwydiant.

## 6.1 Cam 1 - Rhan Amser ac Fel Hobi

Fel arfer, mae gwinllannoedd sy'n dod o fewn y categori hwn yn fach, yn aml tuag 1 erw o ran maint. Caiff y winllan ei hun ei hystyried fwy neu lai fel hobi, neu rywbeth sy'n cael ei wneud yn rhan-amser ochr yn ochr â phrif "swydd bob dydd" y perchennog.

Fel arfer, bydd gwin gan gynhyrchwyr yn y cam hwn yn cael ei werthu drwy "ddrws y seler", gyda dewis cyfyngedig o win ar werth. Ni fydd unrhyw weithgarwch twristiaeth cysylltiedig wedi'i ddatblygu'n dda ac ni fydd y winllan ei hun wedi cael unrhyw achrediadau ffurfiol.

Mae'r holl ofynion llafur yn cael eu bodloni ganddyn nhw eu hunain, gyda chymorth achlysurol gan fyfyrwyr/eraill sy'n chwilio am waith rhan-amser ac ati.

## 6.2 Cam 2 – Cynhyrchwyr ar raddfa fach

Bydd y gwinllannoedd hyn yn gwerthu'r rhan fwyaf o'u gwin drwy "ddrws y seler", ond byddant hefyd yn cael eu gwerthu i fusnesau bwyd lleol, megis bwytai, caffis a gwestai.

Bydd rhyw fath o weithgaredd twristiaeth yn gysylltiedig â'r winllan, siop fach neu deithiau drwy'r winllan yn fwy na thebyg.

Ni fydd unrhyw achrediadau diwydiant ac ni fydd unrhyw gynlluniau ymchwil a datblygu ffurfiol i ddatblygu'r winllan ymhellach. Defnyddir llafur lleol, sy'n aml yn ffrindiau a theulu, ar adegau prysur.

## 6.3 Cam 3 - Rheolwyr

Yng ngham tri, dibynnir llai ar werthu gwin drwy "ddrws y seler", gyda mwy o ehangu ar draws gwasanaeth bwyd lleol, ac o bosibl rhywfaint o werthiant ar-lein.

O ganlyniad, bydd cwsmeriaid wedi'u lleoli yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU. Bydd arlwy twristiaeth llawer mwy wedi'i sefydlu sy'n darparu swyddi i'r economi lleol, er enghraifft siopau ar raddfa fwy, caffis, bwytai, cyrsiau blasu gwin ac ati.

Bydd gan y gwin a gynhyrchir ryw fath o achrediad a bydd rhywfaint o weithgarwch ymchwil a datblygu yn cael ei wneud i ddatblygu'r farchnad yn y dyfodol/arlwy i gwsmeriaid.

Defnyddir rhywfaint o lafur dan gontract ar adegau prysur.

## 6.4 Cam 4 – Arweinwyr

Bydd y rhai yn y categori "arweinwyr" yn gwerthu eu gwin drwy amryw o sianelau gwerthu, gan gynnwys "drws y seler", lletygarwch, ar-lein a rhai allforion ar raddfa fach. Bydd cadwyn gyflenwi fertigol ar waith, gyda'r winllan yn gwneud ei gwaith prosesu a photelu ei hun ar y safle.

Bydd arlwy twristiaeth datblygedig a chysylltiedig, sy'n darparu swyddi i nifer fwy o bobl. Bydd gan winoedd a gynhyrchir gan y rhai yn y cam hwn ystod lawn o achrediadau a bydd

amrywiaeth eang o winoedd hefyd yn cael eu cynhyrchu.  Bydd adnoddau a gweithgarwch marchnata pwrpasol yn cael eu cynnal yn barhaus.

Mae cyfleoedd cyflogaeth yn canolbwyntio mwy ar ochr dwristiaeth y busnes yn hytrach na'r winllan ei hun.

## 6.5 Sut i Fynd o un Cam i'r llall yn y Model 4 Cam

Yr allwedd i ddatblygiad y diwydiant gwinyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol yw i winllannoedd - dros amser – fynd o un cam i'r llall yn y model hwn.  Mae'n llawer haws dweud na gwneud hyn yn ôl ein profiad ni.

Cydnabyddir hefyd, am ba reswm bynnag, efallai na fyddai rhai cynhyrchwyr yn dewis mynd o un cam i'r llall. Y rheswm am hyn yn aml yw dyhead personol, yn fwy na dim arall.

Ar gyfer diwydiant ar raddfa fach, fel sector gwinllannoedd Cymru a'r sector twristiaeth cysylltiedig, mae'n anodd gweld y gellir cyflawni hyn, hyd yn oed i'r "goreuon" heb lawer iawn o gymorth allanol gan gyfuniad o Lywodraeth Cymru ei hun a'r SIG Gwin.

Efallai na fydd glasbrint perffaith neu "barod" er mwyn cyflawni hyn. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud yn yr astudiaeth hon a thrwy ddysgu unrhyw "wersi trosglwyddadwy" priodol o'r astudiaethau achos rhyngwladol, mae angen cyfuniad o'r canlynol:

- datblygu strategaeth diwydiant gan brif sefydliadau a rhanddeiliaid yn y diwydiant - er mwyn nodi ymdeimlad o gyfeiriad tymor canol i hirdymor.
- bod gwinllannoedd Cymru gynyddu mewn maint dros amser, ond mewn modd cynlluniedig a rheoledig
- datblygu ei hunaniaeth Gymreig gref ei hun, ond hefyd bod yn barod i ddysgu oddi wrth sectorau gwin eraill ledled y byd hefyd
- bod gwinllannoedd a'r SIG yn datblygu cynnig marchnata cryfach ar gyfer gwin Cymru
- cymorth gan Lywodraeth Cymru a'i sefydliadau cysylltiedig, megis CFf, Menter A Busnes a Chroeso Cymru, yn bennaf gyda datganiad(au) clir ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu gwinllannoedd a gweithgarwch twristiaeth yn y dyfodol
- buddsoddi cymaint ar ochr dwristiaeth y busnes, ag a wneir yn yr ochr cynhyrchu gwin
- yn y tymor canolig i hirdymor, creu canolfan hyfforddi ac addysgol pwrpasol yng Nghymru ar gyfer y sector gwinyddiaeth a ffactorau cysylltiedig megis cynllunio olyniaeth a chynlluniau prentisiaeth
- ceisio gwella proffesiynoldeb cyffredinol y sector yn gyson heb golli ei gymeriad a'i natur gynhenid
- yn y tymor canolig i hirdymor, dod o hyd i ffordd o brosesu mwy o winwydd yng Nghymru, yn hytrach na gwneud hyn yng ngweddill y DU
- meddwl yn gyson am wella a hybu ansawdd gwin Cymru

- canolbwyntio yn y tymor byr ar y farchnad "Gymreig" leol ac yna yn y tymor canolig i hirdymor, gweddill y DU. Mae allforio i rannau eraill o'r byd yn rheolaidd yn dal i fod yn nod i'r dyfodol ac ni ddylai fod yn flaenoriaeth

- cael pwynt cyswllt/ffocws cyfunol ar gyfer datblygiad y Sector yn y Dyfodol yn hytrach na'r dull tameidiog presennol, sef dwy gymdeithas fasnach a'r SIG

Mae hon yn "rhestr siopa" sylweddol o bethau sydd angen digwydd.

Ychydig iawn o'r hyn sydd yn y rhestr fydd yn digwydd yn y tymor byr. Nid yw hyn yn awgrymu na ddylid dechrau cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, mae angen darlun tymor canolig i hirdymor sy'n ymestyn dros gyfnod o 3/5 - 10 mlynedd gan yr holl randdeiliaid yn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys LIC, y SIG ac yn anad dim, wrth gwrs, y gwinllannoedd eu hunain.

# Adran 7. Casgliadau a Chamau Nesaf

## 7.1 Casgliadau

Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- amcangyfrifir bod tua 164 erw o winwydd ar gyfer gwneud gwin wedi'u plannu yng Nghymru ar hyn o bryd. O'r cyfanswm hwn, mae'r rhan fwyaf o'r tiroedd a blannwyd yn Ne Cymru lle cer 62 erw ac yng Ngorllewin Cymru lle ceir 61 erw.

- mae'r data diweddaraf gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dangos bod y diwydiant yn derbyn refeniw cyfartalog o tua £337,000 y flwyddyn o gynhyrchu gwin. Dywedodd llawer o winllannoedd na fyddent yn gwneud elw heb yr arlwy twristiaeth.

- mae cydberthynas gref rhwng gwinllannoedd Cymru a'r sector twristiaeth. Roedd y rhan fwyaf o winllannoedd a oedd yn rhan o'n proses ymchwil naill ai'n cynnig arlwy twristiaeth i'w cwsmeriaid, neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, er eu bod o wahanol natur a graddfeydd.

- twristiaeth sy'n cyfrif am hyd at 50% o refeniw rhai busnesau, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu ar raddfa fach iawn. Amcangyfrifwn fod gwerth uniongyrchol twristiaeth sy'n seiliedig ar win i ddiwydiant Cymru oddeutu £10.0 miliwn y flwyddyn o'i gymharu â gwerth cynhyrchu gwin gwirioneddol sydd ychydig yn llai na £0.4 miliwn y flwyddyn

- mae tua 300 o bobl yn cael eu cyflogi'n rhan-amser o fewn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru, a chyflogir 100 o bobl eraill yn llawn amser. Cyflogir y rhan fwyaf o'r rhai a gyflogir yn y sector ar yr ochr dwristiaeth. Nid yw nifer fawr o weithwyr sy'n gweithio o fewn y diwydiant yn weithwyr ffurfiol (e.e. gallant fod yn aelodau o'r teulu, a ddefnyddir ar sail ad hoc neu ffrindiau, a ddefnyddir ar gyfnodau prysur adeg cynaeafu)

- o'r herwydd, nid yw nifer o'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu talu'n ffurfiol am eu gwaith

- i'r rhai a gyflogir yn ffurfiol, mae ychydig o dan £4 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario ar gyflogau

- gan edrych tua'r dyfodol, bydd twf, o ran swyddi a buddsoddiad yn dod o ochr dwristiaeth y diwydiant yn llawer cynt na'r ochr gynhyrchu

- er bod y cyfraniad cyffredinol tuag at economi Cymru o'r sector gwinllannoedd yn fach ar hyn o bryd, mae'r diwydiant yn newydd ac yn dal i ddatblygu. Fodd bynnag, mae ganddo'r potensial i dyfu'n llawer mwy yn y dyfodol

- mae teimlad cyffredinol o optimistiaeth o fewn y sector, gyda llawer yn gobeithio ehangu eu gwinllan a'u harlwy twristiaeth a'r gwin a gynhyrchir yn y dyfodol. Mae hwn hefyd yn ddiwydiant balch iawn - yn falch o'i gynnyrch ac yn falch o'i "Gymreictod"

- mae'r rhan fwyaf o winllannoedd Cymru yn gwerthu'r rhan fwyaf o'u gwin drwy "ddrws y seler" (h.y. o'r winllan ei hun i siopau bwyd lleol, unigolion preifat a thwristiaid/ymwelwyr eraill). Mae hyn yn cyfrif am tua 77% o'r holl werthiannau ar draws y sector

- Ymhlith y sianeli gwerthu ychwanegol mae all-fasnach (siopau lleol) 9%; gwerthiannau ar-lein ar 7%; ar-fasnach (gwestai, bwytai, caffis); yn ogystal â gwerthiannau cyfanwerthu – mae'r rhain tua 3%. Mae effaith COVID-19 wedi golygu bod nifer o winllannoedd wedi gweld eu gwerthiant i'r sector ar-fasnach yn gostwng yn 2020, wrth i'r lleoliadau hyn orfod cau am gyfnodau hir. O ganlyniad, symudodd gwerthiant yn aml tuag at y sianel ar-lein, fel arfer drwy ddatblygu gwefannau unigol. Ar gyfer rhai gwinllannoedd, mae gwerthiant ar-lein bellach yn cyfrif am tua 50% o gyfanswm eu gwerthiannau

- mae nifer fach o gynhyrchwyr o Gymru (dim ond dau hyd y gwyddom) wedi bod yn allforio gwin. Mae'r niferoedd dan sylw serch hynny yn fach iawn

- ac eithrio un peiriant prosesu[33] hanesyddol yng Nghymru, mae'r cyfleusterau presennol yn Lloegr (Swydd Stafford a Chaerloyw) ar hyn o bryd yn aml yn bodloni gofynion prosesu'r sector yn ddigonol

- dylid cynllunio astudiaeth ar ddichonoldeb cyfleusterau prosesu ychwanegol yng Nghymru yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach

- er gwaethaf y berthynas agos hon â gwinoedd yn Lloegr, mae'n amlwg hefyd bod pob un yn sector gwinllannoedd Cymru'n awyddus i fod yn ddiwydiant annibynnol - yn hytrach na bod yn estyniad i sector gwin Lloegr

- nid yw'r rhan fwyaf o'r gwinllannoedd presennol yng Nghymru wedi cynyddu nifer eu herwau lle tyfir grawnwin yn ystod y 5/10 mlynedd diwethaf, ac eithrio rhai safleoedd a blannwyd yn ddiweddar

- ar sail y diddordeb cynyddol mewn gwin o Gymru, fodd bynnag, mae dros hanner (68%) y perchnogion gwinllannoedd eisoes wedi rhoi cynlluniau ar waith i gynyddu maint eu busnes, neu'n bwriadu gwneud hynny, yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf. Mewn nifer o achosion - yn gynt na hynny. Gallai hynny fod naill ai drwy gynyddu cyfanswm nifer y gwinwydd, ehangu'r arlwy twristiaeth o safbwynt seilwaith, neu sefydlu gwindy bach ar y safle

- ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ganolfan hyfforddi a/neu addysgol penodol yng Nghymru ar gyfer y sector gwinyddiaeth. Yn aml mae'r rhan fwyaf yn credu mai'r brif ganolfan ragoriaeth ar gyfer hyn yn y DU yw Coleg Plumpton yn Sussex. Yn y tymor byr, dylid ystyried y posibilrwydd i ddatblygu cysylltiad cryf â Plumpton.

- dylid ystyried astudiaeth ehangach o'r cyfle am ganolfan ragoriaeth yng Nghymru

- mae cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthiant gwin yng Nghymru ac yna yng ngweddill y DU hefyd yn ffocws allweddol ar gyfer cynyddu cynhyrchiant a refeniw. Mae'n debyg nad yw allforio i weddill yr UE neu farchnadoedd sy'n datblygu yn Asia, er enghraifft, yn nod tymor byr realistig i winllannoedd Cymru gan fod y rhan fwyaf o'r galw yn lleol o hyd. Nid oes lefel gynhyrchu ddigonol yng Nghymru i edrych ymhellach i ffwrdd ar hyn o bryd

- mae ymchwil pwrpasol i gwsmeriaid gwinoedd Cymru yn syniad da

- gall sector gwin Cymru chwarae rhan weithredol yn y mentrau polisi ehangach sy'n cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru

[33] Bellach yn 2 - y ddau yn Sir Fynwy

- gofynnwyd i'n hymatebwyr osod nifer o ofynion cymorth y diwydiant yn y dyfodol mewn trefn ar raddfa o 1 – 7 (dim angen oedd 1, a 7 oedd angen fwyaf). Ar sail hyn, credir mai'r mathau o gymorth sydd eu hangen fwyaf i'r sector yw:
    - gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ychwanegol yn y farchnad gartref a marchnad ehangach y DU, gan gysylltu â mentrau Croeso Cymru ac ati
    - datblygu sgiliau a chyfleusterau/safleoedd hyfforddi pwrpasol yng Nghymru
    - datblygu cadwyni cyflenwi cadarn a chydweithredol.
    - gwella ansawdd, datblygu amrywogaethau ac ati
- roedd cynaliadwyedd yn faes ffocws cyffredin i berchnogion gwinllannoedd, fel sbardun gyfer arloesi a mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol. Mae sectorau gwin mewn gwledydd fel Seland Newydd a De Affrica eisoes wedi datblygu cynlluniau cynaliadwyedd ar gyfer eu diwydiannau.
- ar hyn o bryd, nid oes USP cryf ar gyfer gwin o Gymru, ac eithrio busnesau bach unigol, unigryw, i bob pwrpas. Byddai'r diwydiant yn elwa ar frand Cymreig cyffredinol, ond gan ddal i gadw rhyw elfen unigol o bob gwinllan, rhag colli'r hunaniaeth ranbarthol sy'n werthfawr/bwysig.
- dylai Cymru geisio croesawu'r amrywiaeth o ddulliau cynhyrchu sy'n bodoli. Dylai ganolbwyntio ar ansawdd cynhyrchu, nid y math penodol. Gall yr arbenigedd, ynghyd â'r rhanbarthau cynhyrchu, ddilyn yn ddiweddarach.
- yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'n ymddangos bod y SIG wedi dod yn fwy amlwg, o ganlyniad i'r heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19.

## 7.2 Argymhellion

### 7.2.1 Rôl LlC yn y Dyfodol

Gellir crynhoi rôl LlC yn y Dyfodol yn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth fel a ganlyn:

- egluro p'un ai a yw gwinllannoedd yn cael eu dosbarthu fel menter amaethyddol neu'n rhan o'r sector twristiaeth.
- cyfrannu at nodi ei ddyhead ei hun ar gyfer y sector.
- cymryd golwg tymor canolig i hirdymor ar gyfraniad y sector gwin a thwristiaeth cysylltiedig yng Nghymru, a'i gyfraniad yn y dyfodol.
- darparu gwybodaeth gliriach ynghylch pa gymorth a allai fod ar gael i winllannoedd yng Nghymru.
- ymgysylltu â sefydliadau megis cynghorau lleol, CFf a Menter a Busnes ac annog y sefydliadau hynny i roi cymorth i'r sector gwinllannoedd.

- parhau i hyrwyddo cynllun Dynodiad Daearyddol newydd y DU ac aelodau o deulu DD Cymru ar hyn o bryd/y dyfodol, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r cynllun a thynnu sylw at ansawdd y cynnyrch sydd gan Gymru i'w gynnig.

### 7.2.2 Rôl SIC yn y Dyfodol

O ran rôl y SIG, dylai:

- barhau â'r gwaith da a wnaed yn arbennig dros y 12 mis diwethaf.
- hwyluso'r gwaith o ddatblygu strategaeth gadarnach yn y diwydiant – dylai hyn gynnwys astudiaeth ar y galw am gyfleusterau prosesu gwin yng Nghymru yn y tymor canolig i'r hirdymor a datblygu brand Cymreig ar gyfer y sector gwinyddiaeth.
- ystyried datblygu cynllun cynaliadwyedd ar gyfer diwydiant gwin Cymru.
- datblygu cyswllt cryfach â Llywodraeth Cymru, CFf a Menter a Busnes i hybu a datblygu cyswllt â Choleg Plumpton gyda'r bwriad o ddatblygu canolfan ragoriaeth i Gymru yn y tymor canolig i hirdymor – mae angen cynnal astudiaeth ar hyn.
- arwain ar asesu'r galw/lleoliad posibl mwy o gyfleusterau prosesu yng Nghymru.
- arwain ar astudiaeth ymchwil i'r farchnad o ran proffil cwsmeriaid gwin Cymru.
- hwyluso mwy o ymgysylltu â Chroeso Cymru.
- annog pobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyrwyddo fel wythnos gwin Cymru.
- ystyried datblygu cynllun prentisiaid/cynllun cynllunio olyniaeth a geir yn Seland Newydd.

### 7.2.3 Rôl Gwinllannoedd yn y Dyfodol

Mae rôl y sector preifat o fewn y sector gwinllannoedd a thwristiaeth yng Nghymru yn debyg, yn rhannol i safbwynt a ffocws Llywodraeth Cymru a'r SIG Gwin. Mae perchnogion gwinllannoedd yn credu mai eu rôl nhw yw gyrru'r sector yn ei flaen, yn ogystal â gyrru eu busnes eu hunain yn ei flaen. Mae llawer o berchnogion brwdfrydig yn y sector sy'n awyddus i yrru eu diwydiant yn ei flaen. Gellir crynhoi fel a ganlyn:

- cefnogi'r SIG yn llawn.
- chwilio am feysydd diddordeb cyffredin er mwyn gwella'r sector yn hytrach na bod rhaniadau.
- datblygu gyda'r SIG, strategaeth gynhwysol ar gyfer datblygiad y diwydiant yn y dyfodol.
- cymryd rhan mewn cynllunio olyniaeth a gweithgarwch mentora fel y bo'n briodol.
- cefnogi ymdrechion marchnata'r diwydiant.
- cael rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth a'r cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- ymgysylltu â chynghorau lleol i oresgyn rhwystrau a chyfyngiadau.

- cymryd cyfrifoldeb am ei ddatblygiad ei hun
- dangos sut y gall gyfrannu at amcanion ehangach Llywodraeth Cymru

Fel y dywedwyd, mae hon yn agenda eithaf uchelgeisiol ond yn un y mae angen ei deall os yw'r sector am gyflawni ei botensial dros y 5 – 10 mlynedd nesaf.

# Adran 8. Atodiadau

## 8.1 Atodiad 1 - Methodoleg

Cynhaliodd Promar International y prosiect hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru (LlC) gan ddefnyddio'r fethodoleg pum cam ganlynol:



| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 |
|---|---|---|---|---|
| Dechrau | Ymchwil Desg – LlC, rhanddeiliaid eraill yn y sector Gwin yng Nghymru | Ymchwil Maes – tua 30 o gyfweliadau gyda gwinllannoedd yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, maint, aelodau SIG a'r rhai nad ydynt yn aelodau, busnesau newydd a gwinllannoedd sydd eisoes wedi sefydlu | Profiadau cymharol – Chile, De Affrica, Seland Newydd, Ffrainc a gweddill y DU | Adroddiad – drafftio, cadarnhau a chreu 2 gyflwyniad |

Fel rhan o'r ymchwil hwn, cynhaliwyd 26 o gyfweliadau gyda pherchnogion gwinllannoedd (19) a rhanddeiliaid y sector (7)[34]. Rhestrir y rhai y buom yn siarad â nhw isod er gwybodaeth:

### Gwinllannoed

- Ystâd Ancre Hill
- Gwinllan Bryn Ceiliog
- Gwinllan Conwy
- Gwinllan y Dyffryn
- Gwynfyd Môn
- Gwinllan Hebron
- Gwinllan Jabaiak

[34] Oherwydd Covid– 9, cynhaliwyd y rhain yn rhithwir

- Gwinllan Kerry Vale[35]
- Gwinllan Llaethliw
- Gwinllan Llanerch
- Llwyn Pur
- Mawddach
- Gwinllan Pant Du
- Gwinllan Parva Farm
- Gwinllan Traeth Coch
- Gwinllan Sticle
- Gwinllan The Dell
- Gwinoedd Velfrey
- Gwinllan White Castle

**Rhanddeiliaid y Sector**

- Busnes Cymru
- Levercliff – rheolwyr SIG Gwin
- Croeso Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru
- Gwinllannoedd Cymru
- Gwinllannoedd Prydain Fawr

[35] Mae Kerry Vale wedi'i leoli ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ond ar ochr Lloegr i'r ffin - nid yw data o Kerry Vale wedi'i gynnwys yn ein cyfrifiadau

## 8.2 Atodiad 2 – Rhestr Gwinllannoedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

| | |
|---|---|
| Gwinllan Tŷ Croes | Ynys Môn |
| Gwinllan Lonisaf | Bro Morgannwg |
| Gwinllan Penarth | Powys |
| Gwinllan The Dell | Sir Fynwy |
| Ancre Hill Estates | Sir Fynwy |
| Gwinllan Meadow View | Bro Morgannwg |
| Gwinllan Jabajak | Sir Gaerfyrddin |
| Gwinllan Great House | Bro Morgannwg |
| Gwinllan White Castle | Sir Fynwy |
| Gwinllan Llaethliw | Ceredigion |
| Gwinllan Pant Du | Gwynedd |
| Gwinllan Vyrnwy | Powys |
| Gwinllan a Gwinoedd Spring Hollow | Sir Gaerfyrddin |
| Gwinllan Velfrey | Sir Benfro |
| Gwinllan Conwy | Conwy |
| Gwinllan Montgomery | Powys |
| Gwinllan Traeth Coch | Ynys Môn |
| Llwynhudol Plas | Gwynedd |
| Gwinllan The Great Esgrape | Ynys Môn |
| Gwinllan Y Dyffryn | Sir Ddinbych |
| Ffynnon Lefrith | Sir Gaerfyrddin |
| Gwinllan Hebron | Sir Gaerfyrddin |
| Guidfa Farm | Powys |
| Gwinllan Sticle | Sir Gaerfyrddin |
| Whinyard Rocks | Powys |
| Gwinllan David Morris | Sir Fynwy |
| Gwinoedd Stonebird | Sir Fynwy |
| Gwinllan Llwyn Pur | Sir Gar Cymru |
| Gwinllan Glyndwr | Bro Morgannwg |
| Gwinllan Croffta | Bro Morgannwg |
| Gwinllan Monnow Valley | Gwent |
| Gwinllan Parva Farm | Sir Fynwy |
| Gwinllan Llanerch | Bro Morgannwg |
| Gwinllan Cwm Deri | Sir Benfro |
| Gwinllan Sugar Loaf | Gwent |
| Gwinllan Bryn Ceiliog | Bro Morgannwg |
| Gwinllan Gelynis | Bro Morgannwg |